Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

# Arweiniad Cyflawni

Mehefin 2020

**Cynnwys**


1 Cyflwyniad 1

1.1 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 1

1.2 Beth yw Arweiniad Cyflawni'r CMCC? 1

1.3 Pwy ddylai ddefnyddio Arweiniad Cyflawni'r CMCC? 2

1.4 Rôl Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol 2

1.5 Penderfyniadau gan Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (ACP) 3

1.6 Paratoi cynnig y mae angen i ACP ei awdurdodi 4

1.7 Deall a defnyddio polisïau'r CMCC 5

1.8 Deall y derminoleg 7

1.8.1 Hierarchaeth Benderfyniadau 7

1.8.2 Effeithiau niweidiol arwyddocaol 8

1.8.3 Rhoi rhesymau clir sy'n argyhoeddi dros fwrw ymlaen 8

1.8.4 Amgylchiadau eithriadol 9

1.8.5 Polisïau a anogir 10

1.8.6 Dadleoli 11

2 Polisïau Cyffredinol 12

2.1 GEN – Polisi Cynllunio 12

2.1.1 GEN_01 Polisi Cynllunio 12

2.1.2 GEN_02 Polisi Cynllunio 12

2.2 ECON - Sicrhau economi forol gynaliadwy 13

2.2.1 ECON_01 Twf economaidd cynaliadwy 13

2.2.2 ECON_02 Cydfodoli 14

2.3 SOC - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn 15

2.3.1 SOC_01 Mynediad i'r amgylchedd morol 15

2.3.2 SOC_02 Llesiant cymunedau'r arfordir 16

2.3.3 SOC_03 Achosion o lygredd môr 16

2.3.4 SOC_04 Y Gymraeg a'i diwylliant 17

2.3.5 SOC_05 Asedau hanesyddol 17

2.3.6 SOC_06 Tirweddau dynodedig 19

2.3.7 SOC_07 Morweddau 20

2.3.8 SOC_08 Y gallu i wrthsefyll newidiadau i'r arfordir a llifogydd ar yr arfordir 22

2.3.9 SOC_09 Effeithiau ar newidiadau i'r arfordir ac ar lifogydd ar yr arfordir 23

2.3.10 SOC_10 Lleihau'r newid yn yr hinsawdd 23

2.3.11 SOC_11 Y gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd 24

2.4 ENV - Byw o fewn terfynau amgylcheddol 25

2.4.1 ENV_01 Ecosystemau morol cydnerth 25

2.4.2 ENV_02 Ardaloedd Morol Gwarchodedig 26

2.4.3 ENV_03 Rhywogaethau estron goresgynnol 27
2.4.4 ENV_04 Sbwriel Môr 28
2.4.5 ENV_05 Sŵn tanddwr 29
2.4.6 ENV_06 Ansawdd aer a dŵr 30
2.4.7 ENV_07 Rhywogaethau a chynefinoedd pysgod 31
2.5 GOV - Hyrwyddo llywodraethu da 31
2.5.1 GOV_01 Effeithiau cronnol 31
2.5.2 GOV_02 Cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau 32
2.6 SCI - Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol 34
2.6.1 SCI_01 Gwneud penderfyniadau ar sail risg 34

3 Polisïau Diogelu a Chefnogi Sectorau 36

3.1 Polisïau i Gefnogi'r Sector 36
3.1.1 AGG_01: Agregau 37
3.1.2 AQU_01: Dyframaeth 39
3.1.3 D&D_01: Carthu a Gwaredu 42
3.1.4 ELC_01 i 04: Ynni – Carbon Isel 44
3.1.5 O&G_01 a 02: Ynni – Olew a Nwy 48
3.1.6 FIS_01: Pysgodfeydd 51
3.1.7 P&S_01 a 02: Porthladdoedd a Morgludo 52
3.1.8 CAB_01: Ceblau o dan y Môr 55
3.1.9 T&R_01: Twristiaeth a Hamdden 56
3.2 Polisïau Diogelu Sectorau 58
3.2.1 DEF_01: Amddiffyn 59
3.2.2 SAF_01: Diogelu Gweithgareddau Presennol 60
3.2.3 SAF_02: Diogelu Adnoddau Strategol 79

4 Atodiad 1: Geirfa 80

4.1 Acronymau 80
4.2 Diffiniadau 82

5 Atodiad 2: Mapiau Dangosol 89

ISBN 978-1-80038-641-9

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

1. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer dyfroedd Cymru. Mae'n disgrifio gweledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal cynllun morol Cymru a'r polisïau y bydd eu hangen i'w gwireddu, gan helpu defnyddwyr y môr a'r rheini sy'n cynnal gweithgareddau ar y tir (all effeithio ar ardal y cynllun) i gefnogi ymdrechion i ddatblygu'n moroedd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r CMCC yn cefnogi datblygu cynaliadwy trwy arwain a chefnogi penderfyniadau effeithiol, cymesur a chyson.

2. Bydd yr CMCC yn effeithio ar bob penderfyniad **all effeithio ar ardal y cynllun morol.**[1] Yn y cyd-destun hwn, ystyr penderfynwyr yw'r Cyrff Cyhoeddus (Perthnasol) neu'r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (ACP) sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch yr ardal forol.

## 1.2 Beth yw Arweiniad Cyflawni'r CMCC?

3. Mae'r Arweiniad Cyflawni hyn yn ategu'r CMCC a dylai Awdurdodau Cyhoeddus eu hystyried wrth wneud penderfyniadau allai effeithio ar ardal y cynllun. Mae'r ddogfen yn darparu manylion am bolisïau'r CMCC i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson. Nid yw'n cyflwyno polisïau cynllunio newydd. Mae'r Arweiniad yn cyd-fynd â pholisïau, tystiolaeth a chanllawiau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau anstatudol sy'n cefnogi cynllunio morol yng Nghymru, a byddwn yn eu diweddaru o dro i dro.

4. **Dylech ddarllen yr Arweiniad hyn ochr yn ochr â'r CMCC**. Os ceir ansicrwydd ynghylch gofynion yr CMCC neu sut i'w rhoi ar waith neu ynghylch unrhyw rai o'i bolisïau, dylai penderfynwyr droi at yr CMCC am eiriad a bwriad diffiniedig y polisi o fewn cyd-destun y Cynllun cyfan.

5. Mae'r CMCC a'r Arweiniad hyn yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau eraill pan fo hynny'n berthnasol. Cewch ragor o wybodaeth a deunydd i'ch helpu yn:
   - Adroddiadau Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd yr CMCC ac asesiadau eraill o effeithiau'r CMCC;
   - tystiolaeth strategol, er enghraifft Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru (WMER) a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol;
   - Y Porthol Cynllunio Morol Cymru[2] a phortholau tystiolaeth cynlluniau morol neu gronfeydd data ardaloedd cyffiniol;
   - Hysbysiadau Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â phynciau penodol ac yn rhoi manylion technegol ategol at ddiben rhoi'r CMCC ar waith[3];

[1] Bydd hynny'n cynnwys pob penderfyniad sy'n dal i fod yn agored a/neu sydd heb ei ddatrys ar ddyddiad ei fabwysiadu.

[2] http://lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy

[3] Gweler CMCC para 62.

- Polisïau a chanllawiau cysylltiedig a pherthnasol;
- Fframwaith Monitro ac Adrodd yr CMCC ac adroddiadau monitro.

6. Darperir canllaw ar gyfer pob un o bolisïau'r CMCC. Mae Pennod 2 yn ganllaw i'r polisïau trawsbynciol cyffredinol a Phennod 3 i'r polisïau sy'n ymdrin â sectorau penodol. Fe welwch restr o dermau a diffiniadau yn yr CMCC ac yn yr Arweiniad hyn yn Atodiad 1.

> Mae gan bob polisi yn yr CMCC god a theitl (e.e. SOC_04 = polisi cymdeithasol rhif 4: 'Yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru'). Yn yr Arweiniad hyn, gellir adnabod y polisïau wrth **god y polisi a/neu ei deitl**.
>
> Dylid bob amser ddarllen yr arweiniad sy'n ymwneud â pholisi penodol ar y cyd â'r adrannau polisi cyfatebol yn yr CMCC.

### 1.3 Pwy ddylai ddefnyddio Arweiniad Cyflawni'r CMCC?

7. Bydd yn rhaid wrth weithredu gan nifer o bartïon i sicrhau bod yr CMCC yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, o'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau awdurdodi a gorfodi i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ehangach all effeithio ar ardal y cynllun morol. Dylai pawb sydd ynghlwm wrth benderfyniadau all effeithio ar ardal y cynllun morol ddefnyddio'r Arweiniad hyn; pobl fel :

- Ymgeiswyr prosiect;
- Penderfynwyr mewn awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau cynllunio a rheoleiddwyr môr a thir; a
- Defnyddwyr eraill ardal y cynllun morol.

8. Nid oes angen caniatâd ffurfiol oddi wrth ACP i gynnal pob gweithgaredd yn ardal y cynllun morol. Er enghraifft, nid yw rhai gweithgareddau, fel twristiaeth a hamdden, yn cael eu rheoleiddio'n fanwl, ac mae rhai rheoliadau'n eithrio rhai gweithgareddau rhag gorfod cael caniatâd. Er bod yr CMCC a'r Arweiniad hyn yn neilltuol o berthnasol i benderfyniadau'r ACPau, mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyd-destun hefyd i holl ddefnyddwyr ardal y cynllun morol iddynt ddeall eu perthynas â pholisi cynllunio morol Llywodraeth Cymru a sut y gallant gyfrannu ato.

### 1.4 Rôl Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol

9. Yn ôl Adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA), rhaid i bob corff cyhoeddus:

- wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi (adran) 58(4)) sy'n effeithio neu a allai effeithio ar ardal forol y DU **yn unol â Datganiad Polisi Morol 2011 y DU (MPS) a Chynlluniau Morol perthnasol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall** (adran 58(1));
- esbonio'u rhesymau os na wneir penderfyniad awdurdodi neu orfodi yn unol â'r MPS a Chynlluniau Morol perthnasol; ac

- **ystyried** yr MPS a'r Cynlluniau Morol perthnasol wrth wneud penderfyniadau **sy'n effeithio neu a allai effeithio ar ardal forol y DU nad ydynt yn benderfyniadau awdurdodi neu orfodi** (adran 58(3)).

10. Mae cyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau sy'n bell o'r ardal forol yn gallu effeithio ar yr amgylchedd morol a gall yr amgylchedd morol yntau effeithio arnynt hwythau. **Rhaid i bob ACP felly wybod am yr CMCC, yr MPS a chydymffurfio ag adran 58 yr MCAA**.

> Mae adran 322 yr MCAA yn disgrifio ACPau a'r gwahanol fathau o benderfyniadau y mae cyrff fel y rhain yn eu gwneud. Ymhlith yr ACPau sy'n gwneud penderfyniadau awdurdodi a gorfodi yn Ardal Cynllun Morol Cymru o dan adran 58(1) yr MCAA y mae:
>
> - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
> - Llywodraeth Cymru;
> - Ysgrifennydd Gwladol / Prif Weinidog Cymru;
> - Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD);
> - Yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA);
> - Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU a Rheoleiddydd Petrolewm Alldraeth dros yr Amgylchedd a Datgomisiynu
> - Awdurdodau (Cynllunio) Lleol;
> - Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) ac
> - Awdurdodau Harbyrau.

11. Yr awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn unol â'r CMCC (adran 58 yr MCAA). Wrth wneud penderfyniadau, dylai ACPau fod yn sicr ynddynt eu hunain eu bod yn gweithredu fel awdurdod adran 58(1) neu awdurdod adran 58(3) (neu'r ddau). Prif fwriad yr arweiniad a roddir yn y ddogfen hon ar bolisïau penodol yw helpu ACPau i wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi (adran58(1)); ond mae'n rhoi cyd-destun i bob corff cyhoeddus a gall eu helpu i wneud penderfyniadau perthnasol eraill (er enghraifft, o dan adran 58(3)).

12. Pan wneir penderfyniad mewn cysylltiad â Gorchymyn Caniatáu Datblygiad (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio (2008) h.y. Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (PSAC), rhaid gwneud y penderfyniad yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPC) perthnasol. Bydd yr ACP sy'n gwneud y penderfyniad yn rhoi sylw hefyd i'r CMCC, unrhyw gynlluniau morol perthnasol eraill, a'r MPS.

### 1.5 Penderfyniadau gan Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (ACP)

13. Dylai penderfynwyr gyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol a ddaw yn sgil eu cynigion. Dylai hynny gynnwys ystyried effeithiau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy neu gyflawni nodau llesiant Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) 2015. Gallai cloriannu'r manteision a'r effeithiau niweidiol olygu cyfrif y colledion mewn un maes yn erbyn y manteision mewn maes

arall, er enghraifft pwyso a mesur effeithiau amgylcheddol niweidiol posibl yn erbyn manteision economaidd-gymdeithasol neu gymdeithasol i gymuned arfordirol.

14. Wrth ystyried cynnig a phwyso a mesur unrhyw effeithiau niweidiol posibl yn erbyn y manteision, dylai penderfynwyr ystyried:

- i ba raddau y mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau CMCC; ac
- i ba raddau y mae'r cynnig yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall.

15. Mae'n anorfod y bydd rhai effeithiau niweidiol yn aros. Cyfrifoldeb y cynigydd yw nodi'r effeithiau hyn a chynnig opsiynau ar gyfer eu hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru. Cyfrifoldeb y penderfynwr yw ystyried yr effeithiau hyn wrth wneud penderfyniad.

16. Mater i'r ACP yw penderfynu sut i gymhwyso CMCC yn ei benderfyniadau a sut i sicrhau y gall ddangos hyn yn ddigonol neu ddangos fel arall bod ffactorau perthnasol eraill wedi'u hystyried. Dylai'r ACP allu disgrifio sut cafodd penderfyniad ei wneud yn unol ag CMCC. Dylai unrhyw ddisgrifiad fod yn gymesur â'r gweithgaredd a gallai fod yn ddefnyddiol i'r ACP pe bai'n disgrifio'r broses benderfynu mewn 'Adroddiad ar Benderfyniad' neu ymgorffori'r wybodaeth mewn gweithdrefnau neu ddogfennau sy'n bod eisoes.

17. Os bydd ACP yn gwneud penderfyniad awdurdodi neu orfodi nad yw'n gyson â dogfennau perthnasol y cynllun morol (MPS a CMCC), dylai nodi'r rhesymau pam yn glir. Gellid ystyried y ffactorau perthnasol canlynol, ymhlith eraill:

- polisi cenedlaethol perthnasol;
- polisïau mewn cynlluniau datblygu perthnasol ar y tir gan gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).
- polisi ehangach y Llywodraeth - deddfwriaeth, polisi, arweiniad a chyngor;
- penderfyniadau apêl blaenorol ac unrhyw adroddiad gan Ymchwiliad Annibynnol;
- egwyddorion cyfraith achosion y llysoedd; a
- tystiolaeth newydd nad oedd ar gael adeg datblygu'r cynllun.

### 1.6 Paratoi cynnig y mae angen i ACP ei awdurdodi

18. Dylai cynigion ystyried yr holl effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol a'u manteision posibl[4]. Yr ACP fydd yn penderfynu faint o bwysau i'w roi i bob ystyriaeth ym mhob achos unigol.

19. Un thema sy'n codi'n aml yn yr CMCC yw pwysigrwydd cydweithio ac ymgysylltu buan. Dylai ymgeiswyr gysylltu'n gynnar yn y broses â'r ACP ac rydym yn eu cynghori i gysylltu'n fuan hefyd â rhanddeiliaid ac ymgyngoreion perthnasol.

---

[4] O ran asesu'r opsiynau ar gyfer costau cymdeithasol ac economaidd a manteision posibl cynnig, un ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol yw Llyfr Gwyrdd y Trysorlys https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd sy'n gwneud y cynnig yw dangos ei fod wedi trafod â'r ACP ac unrhyw sectorau eraill y gall effeithio arnynt.

20. Mae Porthol Cynllunio Morol Cymru yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i ymgeiswyr a phenderfynwyr [5]am y ceir llawer o ddata a mapiau perthnasol ynddo. Gallai'r Porthol helpu ymgeiswyr i:

- ddeall defnydd posibl, nawr ac yn y dyfodol;
- gweld a oes trwyddedau, cytundebau chwilio ac opsiynau neu geisiadau wedi'u gwneud eisoes yn yr ardaloedd sy'n berthnasol i'w cynigion;
- nodi unrhyw wrthdaro neu gyfleoedd posibl;
- nodi cyfleoedd i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol; er mwyn gwneud y cynnig yn dderbyniol i ddefnyddwyr eraill; ac
- ystyried a all cynigion gydfodoli â'i gilydd ac â datblygiadau neu weithgareddau sectorau eraill.

21. Bydd gan awdurdodau cynllunio cyffiniol gronfeydd data neu bortholau y caiff y cyhoedd eu gweld. Bydd amrywiaeth eang o ffynonellau tystiolaeth ychwanegol ar gael a'r dystiolaeth orau ddylai gael ei defnyddio i gefnogi cynigion.

22. Mae Tabl 2 yr CMCC yn cynnig trosolwg o'r broses ar gyfer datblygu a dyfarnu cynigion.

| |
|---|
| Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr WMER yn 2015 i gyflwyno'r dystiolaeth ddiweddaraf am gyflwr amgylchedd morol Cymru. Byddwn yn ei ddiweddaru yn achlysurol. Mae Porthol Cynllunio Morol Cymru yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda data a mapiau perthnasol o'r môr. Yn yr un modd, mae'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yn rhoi tystiolaeth am ardaloedd cynllunio morol Lloegr fydd yn berthnasol i gynigion sy'n rhychwantu'r ffin. Mae CNC yn cyhoeddi deunydd ac adroddiadau perthnasol yn rheolaidd, gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac Asesiadau o Gyflwr Nodweddion Dangosol ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd. Mae gofyn di-dor i ddatblygu tystiolaeth er mwyn deall cyflwr a chadernid ecosystemau'r môr; rydym am annog ymdrechion o'r fath. Hefyd, dylai tystiolaeth gael ei rhannu os medrir (gweler **Polisi SCI_01**). |

### 1.7 Deall a defnyddio polisïau'r CMCC

23. Mae'r CMCC yn darparu set integredig o amcanion a pholisïau ar gyfer datblygu ardal cynllun morol Cymru'n gynaliadwy. Mae'r polisïau trawsbynciol cyffredinol yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i bob penderfyniad[6] ac maent yn bodoli law yn llaw â'r polisïau sy'n ymdrin â gweithgareddau mewn sectorau penodol. Mae'r holl bolisïau'n gweithio gyda'i gilydd er budd gwireddu gweledigaeth ac amcanion y

[5] http://lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy

[6] Yn unol â pharagraff 24 o'r Arweiniad hwn a siart llif “Y broses sgrinio ceisiadau wrth ddatblygu a phenderfynu ar gynigion”, dylid penderfynu ar bob achos fesul un o ran polisïau cyffredinol nad ydynt yn gymwys i gynnig unigol oherwydd lleoliad daearyddol neu natur y cynnig hwnnw.

Cynllun. Ni ddylech felly ystyried na defnyddio'r amcanion, y polisïau na'r testun ategol ar eu pen eu hunain.

24. Wrth roi'r CMCC ar waith, y man cychwyn yw y dylai'r holl bolisïau fod yn berthnasol. Ac eithrio'r polisïau diogelu sector (sy'n datgan pryd nad yw'r polisi'n berthnasol), dylid ystyried pob polisi wth baratoi pob cynnig, fel y'i disgrifir yn y blwch isod.

**Y broses sgrinio ceisiadau wrth ddatblygu a phenderfynu ar gynigion**
Y broses i ymgeiswyr a phenderfynwyr ar gyfer ystyried polisi a thystiolaeth

Edrych ar holl bolisïau'r CMCC.

↓

Edrych a yw'r cynnig yn ymwneud yn unig â rhanbarth y môr mawr neu ranbarth y glannau a diystyru'r polisïau sy'n ymwneud yn unig â'r rhanbarth 'amherthnasol' e.e. nid yw polisi porthladdoedd (**P&S_02**) yn gymwys i ranbarth y môr mawr a chewch felly ei ddiystyru os yw'r cynnig yn ymwneud yn unig â rhanbarth y môr mawr.

↓

Nodi'r sectorau y gallai'r cynnig effeithio arnynt a diystyru polisïau'r sectorau nad ydynt yn berthnasol e.e. **polisïau SAF_01a** a **SAF_01b** ar gyfer sectorau amrywiol. Er enghraifft, os nad oes gweithgareddau dyframaethu'n cael eu cynnal yn ardal y cynnig (gan gynnwys Gorchymyn Pysgodfa Unigol, cytundebau ffurfiol, ceisiadau neu gofrestriad ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaethol) yna gellid diystyru SAF_01a *ar gyfer y sector dyframaethu.*

↓

Nodi a diystyru polisïau cyffredinol nad ydynt yn berthnasol oherwydd lleoliad neu natur y cynnig. Er enghraifft, os nad oes asedau treftadaeth nag Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) yn ardal y cynnig neu mewn ardal y bydd y cynnig yn debygol o effeithio arni, yna gellir diystyru'r polisïau cysylltiedig (**SOC_05** ac **ENV_02**).

*Dylid nodi ar y cais unrhyw bolisïau sy'n cael eu diystyru a'r rhesymau dros eu diystyru.*

*Bydd yr ACP yn adolygu'r broses sgrinio a ddefnyddir a'r rhesymau dros ddiystyru polisïau wrth ystyried y cais. Os bydd yr ACP yn credu na ddylid fod wedi diystyru polisi, gallai fynnu bod y cynnig yn ystyried y polisi hwnnw.*

25. Dylid bod yn gymesur wrth benderfynu pa dystiolaeth y dylid ei darparu mewn cysylltiad â pholisïau unigol yn yr CMCC ar gyfer penderfyniad penodol. Bydd asesu maint, math a lleoliad y cynnig a lefel ei risg yn help i benderfynu faint o wybodaeth sydd ei hangen a sut i fynd ati i gloriannu'r cynnig.

## 1.8 Deall y derminoleg

26. Mae'r penodau sy'n dilyn yn diffinio termau sy'n cael eu defnyddio yn yr CMCC a'r Arweiniad Cyflawni, er enghraifft *'amgylchiadau eithriadol'* ac '*annog'.* Rydym wedi rhoi'r termau hyn mewn llythrennau italig yn y ddogfen hon.

### 1.8.1 Hierarchaeth Benderfyniadau

27. Ceir hierarchaeth benderfyniadau osgoi-lleihau-lliniaru ar gyfer nifer o bolisïau'r CMCC i sicrhau ffordd gyffredin o wneud penderfyniadau ac i fod yn gyson â chynlluniau morol eraill y DU. Gall yr hierarchaeth ystyried effeithiau negyddol amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol neu economaidd.

28. Wrth ddefnyddio'r hierarchaeth, dylid ystyried yr holl bosibiliadau ar un lefel cyn dechrau ystyried posibiliadau'r lefel oddi tani. Wrth ystyried effeithiau negyddol hysbys unrhyw gynnig, dylid yn gyntaf ystyried ffyrdd i'w hosgoi ac ni ddylid camu trwy'r hierarchaeth i ystyried mesurau ar gyfer eu lleihau a'u lliniaru onid oes modd dangos nad yw'n ymarferol neu'n realistig neu'n gwbl foddhaol cyflawni nod y lefel blaenorol.

| | |
|---|---|
| **Osgoi** | Gweithredu yn y man cychwyn i gynllunio, dylunio a chynnal cynigion i rwystro effaith niweidiol rhag digwydd. Lle gwelir effaith niweidiol, dylid newid y cynnig fel nad yw mwyach yn creu'r effaith honno, neu fel nad yw'r sawl fyddai wedi'i niweidio ganddi bellach yn teimlo'r niwed.<br><br>Dyma enghreifftiau o osgoi: peidio â bwrw ymlaen â chynnig; symud y cynnig; defnyddio deunyddiau neu dechnegau nad ydyn nhw'n cael effaith niweidiol. |
| **Lleihau** | Gweithredu yn y man cychwyn i gynllunio a dylunio cynigion fel bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu cadw mor fach â phosibl. Mae lleihau yn golygu lleihau pwysau'r cynnig.<br><br>Dyma enghreifftiau o leihau: defnyddio deunyddiau sy'n cael llai o effaith; lleihau maint y datblygiad. |
| **Lliniaru** | Os na ellir osgoi na lleihau'r effeithiau niweidiol yn y man cychwyn ac nad oes modd amddiffyn y sawl sy'n eu teimlo rhagddynt, dylid cymryd camau i leihau difrifoldeb canlyniadau'r effeithiau hynny. Mae lliniaru yn golygu lleihau'r modd y profir yr effaith. |

| | |
|---|---|
| | Dyma enghreifftiau o liniaru: newid amseriad i osgoi cyfnodau sensitif neu weithgareddau eraill; cyflwyno mesurau rhag gwasgaru neu ledaenu'r effeithiau gymaint. |

### 1.8.2 Effeithiau niweidiol arwyddocaol

29. Os oes posibilrwydd y gallai'r effeithiau niweidiol barhau, hyd yn oed ar ôl dilyn yr hierarchaeth benderfyniadau, pennir lefel arwyddocâd yr effeithiau hyn fesul achos, gan ddilyn canllaw penodol y polisi dan sylw lle bo angen ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

30. Bydd effeithiau hysbys pob sefyllfa a'u harwyddocâd yn amrywio, gan ddibynnu ar fanylion y cynnig unigol. Er hynny, ceir rhai ystyriaethau cyffredinol ynghylch yr hyn y gellid ei ystyried yn *effaith niweidiol arwyddocaol:*

- yng nghyd-destun polisi cyffredinol, gallai *effeithiau niweidiol arwyddocaol* gynnwys effeithiau economaidd neu gymdeithasol ar gymunedau arfordirol, effeithiau all bygwth nodau llesiant Cymru neu dargedau eraill Llywodraeth Cymru, effeithiau sy'n bygwth safleoedd, tirweddau neu asedau hanesyddol sydd wedi'u dynodi, neu effeithiau sy'n bygwth cydnerthedd ecosystemau, y gallu i sicrhau Statws Amgylcheddol Da neu'r gallu i daro targedau unigol Disgrifyddion Strategaeth Forol y DU;
- yng nghyd-destun polisi sector, gallai *effeithiau niweidiol arwyddocaol* gynnwys effeithiau ar hyfywedd economaidd, integredd neu gwmpas gweithgaredd sy'n cael ei gynnal neu sydd wedi'i ganiatáu neu weithgaredd posibl yn y dyfodol, gan gynnwys ei allu i ddarparu manteision cymdeithasol ehangach.

### 1.8.3 Rhoi rhesymau clir sy'n argyhoeddi dros fwrw ymlaen

31. Mae angen *rhoi rhesymau clir sy'n argyhoeddi dros fwrw ymlaen* â'r polisïau canlynol:

- **SOC_05** Asedau hanesyddol
- **SOC_06** Tirweddau dynodedig
- **SOC_07** Morweddau
- **SOC_10** Lleihau newid yn yr hinsawdd
- **ENV_01** Ecosystemau morol cydnerth
- **ENV_05** Sŵn tanddwr
- **ENV_06** Ansawddd aer a dŵr
- **ENV_07** Rhywogaethau a chynefinoedd pysgod
- **GOV_01** Effeithiau cronnol
- **SAF_01a** a **SAF_01b** Diogelu gweithgareddau presennol
- **SAF_02** Diogelu adnoddau strategol

32. Os bydd cynnig yn debygol o gael *effaith niweidiol arwyddocaol* o dan y polisi perthnasol ac na ellir ei hosgoi, ei lleihau na'i lliniaru'n foddhaol, rhaid i'r ymgeisydd roi *rhesymau clir sy'n argyhoeddi dros fwrw ymlaen* â'r cynnig. Yn y sefyllfa honno,

dylid cyflwyno digon o wybodaeth am natur a maint yr effeithiau a dylai'r cynnig roi digon o gyfiawnhad bod manteision bwrw ymlaen yn drech na'r effeithiau.

33. Nid yw esbonio'r cyfiawnhad ynddo'i hun yn golygu y caiff y cynnig ei gefnogi. Mater i'r penderfynwr fel y gwêl yn dda fydd pwyso a mesur yr achos a wnaed o blaid y cynnig o safbwynt ei effeithiau niweidiol posibl, polisïau perthnasol eraill, y ddeddfwriaeth a chyfraniad y cynnig at dargedau eraill fel manteision economaidd neu gymdeithasol.

34. Yng nghyd-destun polisi cyffredinol, lle bo *effeithiau niweidiol arwyddocaol* yn parhau a bod *achos dros fwrw ymlaen* wedi'i gyflwyno, dylai'r penderfynwr sicrhau bod cyfiawnhad i'r *effeithiau niweidiol arwyddocaol* posibl yng nghyd-destun gweledigaeth ac amcanion cyffredinol yr CMCC.

35. Yng nghyd-destun polisi sector, dylai'r *achos dros fwrw ymlaen* ddangos o'i gloriannu, bod manteision y cynnig, er bod peth ohonynt yn anghydnaws o hyd â gweithgaredd sydd eisoes yn cael ei gynnal neu yn yr arfaeth, yn drech na'i anfanteision i ddatblygiad neu ddefnydd yn yr amgylchedd morol neu ei ansawdd, nawr, yn yr arfaeth neu yn y dyfodol, neu y bydd y gweithgaredd newydd yn gwneud mwy o gyfraniad at lesiant yng nghyd-destun nodau llesiant Cymru.

### 1.8.4 Amgylchiadau eithriadol

36. Mae *amgylchiadau eithriadol* yn ymwneud yn unig â'r Polisi diogelu sector **SAF_01a** (h.y. y rhyngweithio rhwng sectorau) lle na all asesiad ddangos y gall cynnig osgoi, lleihau na lliniaru'n foddhaol effeithiau niweidiol ar weithgareddau presennol sector neu ar yr adnoddau y mae gweithgareddau presennol y sector yn dibynnu arnynt. Penderfynir ar gynigion fesul achos ond ceir rhai ystyriaethau cyffredinol ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn *amgylchiad eithriadol.*

37. Byddai'n rhaid bod cefnogaeth ym mholisi'r Llywodraeth i'r *amgylchiadau eithriadol*, dylai fod *rhesymau clir sy'n argyhoeddi* eu cefnogi ar sail manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol a/neu economaidd (o'u cymharu â'r defnydd presennol) a dylid asesu'r effaith hon ar y defnydd presennol.

38. Dylai ystyriaeth o'r *amgylchiadau eithriadol* gynnwys:

- tystiolaeth bod angen strategol am y prosiect (e.e. mae'n ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol);
- prawf clir nad oes opsiynau ymarferol eraill (gan gynnwys yr opsiwn 'gwneud dim') na bod modd cynnal y cynnig mewn ffordd all osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw *effeithiau niweidiol arwyddocaol* hysbys;
- prawf nad oes ffordd arall o fwrw ymlaen â'r cynnig (e.e. dyluniad, maint, lleoliad) fyddai'n lleihau'r effaith ar y defnydd presennol neu ei wneud yn fwy cydnaws â'r defnydd presennol;
- tystiolaeth bod yn rhaid wrth niwed neu golled er mwyn sicrhau'r manteision (amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd) lle bo manteision y cynnig i'r cyhoedd yn drech na'r defnydd gwreiddiol;

- prawf bod pob cyfle cydfodoli (neu cydleoli) i ddylunio cynigion all esgor ar fanteision niferus wedi'u hystyried yn llawn;
- ystyried a yw'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau *a anogir* neu'n sicrhau gwelliannau yn un neu fwy o feysydd polisi; a
- ystyried unrhyw gytundeb rhwng defnyddwyr a'r ACPau neu rhwng y defnyddwyr arfaethedig a defnyddwyr a ddiogelir, ar yr angen i ddigolledu'r defnyddiwr gwreiddiol.

### 1.8.5 Polisïau a anogir

39. Mae nifer o bolisïau'n cynnwys *anogaeth* i gynigion all gyfrannu'n bositif at gyflawni amcanion yr CMCC a sectorau, neu i gynigion sy'n cynnwys agwedd ar welliant. Mae'r polisïau hynny'n cynnwys:

- **ECON_01** Twf economaidd cynaliadwy
- **SOC_01** Mynediad i'r amgylchedd morol
- **SOC_02** Llesiant cymunedau'r arfordir
- **SOC_04** Y Gymraeg a'i diwylliant
- **SOC_05** Asedau hanesyddol
- **SOC_06** Tirweddau dynodedig
- **SOC_07** Morweddau
- **SOC_09** Effeithiau ar newidiadau i'r arfordir ac ar lifogydd ar yr arfordir
- **SOC_11** Y gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd
- **ENV_01** Ecosystemau morol cydnerth
- **GOV_01** Effeithiau cronnol
- Mae nifer o bolisïau sy'n cefnogi sectorau yn *annog* cynllunio a chydweithio strategol er mwyn deall cyfleoedd yn y sector yn y dyfodol. [7]

40. Cydnabyddir na all pob cynnig gynnwys elfen o welliant neu gyfraniad positif at gyflawni amcanion ac argymhellir cysylltu'n fuan â phenderfynwyr i drafod cyfleoedd.

41. Lle bo polisi neu ei Ganllaw ar Gyflawni yn cyfeirio at *annog*, mae hyn yn adlewyrchu bwriad bras gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r CMCC. Mae'n ymwneud â hyrwyddo a datblygu 'arferion da' o ran defnyddio a datblygu adnoddau naturiol y môr yn gynaliadwy a'r penderfyniadau sydd ynghlwm wrth hynny.

42. Os cynigir cyfraniad positif at un neu fwy o feysydd polisi, dylid cynnwys manylion llawn y mesurau a gynllunnir a'r canlyniadau a ragwelir gyda'r cynnig. Gallai cyfleoedd i wella neu gyfraniad positif at un neu fwy o feysydd polisi hefyd fod yn rhan o'r ystyriaeth wrth ystyried effeithiau niweidiol hysbys cynnig neu *achos dros fwrw ymlaen* ar sail polisi arall.

---

[7] Dyma'r sectorau hynny: Agregau (**AGG_01b**), Dyframaeth (**AQU_01b**), Ynni - Carbon Isel (gwynt, tonnau, llif y llanw ac amrediad llanw) (**ELC_01b**, **ELC_02b**, **ELC_03b** ac **ELC_04**), Pysgodfeydd (**FIS_01b**), Porthladdoedd a Morgludo (**P&S_01b**), a Thwristiaeth a Hamdden (**T&R_01b**).

43. Lle caiff polisi ei *annog*, dylai penderfynwyr, lle medrent, gefnogi cynigion sy'n cydymffurfio â'r polisi. Ond nid yw cydymffurfio â pholisi sy'n cael ei *annog* ynddo'i hun yn golygu y caiff y polisi o reidrwydd ei gefnogi. Mater fel y gwêl y penderfynwr yn dda yw cymharu'r manteision a geir ag effeithiau niweidiol posibl y cynnig.

### 1.8.6 Dadleoli

44. Dim ond i rai sectorau, fel twristiaeth a hamdden, pysgota a morgludiant, y mae *dadleoli'n* berthnasol.

45. Mae *dadleoli'n* digwydd pan gaiff gweithgaredd ei symud (o ran amser neu ofod), yn llawn neu'n rhannol, yn sgil cyflwyno neu oherwydd effaith gweithgaredd arall. Gallai effeithiau *dadleoli* fod yn economaidd, yn gymdeithasol neu'n amgylcheddol, yn rhai da neu'n rhai drwg, dros dro neu'n barhaol, ac yn gronnol. Gallant olygu na ellir cynnal y gweithgaredd yr effeithir arno mwyach ar sail (masnachol) hyfyw os nad oes ardal addas, segur arall ar gael.

46. Dylai ACPau gadw mewn cof yr amcan i gynnal neu gynyddu cynhyrchiant sector a cheisio, lle bo hynny'n ymarferol, sicrhau na welir colled net yng nghynhyrchiant y sector. Wrth wneud, dylid ystyried y lle a'r posibiliadau ar gyfer symud gweithgareddau unigol a maint ac adferadwyedd y golled yn sgil penderfyniad a wneir oherwydd *amgylchiadau eithriadol*.

47. Dylai'r ACP ystyried hefyd oblygiadau cymhwyso polisïau'r CMCC ar y safle y gallai'r gweithgaredd gael ei ddadleoli iddo. Rhaid hefyd ystyried priodoleddau lleol, gan gynnwys parhad busnesau a'r gallu i gynnal cadwyni cyflenwi, wrth ddewis lleoliadau addas ar gyfer gweithgareddau newydd neu rai wedi'u dadleoli. Gallai ACPau fynnu bod cynigion yn rhoi tystiolaeth i gefnogi asesiad o leoliadau addas eraill ar gyfer cynnal gweithgareddau sydd wedi'u dadleoli arnynt a chostau net a'r goblygiadau i amcanion yr CMCC o ailsefydlu neu derfynu busnes.

48. Er mwyn osgoi effeithiau niweidiol *dadleoli*, gellid er enghraifft symud y gweithgaredd newydd neu ystyried opsiynau o ran amser a gofod ar gyfer cydfodoli. Gallai opsiynau i leihau effeithiau niweidiol *dadleoli* gynnwys cywasgu'r gwaith i gyfnod amser llai neu fwy cyfleus, claddu rhwystrau neu gyfyngu ar nifer y llongau ar y safle er mwyn lleihau'r anghyfleustra. Gallai opsiynau i liniaru effeithiau niweidiol *dadleoli* gynnwys sicrhau consensws rhwng gweithredwyr neu agor ardaloedd newydd ar gyfer y gweithgaredd.

# 2 Polisïau Cyffredinol

## 2.1 GEN – Polisi Cynllunio

### 2.1.1 GEN_01 Polisi Cynllunio

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

49. Mae 'datblygu cynaliadwy' fel y'i diffinnir yn yr WFGA yn golygu'r "*broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, fydd yn arwain at wireddu'r nodau llesiant".* Dylai penderfyniadau a wneir gan ACPau sydd â'r potensial i effeithio ar ardal cynllun morol Cymru fod yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy yr WFGA.

50. Caiff pob unigolyn a sefydliad sy'n cynnal swyddogaeth gyhoeddus sydd â'r potensial i effeithio ar ardal cynllun morol Cymru eu *hannog* i gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Cymru ac i ddilyn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth roi polisïau'r cynllun ar waith.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

51. Dylai ACPau asesu cynigion mewn ffordd bositif, gan ragdybio o blaid rhai sy'n cydymffurfio â pholisïau'r CMCC. Dylai ACPau gefnogi cynnig sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn ardal cynllun morol Cymru a datblygu cynaliadwy ledled y DU.

52. Lle gall cynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio'n ddigonol â pholisïau eraill yr CMCC, bydd yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

### 2.1.2 GEN_02 Polisi Cynllunio

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

53. O gofio'r amrywiaeth eang o ddatblygiadau a gweithgareddau a gynhelir yn ardal cynllun morol Cymru o ran eu math, eu maint a'u graddfa, ni fyddai'n briodol rhoi'r un ystyriaeth i bob cynnig na gofyn am yr un faint o dystiolaeth. Byddai asesu maint, math, lleoliad ac arwyddocâd posibl yr effaith yn helpu i benderfynu ar lefel yr wybodaeth sydd ei hangen a sut i ddefnyddio'r CMCC i benderfynu ar y cynnig.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

54. Wrth wneud penderfyniad, dylai ACP sicrhau'r lefel briodol o gymesuredd wrth gymhwyso polisïau'r CMCC a phenderfynu faint o wybodaeth a thystiolaeth y bydd eu hangen i ddangos cydymffurfedd â pholisïau perthnasol. Fel man cychwyn, dylid ystyried holl bolisïau'r Cynllun wrth wneud penderfyniad; dylid bod yn gymesur wrth benderfynu faint o dystiolaeth sydd ei hangen i brofi cydymffurfedd â phob polisi perthnasol[8].

[8]Gweler Tabl 2 CMCC ac adran 1.7 yr Arweiniad hyn.

55. Bydd y dystiolaeth sydd ar gael yn ffactor hefyd wrth benderfynu ar y cymesuredd sydd ei angen. Lleia'n y byd o dystiolaeth sydd neu leia'n y byd yw ei safon, mwya'n y byd yw'r ansicrwydd. Ambell waith felly bydd angen rhagor o dystiolaeth i ddangos bod cynnig yn cydymffurfio â pholisïau Cynllun. Dylai penderfynwyr fod yn briodol o ragofalus sy'n gymesur â risg amgylcheddol neu arall y cynnig (gweler Polisi **SCI_01**).

56. Dylai cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio amgylchedd y môr ddarparu'r lefel briodol o wybodaeth sy'n gymesur â math, maint, effeithiau hysbys a risgiau'r cynnig i ddangos ei fod yn cydymffurfio â pholisïau'r CMCC. Dylai ymgeiswyr siarad â phenderfynwyr a lle bo angen, cynghorwyr statudol eraill i drafod gofynion y cynigion unigol.

57. Wrth geisio cymesuredd wrth wneud penderfyniadau, dylai ACPau beidio i'r graddau eithaf posibl a pha le bynnag y bo hynny'n bosibl â gofyn am faich profi diangen neu amhriodol ar ymgeiswyr. Mae ystyried cymesuredd yn cynnwys ystyried unrhyw gais mewn ffordd deg, cyfartal a chyson.

## 2.2 ECON - Sicrhau economi forol gynaliadwy

### 2.2.1 ECON_01 Twf economaidd cynaliadwy

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

58. Mae WFGA a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnig ffordd strategol o integreiddio polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid rheoli'r modd y defnyddir adnoddau'r môr i sicrhau eu gwerth economaidd mwyaf i Gymru gan gynnal yr un pryd eu hamcanion a'u gwerth cymdeithasol. Bydd hynny'n helpu i gyflawni nodau llesiant Cymru a chynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

59. Er mwyn sicrhau bod y modd y rheolir ac y defnyddir adnoddau naturiol yn esgor ar y canlyniadau gorau, rhaid deall eu gwerth i'r economi a'r gymdeithas a'r ffordd y maen nhw'n darparu ystod o fanteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd angen felly datblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn gallu gwerthfawrogi'n well y manteision y mae adnoddau naturiol y môr yn eu darparu, a lle bo hynny'n bosibl, dylai'r dystiolaeth honno fod ar gael.

60. Lle medrir, dylid cynnal datblygiadau morol yn yr ardaloedd all elwa fwyaf ar y gweithgaredd, neu gerllaw iddynt. Efallai bod y seilwaith ffisegol neu'r gweithlu medrus eisoes ar gael ar gyfer cynnal y gweithgaredd a dylid cydnabod hynny. Neu, ar y llaw arall, gallai olygu cefnogi gweithgaredd neu ddatblygiad newydd yn ardaloedd neu eu cyffiniau a fyddai'n elwa fwyaf ar fewnlifiad o gyfleoedd hyfforddi a gwaith morol. Gall creu ac arallgyfeirio sgiliau wneud cymunedau ac economïau lleol yn fwy abl i wrthsefyll newidiadau yn y galw mewn rhai diwydiannau.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

61. Dylai cynnig ddangos sut y bydd yn economaidd gynaliadwy, gan gynnwys o safbwynt gwerth am arian, manteision i gymdeithas a chefnogaeth i ddatblygu sgiliau morol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chreu swyddi morol, a'i fod yn dod â

buddiannau i gymunedau ger ardal y cynllun (gweler hefyd **Polisi SOC_2**). Bydd pob un o'r rhain yn cryfhau'r economi. Dylai cynigion gynnwys hefyd fanylion yr amserlen ar gyfer dod yn economaidd gynaliadwy. Dylai'r amserlen fod yn un realistig ac ymarferol, gyda thystiolaeth i'w chefnogi.

62. Dylai cynigion ar gyfer datblygiad gynnwys gwybodaeth gymdeithasol ac economaidd berthnasol, gan gynnwys nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynnig, y gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â chaffael, adeiladu, cynnal a datgomisiynu'r datblygiad, a'r gwasanaethau a'r manteision y byddant yn eu cyfrannu at lesiant yng Nghymru.

63. Gallai CDLlau a pholisïau gofodol eraill ein helpu i ddeall y cyfleoedd datblygu sy'n briodol mewn mannau penodol. Dylai cynigion ystyried hefyd Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a'i gyfraniad at greu lleoedd cynaliadwy trwy'r cysyniad o greu lle. Yn unol â PPC, dylai pob penderfyniad datblygu, boed trwy gynllun datblygu, dewis polisi neu benderfyniadau awdurdodi unigol, gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant.

64. Dylid ystyried holl effeithiau economaidd posibl cynnig, da a drwg, dros y tymor hir a rhoi'r pwysoliad priodol iddynt wrth geisio cydbwyso'r penderfyniad ag egwyddorion WFGA.

### 2.2.2 ECON_02 Cydfodoli

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

65. Mae ceisio rheoli'r posibiliadau ar gyfer cydfodoli, gan gynnwys gweithgareddau yn yr un ardal, mewn ffordd sy'n eu gwahanu'n fertigol, yn llorweddol ac o ran amser, yn arbennig o berthnasol yn yr ardaloedd morol mwyaf prysur a gall ein helpu i sicrhau manteision lluosog a chael y gorau o'u gwerth yn unol â **Pholisi ECON_01.** Cydnabyddir na fydd pob gweithgaredd yn gydnaws nac yn gallu cydfodoli, er enghraifft, ceblau tanddwr a threillrwydo.

66. Dylai cynigion ystyried cyfleoedd i gydfodoli gyda'r datblygiadau a'r gweithgareddau perthnasol sy'n bod ac yn yr arfaeth, gan gynnwys ar waelod y môr, yn y golofn ddŵr, ar wyneb y môr a lle mae'r tir a'r môr yn cwrdd.

67. Wrth ystyried cydfodoli, dylid ystyried cydleoli datblygiadau o nifer o sectorau gwahanol, fel integreiddio dyframaethu â safleoedd ynni adnewyddadwy. Yn ogystal â chydleoli, gellid cydfodoli hefyd trwy wahanu gweithgareddau o ran amser, fel carthu'r môr a physgota. Bydd cyfathrebu rhwng sectorau'n hwyluso hynny.

68. Lle ceir gwrthdaro am le neu adnoddau, anogir mentrau rhwng sectorau. Mae'n bwysig bod defnyddwyr y môr a lle bo hynny'n berthnasol, rhanddeiliaid a'r ACP yn trafod yn fuan â'i gilydd er mwyn helpu i wireddu cyfleoedd i gydfodoli a dylid annog y cysylltiadau hynny lle bynnag y bônt yn ymarferol.

69. Bydd cyflwyno opsiynau ar gyfer cydfodoli mewn cynigion yn helpu penderfynwyr i reoli gwrthdaro presennol a phosibl, sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau, sicrhau bod gweithgareddau morol mor gydnaws â'i gilydd â phosibl ac annog defnyddiau lluosog i gydfodoli lle bo hynny'n briodol.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

70. Dylid nodi mewn cynigion pa opsiynau ar gyfer cydfodoli â buddiannau sectorau eraill sydd wedi'u hystyried a sut y maent wedi'u hasesu. Gallai cynigion ddangos hefyd sut y byddant yn osgoi gwrthdaro â datblygiadau a gweithgareddau eraill sy'n bod neu'n hysbys.

71. Lle cynigir elfen o gydfodoli â sectorau neu weithgareddau addas eraill, dylai cynigion ddangos i ba raddau y byddant yn cydfodoli a sut bydd hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol (gweler hefyd **Bolisi SAF_01**).

72. Dylai ACPau lle medrir gefnogi cynigion sy'n cyfrannu mewn ffordd bositif at wneud y defnydd gorau o adnoddau'r môr trwy gyfleoedd cydfodoli.

73. Trwy gydnabod nad yw pob gweithgaredd yn gydnaws nac yn gallu cydfodoli, dylai ACPau fod yn realistig a chymesur wrth roi'r polisi hwn ar waith.

## 2.3 SOC - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn

### 2.3.1 SOC_01 Mynediad i'r amgylchedd morol

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

74. I sicrhau mynediad cynhwysol at yr amgylchedd morol, bydd angen ystyried hygyrchedd i bawb a chanlyniadau dylunio cynhwysol ynghyd â rheolaeth a chynnal a chadw priodol. Dylai mynediad at yr amgylchedd morol gael ei ddylunio'n sensitif ac ni ddylai esgor ar effeithiau niweidiol annerbyniol fel tarfu ar asedau hanesyddol neu gynefinoedd neu rywogaethau bregus, er enghraifft adar sy'n nythu ar y ddaear neu ar glogwyni.

75. Er bod y polisi hwn yn ymwneud yn bennaf â hygyrchedd corfforol, gallai ceisio sicrhau hefyd gyfleoedd sy'n hwyluso mynediad o bell/deallusol i'r amgylchedd morol lle bo hynny'n briodol, a dylid ei gefnogi, er enghraifft, trwy gyhoeddiadau a dehongli ar y we a dulliau o bell eraill.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

76. *Anogir* cynigion sy'n hwyluso mynediad cynhwysol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynd i, ar ac o gwmpas datblygiadau a chymryd rhan yn y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir, yn ôl y gofyn.

77. Ni ddylai'r cynigion gyfyngu ar fynediad presennol a dylent hwyluso mwy o fynediad at yr amgylchedd morol a/neu arfordirol lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Cydnabyddir y gallai fod amgylchiadau pan fydd angen cyfyngu ar fynediad oherwydd diogelwch, sicrwydd neu iechyd. Er ei bod yn dderbyniol cyfyngu ar fynediad y cyhoedd am gyfnodau byr am resymau diogelwch, dylid ceisio osgoi cyfyngu neu wahardd mynediad at fannau morol am gyfnodau tymor hir os medrir. Lle rhagwelir effeithiau niweidiol tymor hir o'r fath ar fynediad, dylai'r cynigion roi digon o gyfiawnhad.

78. Dylai ACPau gefnogi cadw mynediad presennol neu gyfleoedd ar gyfer mynediad newydd neu well at yr amgylchedd morol neu arfordirol lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

79. Wrth benderfynu, dylai ACPau asesu'r risgiau a'r effeithiau niweidiol posibl sy'n gysylltiedig â chynigion caniatáu mynediad, fel tarfu ar fywyd gwyllt, cynefinoedd a/neu asedau hanesyddol, diogelwch a gwrthdaro rhwng gweithgareddau.

80. Lle collir mynediad at le penodol, er enghraifft, trwy newid yr arfordir neu ddatblygiad newydd, dylai ACPau gefnogi cynigion sy'n ceisio adfer mynediad diogel gan amharu cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd; ond rhaid derbyn na fydd adfer mynediad bob amser yn ddiogel, yn hyfyw yn economaidd nac yn amgylcheddol ddymunol.

### 2.3.2 SOC_02 Llesiant cymunedau'r arfordir

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

81. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaethau cymunedol teipolegol ac wedi enwi Ardaloedd Cymeriad Morol Cenedlaethol sy'n disgrifio cymeriad morweddau lleol[9] (gweler hefyd **Bolisi SOC_07**). Gallai'r disgrifiadau hyn helpu i nodi, diogelu a gwella hunaniaeth leol a gallent fod hefyd yn sail briodol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol ac awdurdodau cynllunio. Dylid defnyddio'r wybodaeth a geir trwy astudiaethau teipolegol ac wrth drafod â chymunedau yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth fwy yn ôl y gofyn er mwyn nodi pa weithgareddau sy'n cyd-fynd orau â pha gymunedau ym mha ardaloedd.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

82. Mae posibilrwydd y gallai datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol effeithio ar gymeriad economaidd-gymdeithasol ac argoelion cymunedau arfordirol yn y dyfodol ac *anogir* cyfraniadau positif gan gynigion at les cymunedau. Dylai penderfynwyr sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i gyfrannu mewn ffordd bositif at les cymunedau arfordirol yn y dyfodol mewn ffordd sy'n cyflawni'u hamcanion o ran lle o dan PCC ac sy'n cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy trwy'r cysyniad o greu lle.

83. Dylai cynigion ystyried arwyddocâd datblygiad posibl i nodweddion perthnasol yr ardal gan gynnwys ei threftadaeth ddiwylliannol, morweddau a'i rhinweddau amgylcheddol. Gallai disgrifiadau o'i chymeriad, fel yr amlinellir uchod, helpu'r broses.

### 2.3.3 SOC_03 Achosion o lygredd môr

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

84. Mae'r gofynion perthnasol yn cynnwys y rheini o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau (MARPOL) 1973/1078, Deddf Llongau Masnach 1995 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alldraeth (Atal a Rheoli Llygredd Olew) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a'r Ddeddf Diogelwch ar y Môr 2003. Mae Cynllun Argyfwng Cenedlaethol y DU ar gyfer delio â llygredd yn y môr o longau a gosodiadau yn y môr mawr yn rhestru pwy sy'n gyfrifol am beth wrth ymateb i lygredd yn y môr.

[9] https://cyfoethnaturiol.cymru/evidence-and-data/maps/marine-character-areas/?lang=cy

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

85. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol i leihau perygl llygredd y môr.

86. Dylai cynigion datblygu ystyried ffynonellau llygredd posibl wrth adeiladu, cynnal a datgomisiynu prosiectau, yn ogystal ag wrth gludo deunyddiau, cemegau neu danwyddau ac ati angenrheidiol. Dylai'r cynigion ddangos y mesurau sydd wedi'u cynnwys i osgoi risgiau hysbys. Gall llygredd sy'n tarddu ar y tir neu ddigwyddiadau sy'n llygru afonydd gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd morol hefyd a dylent hwythau hefyd gael eu hystyried os yw hynny'n berthnasol.

### 2.3.4 SOC_04 Y Gymraeg a'i diwylliant

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

87. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg i un miliwn erbyn 2050 ac mae wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae defnyddio'r Gymraeg a'r gallu i gael gafael rhwydd ar wybodaeth am yr hanes diwylliannol, llenyddiaeth a chymunedau cyfoethog yn gallu ysgogi arloesedd, addysg a thwf economaidd yn ogystal â chyfrannu at lesiant cymunedau yn y dyfodol.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

88. Dylai cynigion ystyried cyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant Cymru mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys ar gyfer busnesau a hamddena.

89. *Anogir* cynigion i nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'i defnyddio yn eu datblygiad a thu hwnt, er enghraifft trwy ddarparu arwyddion, gwybodaeth ac adnoddau addysgol Cymraeg.

90. Dylai datblygiadau sy'n cael eu hariannu neu eu contractio gan Lywodraeth Cymru ddilyn polisi Iaith Gymraeg priodol a lle bo angen, dylai gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u nodir yn ei Hysbysiad Cydymffurfio y mae gofyn i Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag ef. *Anogir* pob cynnig arall i wneud yr un peth.

91. Dylai'r ACP ei gwneud yn hawdd cymryd rhan yn y broses benderfynu trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Mae hynny'n cynnwys bod yn rhagweithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol ac mewn deunydd allweddol fel canllawiau, cyfarwyddiadau a cheisiadau, gan wneud y defnydd gorau o'r arfer gorau.

### 2.3.5 SOC_05 Asedau hanesyddol

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

92. Ceir y ddeddfwriaeth berthnasol yn Neddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llongau Masnach 1995 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

93. Cadw yw gwasanaeth a rheoleiddydd amgylchedd hanesyddol Cymru sy'n gweithio i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn hygyrch ac yn cael ei amddiffyn yn dda. Mae'n rhoi cyngor ar ddatblygu a defnyddio'r asedau hanesyddol dynodedig a geir yn amgylchedd y môr. Yn ogystal â Cadw, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archeolegol Cymru hefyd yn awdurdodau archeolegol perthnasol ar gyfer yr ardal forol, gyda'r naill yn rhoi cyngor ar effaith datblygiadau hanesyddol yn y môr mawr a'r llall ar ddatblygiadau rhwng y ddau lanw.

94. Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hanfodol i hysbysu penderfyniadau ynghylch eu rheoli yn y dyfodol a ph'un a yw'n briodol eu diogelu (hyd at a chan gynnwys dynodiad) o dan gyfraith a pholisi. Dylid *annog* a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall arwyddocâd asedau hanesyddol yn well. Mae hyn yn rhoi ar waith egwyddorion Llywodraeth Cymru ynghylch [10]rheoli adnoddau hanesyddol yng Nghymru yn gynaliadwy sy'n gyson ag Egwyddorion Cadwraeth Cadw sy'n ganllaw ar gyfer gwerthuso a disgrifio arwyddocâd asedau hanesyddol. Mae *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag amgylchedd hanesyddol y môr ac mae'n cynnig canllawiau ar yr arferion gorau i'w ddiogelu a'i reoli.

95. Ni ddylid cymryd bod diffyg asedau hanesyddol dynodedig yn golygu fod yr asedau hanesyddol sydd heb eu dynodi o reidrwydd yn llai arwyddocaol. O gofio anawsterau logistig gweithio o dan ddŵr a'i fod mor ddrud ar adnoddau, nid ydym eto yn sylweddoli arwyddocâd llawer o'n hasedau hanesyddol morol. Serch hynny, dylai cynigion ystyried pob ased o'r fath a'i leoliad.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

96. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol o ran asedau hanesyddol a'u lleoliad.

97. Bydd y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael yn ffactor i helpu datblygwyr ac ACPau i asesu cynigon. Mae'r pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru yn cadw cofnodion cyhoeddus am yr amgylchedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru ac mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru gronfa ddata helaeth am asedau hanesyddol morol. Mae Fframwaith Ymchwil Archeolegol Cymru wedi cael ei ddatblygu i roi darlun cyffredinol o'r wybodaeth archeolegol ddiweddaraf, gan nodi lle mae'r bylchau mwyaf arwyddocaol a sut orau i'w llenwi. Mae'r fframwaith yn gweithio mewn senarios rheoli datblygu gan ddylanwadu ar y ffordd y rhoddir mesurau lliniaru a rhaglenni gwaith archeolegol addas ar waith. Ceir arweiniad hefyd gan Sefydliad yr Archeolegwyr ar bynciau fel asesiadau pen desg, gwerthuso archeolegol yn y maes a chanllawiau ar yr arfer gorau ar yr amgylchedd hanesyddol morol.

98. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi nodi'r asedau hanesyddol perthnasol ac yn ystyried effeithiau posibl y cynnig arnynt. Gallai'r effeithiau gynnwys colli neu niweidio deunydd hanesyddol; newid safle asedau hanesyddol all gael effaith bositif

[10] Cadw: 2011: Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth

neu negyddol ar ein gallu i'w deall a'u gwerthfawrogi neu eu claddu neu eu dadorchuddio (er enghraifft yn sgil newid patrymau symud gwaddod). Dylai cynigion ddangos hefyd bod ystyriaeth wedi'i rhoi i effeithiau trawsffiniol ar asedau hanesyddol mewn ardaloedd cynllunio cyffiniol, lle bo angen.

99. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n ddigonol arwyddocâd asedau hanesyddol sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi y gallai datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol effeithio arnynt; ac
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru'r effaith ar asedau hanesyddol a'u lleoliad mewn ffordd sy'n gymesur â'r arwyddocâd; a/neu
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

100. Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella asedau hanesyddol a'u lleoliad. O ran unrhyw gynnig datblygu sy'n effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad, y brif ystyriaeth berthnasol yw priodoldeb cadw'r ased, ei leoliad, neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n perthyn iddo. Lle bo hynny'n bosibl, dylai asedau neu safleoedd dynodedig o'r un pwysigrwydd gael eu cadw lle y maent mewn lleoliad priodol.

101. Mae cynigion yn cael eu *hannog* i nodi cyfleoedd i hyrwyddo neu gyfoethogi asedau hanesyddol yn eu datblygiad a thu hwnt, er enghraifft trwy ddiogelu asedau a'u lleoliad yn y tymor hir, gwella mynediad at asedau hanesyddol neu ddarparu arwyddion, gwybodaeth ac adnoddau addysgol (gweler hefyd **Bolisïau SOC_01** a **SOC_04**).

### 2.3.6 SOC_06 Tirweddau dynodedig

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

102. Gall datblygiadau ar y môr gael effaith bositif neu negyddol ar dirweddau dynodedig. Mae amcanion Llywodraeth Cymru o ran diogelu a gwella Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn cael eu gwireddu'n bennaf trwy'r system cynllunio tir genedlaethol, er y bydd y cynllun morol hefyd yn ystyriaeth. Parciau Cenedlaethol sy'n cynnal y swyddogaeth gynllunio statudol yn eu hardal, sy'n cynnwys cynhyrchu CDLlau a rheoli datblygiad (rhoi cydsyniadau). Mae AHNE yn rhan o'r system llywodraeth leol ac felly yr Awdurdodau Lleol perthnasol sy'n gyfrifol am gynllunio ynddynt.

103. Mae dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus, ymgymerwyr statudol a rhai cyfleustodau i roi sylw priodol i bwrpasau Parciau Cenedlaethol (o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995) ac AHNEau (o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) wrth gynnal gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd dynodedig hyn. Gall CNC gynnig cyngor ar wahanol agweddau ar reoli AHNE ac ar statws a rôl AHNEau a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

104. Mae gofyn cyfreithiol ar Barciau Cenedlaethol ac AHNEau i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer eu rheoli a'u rhedeg ac ymdrin â'u hadnoddau. Cynhyrchir y cynlluniau hyn

mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a rhoddant gyfle i ymgysylltu â'r tirweddau dynodedig hyn a helpu i siapio dyfodol y lleoedd arbennig hyn. Gallai cynlluniau rheoli a pholisïau gofodol eraill ein helpu i ddeall y cyfleoedd neu'r cyfyngiadau ar gyfer datblygu mewn ardaloedd penodol.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

105. Dylai cynigon gynnwys ystyriaeth o'u heffaith ar y dirwedd. Mae canllawiau ar gyfer Asesu'r Dirwedd a'r Effeithiau Gweledol ar gael trwy'r Sefydliad Tirwedd i gefnogi'r broses.

106. Dylai cynigion ystyried y dystiolaeth a'r polisïau sydd wedi'u crynhoi mewn cynllun rheoli perthnasol. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai cynigion gefnogi pwrpasau'r tirweddau dynodedig a'r camau mewn cynlluniau rheoli.

107. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'u heffeithiau posib ar Barciau Cenedlaethol ac AHNEau, gan gynnwys effeithiau ar y rhinweddau arbennig y cafodd y safleoedd hyn eu dynodi o'u herwydd; ac
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau hysbys mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd; a/neu
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

108. *Anogir* cynigion i nodi cyfleoedd i hyrwyddo neu wella tirweddau dynodedig yn eu datblygiad a thu hwnt, gan gynnwys er enghraifft, ystyried gwelliannau gweledol, ffisegol, amgylcheddol neu fynediad (gweler hefyd **Bolisi SOC_01**).

### 2.3.7 SOC_07 Morweddau

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

109. Gall datblygiad ar y môr gael effaith bositif neu negyddol ar forweddau arfordirol neu forol eraill, gan gynnwys ar dir sydd â golygfeydd o'r môr. Mae llawer o'r morweddau hyn heb gael eu dynodi; ond cydnabyddir eu bod yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau ac yn gwneud cyfraniad pwysig at dwristiaeth a hamdden, ac iechyd a lles cymunedau arfordirol.

110. Gallai effaith datblygiad ar forweddau fod yn fwy arwyddocaol a gofyn am fwy o sensitifrwydd lle bo ganddo'r potensial i gael effaith niweidiol ar Barciau Cenedlaethol; AHNEau; Arfordir Treftadaeth; Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi cofrestredig; Safleoedd Treftadaeth y Byd; neu dreftadaeth adeiledig neu arfordir sydd heb ei ddatblygu (gweler hefyd **Bolisïau SOC_05** a **SOC_06**). Bydd lefel yr arwyddocâd yn amrywio gan ddibynnu ar natur y datblygiad a sensitifrwydd y morweddau yr effeithir arnynt.

111. Mae system Asesu Cymeriad y Dirwedd yn nodi nodweddion a manteision naturiol a diwylliannol sy'n benodol i'r lle a gellir ei defnyddio at ddiben rheoli strategol a datblygu a chynllunio. O dan yr un system, mae Ardaloedd Cymeriad Morol wedi'u nodi ar lefel genedlaethol a lleol ond gyda'r sylw mwyaf ar ardaloedd arfordirol.

112. Mae CNC yn gallu rhoi tystiolaeth a chyngor ar gymeriad y morwedd, ei nodweddion arbennig a'i sensitifrwydd i newid. Dylid ystyried unrhyw gyngor neu arweiniad a roddir ar gyfer dylunio'r datblygiad ac ar hynt proses creu cynllun.

113. Mae osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau niweidiol ar y morwedd ar eu mwyaf llwyddiannus yng nghamau cyntaf prosiect neu wrth ddatblygu'r opsiynau cynllunio. Y flaenoriaeth gyntaf wrth ystyried yr effeithiau posibl fydd ystyried y lleoliad a lleoliadau posibl eraill.

114. Fel rhan o'r cynllun defnyddio tir, mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu cynghori yn PCC i nodi cymeriad eu harfordir a datblygu neu ddefnyddio polisïau penodol sy'n adlewyrchu priodoleddau'u harfordir. Dylid ystyried cymeriad y morwedd a'r mapiau adnoddau gweledol (sydd ar gael oddi wrth CNC) wrth wneud hyn.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

115. Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi ystyried cymeriad ac ansawdd y morwedd, ei sensitifrwydd a'i allu i ddygymod â newid. Gallai'r Asesiad o Gymeriad Tirwedd fod yn gymorth i'r broses.

116. Mae'n hanfodol cael cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at ddatblygu cynnig ac ambell waith, at wneud penderfyniad, er mwyn cael deall yn iawn yr amrywiaeth o ganfyddiadau ynghylch pwy sy'n trysori beth, ble a pham. Dylai cynigion sy'n cynnwys morwedd esbonio'n glir sut y maent wedi trafod â rhanddeiliaid perthnasol, barn y rhanddeiliaid a sut y maent wedi ymgorffori'r farn honno yn y cynnig.

117. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi nodi morweddau perthnasol ac wedi ystyried eu heffeithiau posibl arnynt. Lle gwelir bod posibilrwydd y caiff cynnig *effaith niweidiol arwyddocaol* ar forwedd yr ardal, dylent nodi'r mesurau y maent wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio technegau lleoli a dylunio i leihau'r effeithiau niweidiol sy'n weddill neu ddefnyddio deunyddiau, lliw neu gefndir i leihau'r effaith weledol barhaol. Os ydy'r cynnig wedi ystyried ei effaith ar y morwedd wrth ddewis lleoliad, yna dylid esbonio hynny. Dylai cynigion ddangos hefyd eu bod wedi ystyried morweddau mewn ardaloedd cynllunio cyffiniol, lle bo gofyn.

118. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n ddigonol arwyddocâd y morweddau y gallai'r defnydd a gynigir ei wneud o'r amgylchedd morol effeithio arnynt; a
- cymryd mesurau priodol a chymesur i osgoi, lleihau a/neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar forweddau, a nodi, lle bo'n bosibl, y potensial ar gyfer eu gwella; a/neu
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

119. Mewn rhai ardaloedd, gallai derbyn bod cymeriad a golygfeydd yn newid fod fwyaf priodol pan fydd manteision newydd neu well i'r morwedd yn codi hefyd. Mewn ardaloedd eraill, gallai fod o fwy o fudd cyhoeddus diogelu cymeriad naturiol neu

hanesyddol a rhinweddau arbennig cysylltiedig fel 'gwylltineb', 'unigedd' neu 'dreftadaeth', lle na fyddai rhai datblygiadau'n briodol.

120. *Anogir* cynigion i nodi cyfleoedd i hyrwyddo neu wella morweddau yn eu datblygiad a thu hwnt, gan gynnwys er enghraifft, ystyried gwelliannau gweledol, ffisegol, amgylcheddol neu fynediad (gweler hefyd **Bolisi SOC_01**).

### 2.3.8 SOC_08 Y gallu i wrthsefyll newidiadau i’r arfordir a llifogydd ar yr arfordir

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

121. Mae polisi Llywodraeth Cymru ynghylch perygl llifogydd wedi'i nodi yn PCC. Ceir arweiniad hefyd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14 (Cynllunio Arfordirol) a TAN 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd).

122. Dylid yn ddelfrydol leoli datblygiadau arfordirol yn yr ardaloedd sy'n llai agored i lifogydd ac erydu, er y gallai fod eithriadau os yw lleoliad penodol yn hanfodol am resymau gweithredol neu os na ellir gosod seilwaith mewn lle arall. Mae arfordir sydd heb ei ddatblygu yn annhebygol o gael ei ystyried yn addas ar gyfer datblygiad newydd; na chwaith ddatblygiad y mae gofyn am waith peirianyddol neu amddiffynfeydd helaeth arno i'w gadw'n ddiogel.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

123. O ran llifogydd, dylai cynigion ystyried polisi ac arweiniad Llywodraeth Cymru ar berygl llifogydd. Dylai datblygwyr holi CNC am wybodaeth a chyngor technegol ar y perygl o lifogydd ac efallai y bydd gofyn iddynt gynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd os yw'r datblygiad mewn ardal lle mae'r risg yn fawr. Lle medrir, dylid defnyddio mapiau llifogydd Llywodraeth Cymru neu CNC i nodi lefel y perygl llifogydd yn yr ardal arfordirol, gyda Mapiau Cyngor Datblygu TAN 15 yn sbardun ar gyfer cynnal mwy o waith asesu.

124. Dylai cynigion asesu'r risg o newid arfordirol a llifogydd dros oes y prosiect a lle bo gofyn, dylent ddangos y mesurau y maent wedi'u cynnwys i fynd i'r afael â'r peryglon hysbys ac i wella cydnerthedd. Mae oes y prosiect yn cynnwys adeiladu, cynnal a datgomisiynu'r datblygiad. Dylai cynigion gynnwys asesiad realistig a chadarn o'u hoes.

125. Dylai'r cynnig ystyried polisïau'r Cynlluniau Rheoli Morlinau (CRhM) sy'n rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â'r arfordir trwy nodi'r polisïau a ffefrir ar gyfer rheoli'r arfordir. Yn unol â'r polisi'r CRhM, ni chaniateir datblygiad fel arfer mewn ardaloedd lle ceir risg o lifogydd neu erydu ac sydd â pholisi "dim ymyrraeth weithredol" neu bolisi "ailalinio wedi'i reoli" yn y CRhM ar gyfer cyfnod sy'n cyfateb i oes y datblygiad.

### 2.3.9 SOC_09 Effeithiau ar newidiadau i'r arfordir ac ar lifogydd ar yr arfordir

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

126. Mae gan brosesau cynllunio'r môr a'r tir a phrosesau penderfynu cysylltiedig eu rhan i'w chwarae i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â newid a llifogydd arfordirol. CNC ac Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am roi cyngor ar reoli perygl llifogydd ac erydu.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

127. Dylai ACP a llunwyr cynigion holi CNC ac Awdurdodau Lleol ar faterion sy'n gysylltiedig â llifogydd a newid arfordirol cyn gynted ag y medrant.

128. Dylai cynigion nodi unrhyw effeithiau niweidiol posibl a allai gynyddu'r risg o newid neu lifogydd arfordirol a nodi unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar brosesau arfordirol. Lle medrir eu nodi, dylai cynigion ddangos y mesurau y maent wedi'u cynnwys i fynd i'r afael â'r risgiau neu'r effeithiau hyn. Gallent gynnwys, er enghraifft, addasu adeileddau diogelu'r arfordir neu adeiladu rhai newydd; ond dylid sicrhau bod mesurau sy'n gofyn am waith adeiladu neu beiriannu yn osgoi effeithiau niweidiol annerbyniol ar gymunedau arfordirol a'r amgylchedd naturiol (yn unol â **Pholisi SOC_02** a pholisïau **ENV**)**.** Dylai cynigion ddangos hefyd eu bod wedi ystyried effeithiau posibl newid arfordirol a llifogydd neu effeithiau ar brosesau arfordirol mewn ardaloedd cynllunio cyffiniol, lle bo hynny'n berthnasol.

129. Mae cynigion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac amddiffyn yr arfordir yn cael eu *hannog* i ystyried y CRhMau perthnasol a dylent sicrhau hefyd eu bod, lle medrant, yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y CrRhM. I'r graddau bod hynny'n ymarferol, dylai cynigion nodi'r atebion sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol a'r dirwedd/morwedd a galluogi cyfleoedd i greu cynefinoedd (gweler **Polisïau ENV_01 a 02**; **SOC 06** a **07.**

130. Lle bo CRhM o blaid 'cynnal y morlin', dylai cynigion ystyried hefyd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd (gweler hefyd **Bolisïau SOC_10** ac **11**) gan ddefnyddio'r data'r dystiolaeth wyddonol fwyaf cyfoes sydd ar gael. Dylai cynigion ddangos sut y maent yn osgoi neu'n lleihau'r risg o effeithiau niweidiol ar erydu arfordirol, a/neu'n cynyddu neu'n gwaethygu'r risg o lifogydd mewn ardaloedd eraill.

### 2.3.10 SOC_10 Lleihau'r newid yn yr hinsawdd

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

131. Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan ei bod yn argyfwng hinsawdd ac y dylid osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr lle medrir, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau a phrosiectau seilwaith mwy. Cynhwysir targedau allyriadau statudol Llywodraeth Cymru yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

132. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi nodi'u potensial ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr a'u bod wedi disgrifio'r mesurau y maent wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn. Dylai mesurau lleihau gynnwys, er enghraifft, defnyddio ynni'n fwy

effeithlon a defnyddio technolegau carbon isel fel ffynonellau ynni adnewyddadwy. Os bydd dal allyriadau sylweddol, dylai'r cynigion roi *achos clir sy'n argyhoeddi dros fwrw ymlaen.*

133. Wrth ystyried allyriadau, dylid cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd dan sylw (gan gynnwys y nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu, cynnal a datgomisiynu) a'r allyriadau anuniongyrchol (er enghraifft, cynnydd yn hyd teithiau i longau oherwydd y datblygiad a/neu cynhyrchu'r deunydd fydd yn cael ei ddefnyddio wrth ei adeiladu).

134. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n foddhaol arwyddocâd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac anuniongyrchol hysbys neu a ragwelir sy'n deillio o'r gweithgaredd neu'r datblygiad arfaethedig; ac
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd; a/neu
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

135. Dylai penderfynwyr ddefnyddio lefel briodol o gymesuredd wrth asesu allyriadau nwyon tŷ gwydr, hynny yn unol â **Pholisi GEN_02** ond gan ddangos rhagofal hefyd lle bo angen a lle bo hynny'n briodol, a ddylai fod yn gymesur â math, maint ac ag effeithiau hysbys y cynnig (gweler **Polisi SCI_01**).

### 2.3.11 SOC_11 Y gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

136. Wrth ddatblygu cynnig ac fel rhan o'r broses benderfynu mewn cysylltiad â gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, dylid defnyddio'r data'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf sydd ar gael. Mae help ar gael ar wefannau Llywodraeth Cymru ar Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd sy'n cynnwys cyngor ar baratoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd a Chynllun Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd sy'n cyflwyno trywydd cenedlaethol cytûn ar gyfer gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

137. Gall CRhMau helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar yr arfordir a chyfrannu at benderfyniadau addasu. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried sut orau dros y tymor byr, canolig a hir, y dylid rheoli'r arfordir, gan gynnwys gwaith i addasu'r arfordir, yng ngoleuni'r cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a chyfyngiadau eraill.

138. Un agwedd bwysig wrth sicrhau bod cynigion yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yw eu bod yn cynnwys mesurau addasu.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

139. Dylai cynigion ddangos eu bod yn ystyried effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar y datblygiad gydol ei oes.

140. Dylid ymgorffori mesurau addasu yn ôl y gofyn. Dylid disgrifio unrhyw fesurau addasu yn fanwl yn y cais. Dylid cynnwys tystiolaeth i ategu'r mesurau, dylent fod yn realistig ac ni ddylent gynyddu'r effeithiau newid hinsawdd mewn mannau eraill.

141. Gallai mesurau i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon neu ddefnyddio technolegau carbon isel. Gallai mesurau addasu gynnwys y rheini sy'n cryfhau ecosystemau, cymunedau a gweithgarwch economaidd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Dylai unrhyw fesurau lliniaru neu addasu osgoi creu effeithiau niweidiol annerbyniol ar gymunedau arfordirol a'r amgylchedd naturiol (yn unol â **Pholisi SOC_02** a pholisïau **ENV**).

142. Dylai cynigion ystyried y cyfleoedd posibl a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd, fel ag y'u nodwyd gan Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU.

143. Dylai ACPau fod yn fodlon bod cynlluniau rheoli risg neu wrth gefn digonol lle bo'u hangen wedi'u llunio fel bod datblygiadau'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn well. Er enghraifft, lle bo datblygiad yn cael ei gynnig mewn ardal sydd wedi'i enwi fel ardal ag iddi risg uchel o lifogydd neu newid arfordirol (gweler **Polisïau SOC_08** a **09**).

## 2.4 ENV - Byw o fewn terfynau amgylcheddol

### 2.4.1 ENV_01 Ecosystemau morol cydnerth

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

144. Ceir y ddeddfwriaeth berthnasol yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Strategaeth Forol 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rheoliad Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

145. Mae'n drosedd aflonyddu, dal, danfon, cymryd neu ddinistrio wyau, difrodi neu ddifetha man bridio neu anafu neu ladd rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) yn fwriadol, oni bai bod trwydded EPS wedi'i rhoi. Rhestrir rhagor o droseddau yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

146. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol o ran gwarchod ecosystemau'r môr.

147. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n ddigonol arwyddocâd effeithiau hysbys eu gweithgareddau neu ddatblygiadau arfaethedig ar ecosystemau'r môr; ac
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau hysbys mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd; a/neu,
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

148. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n gwarchod rhywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir gan Ewrop. Hefyd, dylid rhoi sylw i gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf a restrir yn Adran 7

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth Cymru. Dylai cynigion ddangos sut y maent yn cynnal ac yn gwella'r cynefinoedd a rhywogaethau hyn, gan gynnwys eu gwarchod rhag effeithiau posibl neu hyrwyddo eu hadfer a/neu eu gwella.

149. *Anogir* cynigion sy'n cyfrannu at adfer neu gyfoethogi ecosystemau morol. Nid yw ymgorffori gwaith adfer a/neu gyfoethogi ecosystemau morol yn y cynigion o reidrwydd yn fater drud neu gymhleth. Gallai gynnwys defnyddio deunyddiau gwahanol ar adeilad ar y blaendraeth fyddai'n denu amrywiaeth o rywogaethau i'w goloneiddio ar ôl ei adeiladu. Gall newidiadau bychan i adeiladau rhwng y ddau lanw fyddai'n caniatáu ffurfio cilfachau mewn pyllau neu walydd ar lanw isel yn hytrach na'u bod yn sychu'n llwyr ddarparu amgylchedd ychwanegol ar gyfer creaduriaid pyllau creigiog na fyddent fel arall yn gallu bodoli yno. Dylai cynigwyr drafod ag CNC am gyngor ar sut i gyfoethogi er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw gyfoethogiad yn addas.

### 2.4.2 ENV_02 Ardaloedd Morol Gwarchodedig

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

150. Mae'r Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) perthnasol (CNC yn eu rôl fel yr SNCB yng Nghymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer alldraeth y DU, a Natural England mewn cysylltiad â safleoedd wedi’u dynodi yn ardaloedd morol Lloegr a fydd yn berthnasol i gynigion sy'n rhychwantu'r ffin) yn gallu rhoi cyngor ar gadwraeth a help i sicrhau bod y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli'n dda trwy roi cyngor ar y gweithgareddau fydd yn debygol o amharu ar gynefinoedd a rhywogaethau ac amcanion cadwraeth neu eu difrodi. Anogir ymgeiswyr a phenderfynwyr i ddefnyddio'r Pecynnau Cynghori ar Gadwraeth, lle bônt ar gael, i fwydo'r datblygiad ac i'w helpu i benderfynu ar y cynnig.

151. Cryfheir yr CMCC gan broses barhaus o ddatblygu, casglu a dehongli tystiolaeth fydd yn helpu i roi'r Cynllun ar waith a gweithgarwch cynllunio morol. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr Ardal Forol warchodedig ac ecosystemau morol yn ogystal â gwasgariad a natur adnoddau y mae sectorau gwahanol yn dibynnu arnynt. Bydd y ddealltwriaeth a ddaw o hynny yn helpu'r rheini sy'n datblygu cynigion, penderfynwyr a rhanddeiliaid eraill. Ceir yn Atodiad 2 rai mapiau dangosol sy'n dangos lleoliad adnoddau (dyframaethu, agregau, ynni'r tonnau ac ynni llif y llanw) mewn perthynas ag Ardaloedd Gwarchodedig Morol (a'u nodweddion). Mae'r mapiau hyn wedi'u llunio at ddiben darlunio; dylai defnyddwyr y Cynllun ystyried data'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf wrth ystyried cynigion unigol.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

152. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau â'r ddeddfwriaeth ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol berthnasol o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig a safleoedd eraill sy'n cael eu gwarchod at ddiben cadwraeth natur. Dylai cynigion gynnwys unrhyw wybodaeth y gall ACPau ofyn amdanynt er mwyn iddynt allu penderfynu a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle gwarchodedig ac felly a oes angen asesiad priodol o dan Reoliadau Gwarchod

Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a/neu Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

153. Dylai cynigion fod yn gydnaws ag unrhyw fesurau perthnasol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig neu unrhyw godau ymddygiad perthnasol. Ceir anogaeth i gysylltu'n fuan â'r SNCB perthnasol i drafod y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodi unrhyw fesurau rheoli allai fod yn berthnasol i gynigion unigol.

154. Lle bo effeithiau niweidiol posibl ar safle dynodedig wedi'u nodi, er mwyn cael ei gymeradwyo, efallai y bydd angen i gynnig gynnwys mesurau lliniaru priodol er mwyn diogelu gwerth y safle dynodedig. Mewn achos o'r fath, dylid cynnwys mesurau lliniaru yn y cynnig, lle bo'n bosibl gwneud hynny.

155. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n ddigonol effeithiau posibl eu gweithgarwch neu eu datblygiad ar unrhyw safle dynodedig;
- wedi cymryd camau priodol i osgoi effeithiau niweidiol ar safle dynodedig; a
- na fydd yn cael effaith niweidiol ar y safle yn unig nac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau hysbys, sy'n bod neu arfaethedig eraill.

156. Ni chaiff ACP ond cymeradwyo cynnig fydd yn cael effaith niweidiol ar integredd Safle Ewropeaidd neu Safle Morol Ewropeaidd os yw'n fodlon nad oes ffordd arall o gyflawni amcan y cynnig a bod rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) dros ei gyflawni. Mewn achos o'r fath, dylid sicrhau mesurau cydbwyso er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau'n gydlynol.

### 2.4.3 ENV_03 Rhywogaethau estron goresgynnol

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

157. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

158. Mae Canllaw Cynllunio ar Fioddiogelwch (Cymru a Lloegr) ar gael gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr[11]; ceir hefyd siartiau adnabod ac asesiadau risg ar gyfer rhywogaethau penodol a mecanwaith ar gyfer adrodd pan amheuir bod rhywogaeth estron oresgynnol wedi'i gweld. Efallai bod yna dir lleol, er enghraifft ynysoedd nythu adar y môr, lle ceir cynlluniau bioddiogelwch y bydd angen eu hystyried o dan y polisi hwn.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

159. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol.

[11] http://www.nonnativespecies.org/home/index.cfm

160. Dylai cynigion asesu a oes risg y gallent gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Lle gwelir bod risg uwch, dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i osgoi neu leihau unrhyw risgiau hysbys mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd.

161. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft lle pery risg arwyddocaol, efallai y bydd gofyn i gynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch. Gallai'r rhain gynnwys:

- dilyn arferion da, megis yr ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu, sy'n ceisio rhwystro unrhyw un sy'n ymweld â dŵr neu'n gweithio mewn dŵr neu gerllaw i ddŵr, rhag trosglwyddo rhywogaethau estron goresgynnol ar ddamwain; a/neu
- datblygu cynllun bioddiogelwch llawn sy'n nodi manylion y camau penodol y bydd eu hangen i leihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

162. Dylai cynigwyr gysylltu ag CNC i drafod gofynion cynigion unigol. Lle cynhwysir bioddiogelwch fel rhan o gynnig, dylai fod yn realistig a dylid cynnwys tystiolaeth i'w gefnogi. Dylai penderfynwyr gynnwys unrhyw amodau angenrheidiol i sicrhau mesurau bioddiogelwch, pan fo hynny'n briodol.

### 2.4.4 ENV_04 Sbwriel Môr

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

163. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau 1973 (MARPOL) a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

164. Mae sbwriel môr yn broblem bellgyrhaeddol a thymor hir y mae gofyn ei hystyried ar bob lefel ac o safbwynt pob maes polisi. Gall sbwriel o'r tir hefyd gael effaith arwyddocaol ar amgylchedd y môr a dylid ystyried hwnnw hefyd os yw'n berthnasol i'r cynnig.

165. *Anogir* mentrau sy'n ceisio lleihau swm y sbwriel sy'n dod i amgylchedd y môr a'r arfordir. Gallai mentrau o'r fath gynnwys mentrau pysgota am sbwriel, ailddefnyddio ac ailgylchu, systemau hidlo gwell a defnyddio deunyddiau yn lle plastig untro.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

166. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol berthnasol o ran sbwriel môr.

167. Dylid asesu cynigion a oes risg y gallent gyflwyno sbwriel i amgylchedd y môr. Lle gwelir bod risg uwch, dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i osgoi neu leihau'r risgiau hysbys mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd. Gallai mesurau gynnwys cynlluniau rheoli gwastraff, cadw at godau ymddygiad perthnasol a darparu hyfforddiant, arwyddion a chyfleusterau gwaredu gwastraff.

168. Lle bo'n briodol, dylai cynigion gynnwys hefyd gynllun effeithiol ar gyfer codi sbwriel os caiff ei ollwng ar ddamwain.

### 2.4.5 ENV_05 Sŵn tanddwr

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

169. Mae Gweinyddiaethau'r DU wedi sefydlu'r Gofrestr Sŵn Morol[12] ar gyfer synau ergydiol mawr amledd isel i ganolig (10Hz - 10 kHz) fel y rheini a geir wrth fwrw seilbyst i'r ddaear a chynnal arolygon seismig. Mae'r gofrestr sŵn yn cofnodi lle ac amser gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn. Bydd yr wybodaeth a gesglir gan y gofrestr yn ein helpu i ddeall sŵn tanddwr yn well a sut orau i'w reoli. *Anogir* mentrau sy'n cyfrannu at ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ac at rannu data (gweler **Polisi SCI_01**).

170. Lle bo hynny'n briodol, dylai defnyddwyr y cynllun gyfeirio hefyd at ganllawiau'r CNN (Cydbwyllgor Cadwraeth Natur) ac at y protocol ar gyfer osgoi anafu mamaliaid morol trwy weithgareddau seismig, gosod seilbyst a defnyddio ffrwydron.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

171. Gallai fod yn ddefnyddiol i gynigwyr gyfeirio at y Gofrestr Sŵn Morol wrth ddatblygu'u cynnig. Gall yr SNCB perthnasol roi cyngor ar y rhywogaethau a warchodir a allai fod yn sensitif i sŵn.

172. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi asesu effeithiau posibl sŵn y datblygiad neu weithgaredd ar amgylchedd y môr. Lle gwelir bod effaith, dylai cynigion ddisgrifio'r mesurau y maent wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn. Gallai mesurau lleihau gynnwys cyfyngu ar y cyfnodau adeiladu neu weithredu er mwyn osgoi tymhorau bridio neu fudo a defnyddio dulliau adeiladu amgen neu ddyluniad sensitif. Gallai mesurau lliniaru gynnwys creu lleiniau clustogi neu ddefnyddio rhwystrau sŵn. Lle cynigir mesurau o'r fath, dylid eu disgrifio'n fanwl yn y cynnig.

173. Dylid cynnwys asesiad o effaith sŵn yn y cynnig pan fydd ACP yn gofyn am hynny. Bryd hynny, dylai'r asesiad ddisgrifio math, lefel a hyd y sŵn y disgwylir ei gynhyrchu ym mhob cam o'r datblygiad a'r effeithiau a ragwelir ar anifeiliaid sy'n sensitif i sŵn, er enghraifft, teulu'r morfil (gan gynnwys eu heffaith cronnol).

174. Lle ceir tystiolaeth, dylai asesiadau ddangos nad oes effeithiau niweidiol ar rywogaethau a warchodir sy'n sensitif i sŵn.

175. Dylai cynigion ystyried a oes potensial i lefel y sŵn arwyneb neu danddwr effeithio ar rywogaethau a warchodir gan Ewrop (EPS) a ph'un a oes angen trwydded EPS i adlewyrchu effeithiau'r aflonyddu ac anafu (gweler **Polisi ENV_01**). Dylai cynigion ystyried hefyd pa mor agos ydynt i Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd â nodweddion sensitif gan y gall sŵn a gynhyrchir y tu allan i'r Ardal effeithio ar y rhywogaethau ynddi. Lle bo hynny'n briodol, dylai cynigion asesu effeithiau posibl unrhyw sŵn ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn unol â **Pholisi ENV_02**.

176. Lle bo hynny'n briodol, gallai fod yn amod y gymeradwyaeth i gymhwyso canllawiau CCN neu brotocol ar gyfer lleihau'r risg o anafu mamal morol.

---

[12] https://mnr.jncc.gov.uk/

### 2.4.6 ENV_06 Ansawdd aer a dŵr

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

177. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (WER) 2017. Hefyd, darllenwch y Canllaw ar bolisïau cefnogi a diogelu i gael gwybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer sectorau fel Olew a Nwy.

178. Lle gallai gweithgaredd effeithio ar gorff dŵr o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, dylid cynnal asesiad cydymffurfedd o dan WER.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

179. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, deddfwriaeth a'r canllawiau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol o ran aer ac ansawdd dŵr gan gynnwys WER a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

180. Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi asesu effeithiau posibl eu datblygiad neu weithgaredd ar ansawdd aer a dŵr. Lle gwelir bod effeithiau, dylai cynigion ddisgrifio'r mesurau y maent wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn. Gallai'r mesurau hyn gynnwys defnyddio dulliau adeiladu amgen, rheoli llwch ac allyriadau adeiladu, cynnal neu ddymchwel, trin dŵr neu ddefnyddio cemegolion amgen.

181. Os caiff cynnig ei leoli mewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer neu gerllaw iddi, dylid ceisio cydymffurfio â'r cynllun gweithredu perthnasol. Dylai ymgeiswyr drafod â'r Awdurdod Lleol perthnasol i sicrhau na eir dros y terfynau statudol a bod y cynnig yn cydymffurfio â chynlluniau gweithredu'r Ardal Reoli.

182. Dylai cynigion ystyried hefyd effaith llygryddion ar safleoedd cadwraeth natur[13], er enghraifft gwaddodion o'r aer. Byddai hynny'n golygu proses sgrinio gymalog fydd yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael i asesu effeithiau'r cynnig. Y cam cyntaf yw edrych a oes safleoedd cadwraeth o fewn pellter penodedig i'r cynnig. Caiff y cyfraniad a ragwelir gan y broses a'r crynhoad amgylcheddol a ragwelir o'r cynigion rheoledig eu cymharu â throthwyon fydd wedi'u mynegi fel canrannau'r Safonau Ansawdd Aer, lefelau critigol a llwythi critigol.

183. Lle cynhelir Asesiad Cydymffurfedd o dan WER, rhaid iddo ystyried amcanion y corff dŵr y gallai'r datblygiad effeithio arno ac unrhyw ddirywiad posibl yn statws neu botensial y corff dŵr, neu a allai'r datblygiad rwystro'r corff dŵr rhag cyflawni ei amcanion. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau posibl ar ansawdd dŵr, hydromorffoleg ac elfennau biolegol. Os dywed yr Asesiad Cydymffurfedd y gallai bod risg i'r cyrff dŵr ddirywio neu y gallai'r datblygiad rwystro'r corff dŵr rhag cyflawni ei amcanion, ni fydd modd rhoi cydsyniad oni gall y cynnig ddangos bod amodau Rhan 5 (16-19) WER yn cael eu bodloni.

[13] Gan gynnwys unrhyw safle gwarchodedig ar dir neu fôr sydd wedi'i ddynodi at ddiben cadwraeth natur.

184. Dylai penderfyniadau awdurdodi ystyried hefyd gynlluniau statudol ac anstatudol eraill a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol gan gynnwys, ymhlith eraill, Ddatganiadau Ardal, CRhMau a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon (CRhBAau).

### 2.4.7 ENV_07 Rhywogaethau a chynefinoedd pysgod

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

185. Y rhywogaethau allweddol yw'r rheini sydd o bwys masnachol (gan gynnwys hamddena), cadwraethol ac ecolegol a chynhwysant Rywogaethau o'r Pwysigrwydd Pennaf a ddiogelir o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

186. Ceir amrywiaeth o wybodaeth ddangosol ar Borthol Cynllunio Morol Cymru a chan ddiwydiant a rheoleiddwyr i'ch helpu i adnabod y mannau bwydo, bridio (gan gynnwys y mannau silio a meithrin) a mudo. Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn brin mewn rhai achosion. *Anogir* mentrau fydd yn cyfrannu at ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth forol ac at rannu data (gweler **Polisi SCI_01**).

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

187. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi asesu potensial eu datblygiad neu weithgaredd i gael effaith niweidiol ar rywogaethau allweddol o bysgod a physgod cregyn a/neu gynefinoedd pwysig, gan gynnwys mannau bwydo, bridio a mudo pwysig. Lle gwelir bod effeithiau niweidiol, dylai cynigion ddisgrifio'r mesurau y maent wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn. Gallai'r mesurau gynnwys defnyddio dulliau adeiladu amgen neu ddyluniad sensitif, cyfyngu ar y cyfnodau adeiladu neu weithredu er mwyn osgoi'r tymor bridio neu fudo neu ddefnyddio deunyddiau adeiladu gwahanol fyddai'n denu rhywogaethau i goloneiddio adeilad ar ôl ei adeiladu. Dylai'r cynnig ddisgrifio'n fanwl y mesurau y dylid eu cynnwys.

188. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n ddigonol effeithiau posibl eu gweithgarwch neu eu datblygiad ar rywogaethau a chynefinoedd pysgod pwysig; ac
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru'r effaith ar rywogaethau a chynefinoedd pysgod pwysig mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd; a/neu
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

## 2.5 GOV - Hyrwyddo llywodraethu da

### 2.5.1 GOV_01 Effeithiau cronnol

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

189. Mae effeithiau cronnol yn ystyriaeth bwysig i ddeall effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymalog neu ehangach gweithgareddau neu wasgeddau lluosog. Dylid ystyried effeithiau cronnol ar draws gweithgareddau a datblygiadau unigol ac ar draws sectorau.

190. Mae Porthol Cynllunio Morol Cymru'n nodi manylion gweithgareddau y mae CNC wedi rhoi tystysgrifau iddynt a gallai gwybodaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol i helpu i

asesu effeithiau cronnol posibl. Yn yr un modd, mae ardaloedd cynllunio cyffiniol a rheoleiddwyr eraill hefyd yn cadw cronfeydd data neu bortholau o dystiolaeth y gall y cyhoedd eu gweld.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

191. Dylai cynigion ddangos, lle bo data ar gael a chan ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau ddiweddaraf, eu bod wedi asesu potensial eu datblygiad neu weithgaredd i achosi effeithiau cronnol niweidiol. Wrth wneud hynny, dylai cynigion ystyried cynlluniau neu brosiectau sy'n bod ac unrhyw rai a ddisgwylir ac sydd yn yr arfaeth. Dylai cynigion, lle bo gofyn ac ymhlith pethau eraill, ystyried eu heffeithiau cronnol ynghyd ag effaith prosiectau mewn ardaloedd cynllunio cyffiniol.

192. Dylai cynigion ystyried yr arweiniad sydd ar gael a gofyn i'r penderfynwr am ragor o arweiniad ynghylch maint a natur unrhyw asesiad sydd ei angen o'r effeithiau cronnol.

193. Lle bydd effeithiau cronnol *niweidiol arwyddocaol*, efallai y bydd gofyn cymryd camau i osgoi, lleihau a/neu liniaru gan ddibynnu ar arwyddocâd yr effeithiau hynny. Argymhellir cysylltu'n fuan â'r penderfynwr perthnasol i drafod gofynion cynigion unigol.

194. Dylai ACPau fod yn fodlon bod y cynigion:

- wedi ymchwilio a gwerthuso'n foddhaol effeithiau lluosog a chronnol y gweithgaredd neu'r datblygiad ar amgylchedd y môr; a
- wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau hysbys mewn ffordd sy'n gymesur â'u harwyddocâd; a/neu,
- lle bo angen, wedi cyflwyno *achos* priodol *dros fwrw ymlaen* sy'n dangos yn ddigon clir fanteision bwrw ymlaen.

195. Dylai penderfynwyr arddel lefel briodol o gymesuredd wrth asesu effeithiau cronnol, hynny yn unol â **Pholisi GEN_02** ond gan ddangos rhagofal hefyd, lle bo angen a lle bo hynny'n briodol, a ddylai fod yn gymesur â risgiau amgylcheddol neu eraill y cynnig (gweler **Polisi SCI_01**).

### 2.5.2 GOV_02 Cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

196. Mae ardal cynllun morol Cymru yn rhannu ei ffiniau â thair ardal cynllunio morol arall yn y DU (De-orllewin Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Iwerddon) a dwy y tu allan i'r DU (Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

197. Hwylusir integreiddio rhwng ardaloedd cynllunio'r tir a'r môr gan gorgyffwrdd o ran yr ardal gynllunio a'r ardal y dylanwedir arni. Mae ffin CMCC yn ymestyn i benllanw cymedrig y gorllanw tra bod ffiniau awdurdodau lleol yn ymestyn i lawr i ddistyll cymedrig y llanw. Yn ogystal, gall penderfyniadau gan awdurdodau lleol nad ydynt yn union ffinio â'r arfordir yn gallu effeithio gan y rheini yn yr ardal forol ac fel arall, er enghraifft gall datblygiadau ar dir effeithio ar afonydd sy'n gollwng eu dŵr yn y môr. Dylai Awdurdodau Lleol ymwybod a chydymffurfio â pholisïau yn CMCC a'r holl

ddatblygiadau a dylai'r holl ddatblygiadau a allai effeithio ar yr ardal forol ystyried CMCC.

198. Wrth ddatblygu cynigion datblygu ac wrth ddatblygu cynlluniau, polisïau a strategaethau, dylai datblygwyr ac ACPau ystyried egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar gyfer rheoli'r rhyngwyneb rhwng tir a môr.

199. Mae trafod rheolaidd a rhannu tystiolaeth a data ac arferion da rhwng ardaloedd cynllunio yn agwedd bwysig ar gydweddu ar draws ffiniau. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ac yn diweddaru'n rheolaidd Borthol Cynllunio Morol Cymru sy'n cynnwys data a mapiau gofodol morol. Yn yr un modd, bydd gan ardaloedd cynllunio cyffiniol gronfeydd data neu bortholau y caiff y cyhoedd eu gweld. *Anogir* awdurdodau ac ardaloedd perthnasol i rannu data a chyfeirio at gronfeydd data (gweler **Polisi SCI_01**).

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

200. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi nodi unrhyw ddogfennau neu gynlluniau perthnasol ac ystyried unrhyw bolisïau cymwys ynddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran ceisiadau trawsffiniol lle bydd sawl cynllun yn debygol o fod yn berthnasol.

201. Dylai ACPau sicrhau bod unrhyw ddogfennau neu gynlluniau perthnasol, ac unrhyw bolisïau cymwys ynddynt, yn cael eu hystyried wrth iddynt ddatblygu'u cynlluniau, polisïau a'u strategaethau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys CMCC a chynlluniau morol unrhyw ardaloedd morol cyffiniol.

202. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cydgysylltu a bod cynlluniau'n cydweddu, dylai ACPau ystyried y potensial i gydweithio, ond gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol yr un pryd, i reoli cynigion sy'n digwydd mewn ardaloedd trawsffiniol ac sydd angen mwy nag un caniatâd arnynt gan gynnwys, er enghraifft, mwy nag un drwydded forol gan awdurdodau cyffiniol.

203. Os tybir y bydd penderfyniad yn debygol o effeithio ar ardal cynllunio morol gyffiniol neu effeithio mewn unrhyw ffordd ar swyddogaeth y mae awdurdod cynllunio morol arall yn gyfrifol amdani, dylid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cydweddu â pholisïau'r Cynllun. Os bydd gwahaniaeth rhyngddynt, dylai fod â'r bwriad o sicrhau canlyniadau bwriedig a dylai fod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol neu geisio eu hosgoi.

204. Dylai penderfyniadau awdurdodi ystyried hefyd cynlluniau, prosiectau, rhaglenni a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol statudol ac anstatudol sydd wedi'u paratoi gan ACPau. Er enghraifft, ymhlith eraill, cynlluniau datblygu yn y system cynllunio defnydd tir, Datganiadau Ardal, CRhM, RBMP, a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

## 2.6 SCI - Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol

### 2.6.1 SCI_01 Gwneud penderfyniadau ar sail risg

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

205. Cafwyd yn WMER y dystiolaeth orau ddiweddaraf am gyflwr amgylchedd morol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddiweddaru a thystiolaeth ategol o dro i dro. Mae gofyn di-dor i ddatblygu tystiolaeth er mwyn deall cyflwr a chryfder ecosystemau'r môr; rydym am annog ymdrechion o'r fath.

206. Mae Porthol Cynllunio Morol Cymru hefyd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae ardaloedd cynllunio cyffiniol yn cadw cronfeydd data o dystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

207. Mae'n amcan gan Lywodraeth Cymru i gau'r bylchau yn y dystiolaeth trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys y Strategaeth Tystiolaeth Forol, ymchwil a monitro a phrosiectau â rhanddeiliaid. *Anogir* awdurdodau ac ardaloedd perthnasol i rannu data a chyfeirio at gronfeydd data.

208. Dylid mynegi'r dystiolaeth mewn ffordd glir a diamwys ar gyfer y gynulleidfa darged. Dylid hefyd ddisgrifio'n glir lefel yr hyder yn y data a ddefnyddir a'r rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â dehongli'r data. Dylid dweud yn glir os yw'r data'n wael, yn anghyflawn neu'n ansicr a'u disgrifio fel data o'r fath. Mae barn arbenigwyr fel arfer yn bwysig wrth wneud penderfyniadau a dylid nodi'n glir pan y'i defnyddir.

209. Dylid manteisio ar gyfleoedd i nodi neu ddiwallu'r angen am dystiolaeth strategol yn unol â blaenoriaethau CMCC i helpu i leihau'r risg i benderfyniadau cydsynio a buddsoddi yn y dyfodol. Dylid cymryd camau rhesymol i lenwi'r bylchau yn y dystiolaeth strategol er mwyn rhoi sail i benderfyniadau awdurdodau cynllunio, rheoleiddwyr a defnyddwyr y môr. Gallai cydweithio â phartneriaid o bob rhan o'r DU a thu hwnt wella'r potensial i ddysgu ac osgoi dyblygu ymdrechion.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

210. Dylai cynigion roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i fwydo penderfyniadau am eu cynnig, gan wneud y defnydd gorau o arferion da presennol ac o'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Wrth ddatblygu cynnig, dylid defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn gallu nodi effeithiau cadarnhaol a niweidiol y cynnig, gan gynnwys effeithiau cronnol. Dylai'r dystiolaeth fod yn berthnasol, o ansawdd priodol ac yn gymesur â risg y weithgaredd a gynhelir.

211. Dylai penderfynwyr, gyda chymorth y rheini yr ymgynghorir â nhw, fynegi'n glir ac yn broactif natur y dystiolaeth sydd ei hangen ac a fyddai'n ddigonol i helpu'r penderfynwr i wneud y penderfyniad. Anogir ymgeiswyr i drafod yn fuan â'r ymgyngoreion perthnasol.

212. Bydd y dystiolaeth sydd ar gael yn ffactor wrth benderfynu ar y cymesuredd sydd ei angen. Lleia'n y byd o dystiolaeth sydd neu leia'n y byd yw ei safon, mwya'n y byd yw'r ansicrwydd. Dylid tynnu pynciau sy'n debygol o fod yn ddinod neu'n amherthnasol i benderfyniad awdurdodi o'r broses cyn gynted â phosibl. Dylai penderfynwyr fod yn briodol o ragofalus sy'n gymesur i risg amgylcheddol neu arall y

cynnig. Mae'n briodol bod yn rhagofalus os oes bygythiad o ddifrod difrifol a/neu anadferadwy i'r amgylchedd a/neu lle ceir ansicrwydd gwyddonol mawr oherwydd diffyg tystiolaeth neu dystiolaeth amhendant.

213. Lle ceir diffyg tystiolaeth a bod effeithiau'r weithgaredd yn aneglur, mae'n dal yn bosibl gwneud penderfyniad ar sail risg. Ni ddylai'r ffaith nad oes tystiolaeth ohirio gweithredu i ddiogelu'r amgylchedd morol; ac ni ddylai diffyg tystiolaeth o reidrwydd effeithio ar amcanion cymdeithasol ac economaidd.

214. Mae'n bwysig y ceir adborth clir o'r broses o nodi effeithiau a ragwelir er mwyn monitro effeithiau gwirioneddol a bod y dystiolaeth hon ar gael i ddylanwadu ar benderfyniadau yn y dyfodol ac yn cael ei hymgorffori ganddynt. Anogir ymgeiswyr i ddangos y dystiolaeth forol a gesglir fel rhan o gynnig ac ystyried cynigion monitro gwirfoddol i gefnogi datblygiad y sector yn y dyfodol. Dylai cynigion nodi'n glir sut y maent yn bwriadu rhannu unrhyw dystiolaeth y maent wedi'i chasglu er budd y cais neu a allai gael ei chasglu ar ôl ei awdurdodi.

215. Mewn ambell achos, gellid mabwysiadu dulliau rheoli addasol ar gyfer rheoli ansicrwydd ar y cyd â throthwyon effeithiau niweidiol derbyniol a rhaglenni monitro cysylltiedig. Er mwyn i reolaeth addasol fod yn gam priodol, dylid gofalu bod mod rhoi adborth ac ymateb gydol y prosiect. Dylai ymgeiswyr ddeall y gallai dibyniaeth ar hyn arwain at osod cyfyngiadau rheoli neu weithredol ar y prosiect.

216. Os mabwysiedir ffurfiau ar reolaeth addasol, mae'n hanfodol:

- sicrhau y ceir digon o dystiolaeth i gefnogi'r cais, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael a chyngor gan arbenigwyr;
- bod trefniadau monitro yn eu lle; a
- bod yr hyn a ddysgir wrth y broses yn cael ei fwydo i benderfyniadau'r dyfodol.

217. Os ydy amcan rheolaeth addasol yn cynnwys cadw effeithiau niweidiol o fewn terfynau derbyniol, mae'n bwysig:

- penderfynu ar drothwyon rhybuddio, os oes eu hangen, rhag i'r niwed fynd dros y lefelau derbyniol;
- bod trefniadau monitro yn eu lle fydd yn gallu gweld y trothwyon yn cael eu croesi; a
- cytuno ar fesurau rheoli addasol ymlaen llaw i rwystro'r niwed rhag mynd dros y lefelau derbyniol.

# 3 Polisïau Diogelu a Chefnogi Sectorau

218. Er mwyn cefnogi i roi pob polisi sector ar waith, cynhwysir canllaw hefyd lle gwelir bod angen, ar sut i roi rhai polisïau cyffredinol ar waith. Nid yw cyfeiriad at bolisi cyffredinol penodol yn golygu bod y polisi cyffredinol hwn o reidrwydd yn fwy perthnasol na chwaith yn cael mwy o flaenoriaeth na pholisïau eraill CMCC. Dylid ystyried yn ofalus Canllaw ar Gyflawni pob polisi cyffredinol.

## 3.1 Polisïau i Gefnogi'r Sector

| |
|---|
| Mae'r polisïau yn CMCC sy'n cefnogi sectorau penodol yn gweithredu ochr yn ochr â pholisïau cyffredinol ac yn pennu'r polisi ar gyfer datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol gan sectorau penodol. |

219. Yn unol â **Pholisi GEN_01**, ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Er mwyn gwneud y sectorau mor gynaliadwy â phosibl a chynyddu eu cyfraniad at nodau llesiant Cymru, mae'r rhan fwyaf o'r sectorau y mae CMCC yn eu hystyried yn cynnwys "polisi cefnogi" sy'n cefnogi gweithgarwch presennol a/neu newydd y sector.

220. Bwriedir i bolisi cefnogi sector **a)** roi sicrwydd a hyder i weithredwyr prosiect sydd am:

- gynnig datblygiad neu weithgaredd newydd;
- estyn hyd neu gwmpas daearyddol gweithgaredd bresennol; a/neu
- gwneud penderfyniadau cytbwys am uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal y cynllun morol gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu, datrisgio penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r broses ymgeisio.

221. O dan y polisïau hyn, cefnogir cynigion lle gwelir eu bod yn cyfrannu at amcanion CMCC, yn cydymffurfio â pholisïau cyffredinol CMCC a pholisïau diogelu sectorau ac yn gyson ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

222. Wrth ystyried rhinweddau chynnig, dylai'r ACP gydbwyso'r manteision a'r effeithiau niweidiol posibl, gan ystyried yr holl ystyriaethau polisi cyffredinol a ddisgrifir yn adran 2 y Canllaw ar Gyflawni gan gynnwys:

- defnyddwyr eraill y môr (**Polisïau SAF_01** a **02**, a **DEF_01**);
- ystyriaethau amgylcheddol (**Polisïau ENV_01 - 07**);
- economi Cymru (**Polisïau ECON_01** a **02**); a
- ystyriaethau cymdeithasol (**Polisïau SOC_01 - 11**)

223. Mae polisi cefnogi sector **b)** yn cynnwys *annog* cynllunio a chydweithio strategol mewn cysylltiad â sectorau penodol. [14] Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gellid

[14] Dyma'r sectorau hynny: Agregau, Dyframaeth, Porthladdoedd a Morgludo, Pysgodfeydd, Twristiaeth a Hamdden ac Ynni - Carbon Isel (gwynt, tonnau, llif y llanw ac ystod y llanw).

cefnogi a galluogi sectorau i ddatblygu trwy feithrin capasiti, arloesedd a chydweithio rhwng rhanddeiliaid law yn llaw â chanolbwyntio ar ddatblygu y sylfaen dystiolaeth. Mae'r polisi felly yn *annog* sectorau ac ACPau i weithio ar y cyd i lenwi bylchau pwysig yn y dystiolaeth ac i ddeall yn well y cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sector yn gynaliadwy, gan gynnwys nodi a chaboli Ardaloedd Adnoddau Strategol (AAS). [15]

### 3.1.1 AGG_01: Agregau

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

224. Mae'r polisi ar y sector agregau yn ymwneud ag ardaloedd y glannau a'r môr mawr o fewn ardal y cynllun morol; ond ar hyn o bryd, nid oes agregau'n cael eu carthu yn ardal y môr mawr.

225. Ymhlith yr ACPau ar gyfer y sector hwn y mae:

- Llywodraeth Cymru;
- CNC; ac
- Ystad y Goron.

226. Mae CMCC yn defnyddio'r termau canlynol, sy'n cael eu diffinio fel a ganlyn: [16]

- 'adnodd': amcangyfrif o swm yr agregau sy'n bodoli mewn ardal ar sail gwybodaeth ddaearyddol benodol (gweler Mapiau Ardaloedd Adnoddau CMCC);
- 'cronfa': swm yr agregau trwyddedig y ceir ei garthu o fewn amodau'r drwydded; a
- 'tunelledd sy'n cael ei gario drosodd': y dyraniad trwyddedig sydd heb ei garthu mewn tunelli na chafodd ei godi mewn cyfnod trwyddedig o 12 mis y ceir ei godi yn y cyfnod 12 mis dilynol, gyda chymeradwyaeth y rheoleiddiwr a pherchennog y mwynau. Dylai unrhyw gais ddangos, asesu a chyfiawnhau'r gofyn i gario rhywfaint o dunelledd drosodd.

227. Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)) 2017. Hefyd, er bod CMCC wedi tynnu'r Polisi Carthu Agregau Morol (Cymru) (2004) interim yn ôl, gallai'r dystiolaeth ynddo gael ei defnyddio i helpu i roi polisi ar waith. [17]

228. Mae posibilrwydd y gallai gwaith codi agregau ddadorchuddio deunydd o ddiddordeb hanesyddol neu i ddod ag ef i'r wyneb. Yn unol â hynny, mae'r sector wedi datblygu codau ymarfer ac arferion adrodd ar y cyd â chymdeithasau archeolegol gan gynnwys RCAHMW [18][19]a allai fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr wrth iddynt ddatblygu'u cynigion.

229. Ni ddylai unrhyw agregau gael eu codi heb drwydded forol ac mae'r rhan fwyaf a godir yn dibynnu ar gael hawliau oddi wrth Ystad y Goron. Mae Ystad y Goron yn

---

[15] Lle bo hynny'n briodol ar gyfer y sector dan sylw ac fel a ddisgrifir ym mharagraffau 46-57 CMCC.

[16] http://www.bmapa.org/documents/BMAPA_Glossary.pdf

[17] https://llyw.cymru/polisi-interim-ar-garthu-agregau-morol

[18] https://www.wessexarch.co.uk/our-work/marine-aggregate-industry-protocol-reporting-finds-archaeological-interest

[19] http://www.bmapa.org/issues/archaeology.php

rhoi cytundebau chwilio ac opsiynau i gwmnïau allu ymchwilio i adnodd agregau masnachol a'i brofi, a chytundeb cynhyrchu unwaith y caiff trwydded forol ei rhoi.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

230. Dylai'r sector gael ei dywys, lle bo gofyn, oddi wrth fannau sensitif ac ymhellach i'r môr mawr ond gan gadw'r cyfyngiadau ymarferol a'r effeithiau amgylcheddol posibl mewn cof.

231. Gallai gweithgareddau codi agregau, gan ddibynnu ar eu math a'u lleoliad, gael amrywiaeth o effeithiau y bydd gofyn eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o effeithiau ar ecosystemau morol (**Polisi ENV_01**) i newidiadau yn ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**) a'r risg o amharu ar asedau hanesyddol (**Polisi SOC_05**). Byddai mannau sensitif felly yn cynnwys mannau a allai fod yn arbennig o agored i'r effeithiau a nodir, gan roi ystyriaeth arbennig i safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddiben cadwraeth forol (**Polisi ENV_02**).

232. Wrth ystyried cynigion yn nes at y glannau o'u cymharu ag agregau sydd fwy yn y môr mawr, dylid pwysoli'r canlynol:

- unrhyw fanteision, er enghraifft, llai o symudiadau trafnidiaeth a'r gostyngiad mewn allyriadau o ganlyniad;
- ystyriaethau ymarferol fel amser cludiant i'r safle, cyfyngiadau posibl oherwydd y tywydd a'r llanw; a
- arwyddocâd y gweithgareddau ar nodweddion perthnasol yr ardal gan gynnwys eu heffaith ar yr arfordir a thraethau, treftadaeth ddiwylliannol, morweddau a'u rhinweddau amgylcheddol.

233. O dan **Bolisi AGG_01a**, dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r terfyn tunelledd.

234. Bydd arolygon cynhwysfawr i bennu'r llinell sylfaen a'r sefyllfa cyn carthu pysgodfeydd, ecoleg fenthig, archeoleg a nodweddion eraill gwely'r môr yn rhan bwysig o'r EIA a'r broses ganiatáu ar gyfer codi agregau. Gallai asesiadau fel astudiaethau o'r effeithiau ar yr arfordir fod yn amod hefyd o'r cais lle bo hynny'n gymwys. Pan fydd asesiad yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai cynigion amlinellu'r mesurau a gynigir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn CMCC. Gallai mesurau lliniaru a/neu fonitro fod yn amod unrhyw gymeradwyaeth.

235. Gallai ystyriaethau penodol ar gyfer cynigion ar gyfer codi agregau gynnwys:

- a fyddant yn gallu dangos yn glir bod angen am yr adnoddau trwyddedig ychwanegol, o ystyried galw'r farchnad a/neu ofynion datblygu lleol;
- ai arwynebedd y cais yw'r lleiaf sydd ei angen i allu codi'r tunelledd a gynigir er mwyn cadw arwynebedd gwely'r môr yr effeithir arno mor fach ag sy'n ymarferol;
- a ydynt yn cefnogi datblygu diwydiannau lleol sy'n dibynnu ar agregau i ddod â swyddi a chefnogi economïau lleol, a llesiant cymunedau arfordirol (gweler **Polisïau ECON_01** ac **SOC_02**); a
- asesu manteision a/neu gostau defnyddio agregau morol dros adnoddau o'r tir.

236. Dylai ACPau dderbyn bod angen clir i godi rhagor o agregau morol yn nyfroedd Cymru, er mwyn sicrhau bod cronfeydd trwyddedig yn cael eu cynnal at ddibenion adeiladu cyffredin am o leiaf 10 i 15 mlynedd. Felly, pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i gyfraniad y cynnig at y canlynol:

- yr economi;
- cwrdd â thargedau adeiladu yng Nghymru a bennwyd mewn cynlluniau defnyddir tir gan gynnwys yr FfDC; a
- unrhyw brosiect seilwaith o arwyddocâd strategol sydd â chefnogaeth polisi'r Llywodraeth.

237. Dylai ACPau sicrhau y cedwir at derfynau tunelledd a bennir gan CMCC neu Ddatganiadau'r Cabinet ac y bydd modd eu gorfodi. Dylid ystyried terfynau tunelledd ar sail y dunelledd a ganiateir, oni bai y ceir mecanweithiau eraill i sicrhau na eir dros y terfynau. Wrth benderfynu ar gynigion agregau, dylai ACPau ystyried:

- unrhyw derfynau ar dunelledd sy'n gysylltiedig â chynllunio morol, gan sicrhau cyn belled ag y medrir, na eir drostynt; a
- faint gaiff ei gario ymlaen o'r flwyddyn galendr flaenorol.

238. Gallai adnoddau agregau mwy yn y môr mawr gefnogi trwyddedau mwy. Gan ddibynnu ar sensitifrwydd y lleoliad a'r amgylchedd, gallai trwyddedau morol yn yr ardaloedd hyn fod yn addas ar gyfer trwyddedau tymor hir hirrach a/neu ni fydd angen gwaith monitro ac adrodd mor llym. Dylai ymgeiswyr ac ACPau ystyried cyfleoedd o'r fath lle bo gofyn.

### 3.1.2 AQU_01: Dyframaeth

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

239. Mae polisi'r sector dyframaethu yn effeithio ar ranbarthau glannau a môr mawr ardal y cynllun morol.

240. Ymhlith yr ACPau ar gyfer y sector hwn y mae:

- Gweinidogion Cymru;
- Ystad y Goron;
- CNC;
- Awdurdodau Harbyrau; ac
- Awdurdodau Cynllunio Lleol.

241. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Clefydau Pysgod (Rheoli) 1994, Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009, Rheoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol mewn Dyframaeth (Cymru a Lloegr) 2011 a Rheoliadau Gwaith Morol (EIA) 2017.

242. Mae'r mathau o gydsyniadau sydd eu hangen ar ddatblygiadau dyframaethu yn amrywiol ac yn dibynnu ar y math o fenter a'i lleoliad. Efallai y bydd angen gorchymyn pysgodfa unigol neu trwydded forolgan Lywodraeth Cymru, neu

gydsyniad y perchennog (Ystad y Goron fel arfer) a/neu awdurdod harbwr a chydsyniadau cynllunio tir ychwanegol os bydd rhannau o'r datblygiad ar dir. Efallai y bydd angen cydsyniadau eraill (e.e. awdurdodiad Busnes Cynhyrchu Dyframaethol neu gymeradwyaeth i ddefnyddio rhywogaethau penodol o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron a rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol (Cymru a Lloegr) 2011) i weithredu neu arllwys.

243. Caiff asesiad amgylcheddol ei gynnal o geisiadau am orchymyn pysgodfa unigol os bydd y cais mewn ardal sydd wedi'i dynodi at ddiben cadwraeth forol, neu gerllaw iddi. Fel amod o roi gorchymyn pysgodfa unigol, gallai Llywodraeth Cymru osod amodau sy'n adlewyrchu canlyniad yr asesiad amgylcheddol i sicrhau na chaiff effaith niweidiol ar integredd unrhyw safle Ewropeaidd neu arwain at oblygiadau amgylcheddol annerbyniol eraill fel rhyddhau a/neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

244. Dylai'r sector gael ei dywys, lle bo gofyn, oddi wrth fannau sensitif ac ymhellach i'r môr mawr ond gan gadw'r cyfyngiadau ymarferol a'r effeithiau amgylcheddol posibl mewn cof.

245. Gallai gweithgareddau dyframaethu, gan ddibynnu ar eu math a'u lleoliad, gael amrywiaeth o effeithiau y bydd gofyn eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Gallant amrywio o effeithiau gweledol (**Polisi SOC_07**) i newidiadau yn ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**) a'r perygl o ryddhau rhywogaethau estron goresgynnol (**Polisi ENV_03**). Byddai mannau sensitif felly yn cynnwys mannau a allai fod yn arbennig o agored i'r effeithiau a nodir, gydag ystyriaeth arbennig i safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddiben cadwraeth forol (**Polisi ENV_02**).

246. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad amgylcheddol i benderfynu ar orchymyn pysgodfa unigol neu drwydded forol a bydd angen ei gynnal os yw'r cynnig mewn lleoliad a allai fod yn sensitif a/neu mewn safle dynodedig neu gerllaw iddo. Pan fydd asesiad yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai cynigion amlinellu'r mesurau a gynigir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn CMCC. Gallai mesurau lliniaru a/neu fonitro fod yn amod unrhyw gymeradwyaeth.

247. Gallai ystyriaethau penodol ar gyfer cynigion dyframaethu gynnwys:

- manteisio ar gyfleoedd i gydfodoli neu gydleoli â strwythurau sefydlog presennol neu arfaethedig fel datblygiadau ynni adnewyddadwy, gan wneud drwy hynny y gorau o le yn y môr (gweler **Polisi ECON_02**);
- trefnu â gweithgareddau presennol neu arfaethedig i rannu cychod a chyfleusterau eraill (gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau costau rhedeg a chynyddu hyfywedd economaidd y weithgaredd) (gweler **Polisïau ECON_01** ac **02**, **SOC_10**);
- a yw'r dyfroedd o ansawdd da (e.e. Dosbarth B) eisoes (o dan gategori gwelyau pysgod cregyn yr Asiantaeth Safonau Bwyd) ac na fyddai angen buddsoddiad sylweddol i drin dur gwastraff (gweler **Polisi ENV_06**);

- os ydy'r cynnig yn cydweddu'n dda â chymeriad lleol yr ardal neu'n ei gyfoethogi, gan gynnwys treftadaeth, tirweddau a morweddau (gweler **Polisïau SOC_05, 06** a **07**); a
- cefnogi datblygu diwydiannau bwyd môr lleol i ddod â swyddi, hybu twristiaeth a chefnogi economïau lleol, a llesiant cymunedau arfordirol (gweler **Polisïau ECON_01** ac **SOC_02**).

248. Dylai ACPau fod yn ymwybodol o botensial y sector, fel a nodwyd yn CMCC, i dyfu'n gynaliadwy (yn enwedig ffermio pysgod cregyn) yn ogystal ag o uchelgais Llywodraeth Cymru i weld y sector yn datblygu. Felly, pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i gyfraniad y cynnig at y canlynol:

- lles y cymunedau lleol;
- yr economi;
- y gallu i wireddu amcan y sector i ddatblygu dyframaethu mewn ffordd gynaliadwy yn nyfroedd Cymru;

249. Dylai ACPau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, CMC a'r sector, gydweithio yn ôl y gofyn i sicrhau bod cefnogaeth i weithgarwch yn y dyfodol er mwyn helpu i wireddu amcan y polisi o ddatblygu'r sector mewn ffordd gynaliadwy. Anogir y diwydiant i ddatblygu cynlluniau ymarferol a realistig i ehangu gweithgarwch mewn ffordd gynaliadwy.

250. Dylai ACPau geisio cefnogi argoelion dyframaethu cynaliadwy trwy annog, cefnogi ac ymddiddori mewn cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau dyframaethu cynaliadwy yn y dyfodol a allai gynnwys:

- cynlluniau cymorth grant er enghraifft cefnogaeth i ddatblygu technegau meithrin;
- mentrau sy'n gwella cyfleoedd i gydfodoli neu ddeall gweithgareddau dyframaethu;
- mentrau sy'n cefnogi cydweithredu e.e. â'r sector Pysgodfeydd i gasglu grawn cerrig gleision a chyfleoedd i ffermio'r cefnforoedd;
- mentrau sy'n cefnogi arallgyfeirio addas mewn dyframaethu, adnabod marchnadoedd, cynnyrch a chyfleoedd prosesu newydd yng Nghymru;
- mentrau sy'n cefnogi dyframaethu cynaliadwy fel achrediad y Cyngor Stiwardiaeth Forol; a
- mentrau sy'n helpu i nodi safleoedd dyframaethu addas, enwi perchenogion tir a symleiddio'r broses ymgeisio;

251. Ceir amrywiaeth o wybodaeth ddangosol ar Borthol Cynllunio Morol Cymru a chan ddiwydiant a rheoleiddwyr i'ch helpu i adnabod ardaloedd pwysig a safleoedd dyframaethu. Ceir gwybodaeth am Ddyfroedd Pysgod Cregyn wedi'u dynodi (o dan WER) oddi wrth CNC.

252. Nid yw'r priodoleddau sy'n briodol ar gyfer cynnal cyfleusterau magu pysgod asgellog ac algâu yn y môr mawr yn llai pendant na'r rhai ar gyfer dyframaethu pysgod cregyn. Gallai prosiectau dyframaethu bach gael eu cynnal yn eang yn nyfroedd y glannau yng Nghymru a gallai felly fod yn anodd eu mapio'n hyderus o

fanwl. Gallai fod potensial i ddyframaethu gwymon sy'n werth ei ystyried a datblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn gallu datblygu'r is-sector hwn.

253. O dan **Bolisi AQU_01b** ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu dyframaethu yn y dyfodol, gallai fod yn briodol ystyried rhywogaethau neu dechnolegau all ddod â buddiannau ehangach fel cynhyrchu pysgod asgellog ac algâu yn nyfnderoedd y môr a allai arwain at gynhyrchu ar raddfa fawr yn y môr yn y tymor hwy.

### 3.1.3 D&D_01: Carthu a Gwaredu

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

254. Mae'r polisi ar y sector Carthu a Gwaredu yn ymwneud ag ardaloedd y glannau a'r môr mawr o fewn ardal y cynllun morol; ond ar hyn o bryd, nid oes gweithgareddau carthu na gwaredu yn ardal y môr mawr.

255. Mae'r polisi hwn yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau carthu cyfalaf neu fordwyo (gwaith cynnal a chadw) a chael gwared ar y deunydd yn y môr. Nid yw'r polisi hwn yn ymwneud â charthu am agregau sy'n cael ei ystyried o dan bolisïau'r sector Agregau (gweler **Polisi AGG_01)**.

256. Ymhlith yr ACPau ar gyfer y sector hwn y mae:

- Ystad y Goron;
- CNC; ac
- Awdurdodau Harbyrau.

257. Mae CMCC yn defnyddio'r termau canlynol, sy'n cael eu diffinio fel a ganlyn:

- 'mynediad hirdymor': safleoedd gwaredu y ceir hanes o ddefnydd arnynt am fwy na 10 mlynedd.
- 'safleoedd gwaredu a gaewyd': safle y mae'r ACP wedi nodi sydd ar gau ac nad oes defnydd wedi bod arno am y 10 mlynedd diwethaf. [20]

258. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Confensiwn Diogelu Amgylcheddol Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd (Confensiwn OSPAR) 1992, Confensiwn Atal Llygredd Morol trwy Ddympio Gwastraff a Deunyddiau Eraill (Confensiwn Llundain) 1972, Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ac WER 2017.

259. Mae posibilrwydd y gallai gwaith carthu ddadorchuddio deunydd o ddiddordeb hanesyddol neu ddod ag ef i'r wyneb. Yn unol â hynny, mae'r sector wedi datblygu codau arfer archeolegol (gweler yr adran ar agregau) a allai fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr wrth iddynt ddatblygu'u cynnig.

260. Mae gwaredu'n cyfeirio at bob math o weithgarwch gwaredu, nid gwaredu gwaddod gafodd eu carthu yn unig. Er mwyn gwaredu, efallai y bydd angen trwydded forol ac yn amodol ar hynny, hawliau gan Ystad y Goron (hyd at 12 milltir fôr) pan gyhoeddwyd y drwydded forol. Er mwyn carthu, fe fydd angen trwydded forol arnoch fel arfer, er y caniateir eithriadau yn ardaloedd Awdurdodau Harbwr Statudol.

[20] Ystyrir nad yw safle gwaredu yn cael ei ddefnyddio pan na fydd wedi cael ei ddefnyddio am 5 mlynedd ac y byddai'n gorfod cael ei archwilio cyn cael caniatâd ar gyfer ei ddefnyddio eto.

**Cyngor i ymgeiswyr a phenderfynwyr**

261. Wrth baratoi cynigion ar gyfer carthu a gwaredu, dylai datblygwyr ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff [21]er mwyn cadw'r gwastraff y bydd gofyn ei waredu mor fach â phosibl. O dan yr hierarchaeth hon, dylid ystyried a oes modd defnyddio'r deunydd a garthwyd a/neu ei gadw yn yr un gell waddod y daeth ohoni cyn ei waredu oddi ar y safle.

262. Wrth waredu deunydd yn y môr, rhaid cydymffurfio â chonfensiynau OSPAR a Llundain, gan gynnwys yr angen i waredu ar safle gwaredu dynodedig a samplo'r gwaddod mewn ffordd briodol.

263. Wrth nodi safleoedd gwaredu newydd, bydd angen mynd trwy'r broses o nodi'u cymeriad sy'n golygu ystyried priodoleddau amgylcheddol a'u hyfywedd economaidd ac ymarferol. Dylai cynigion ar gyfer safleoedd gwaredu newydd gynnwys asesiad o'u heffaith bosibl ar yr amgylchedd a dylent sicrhau na fydd gollwng y deunydd yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gadernid ecosystemau (gweler **Polisi ENV_01**). Dylid cynigion ar gyfer safleoedd gwaredu newydd ystyried hefyd eu heffaith bosibl ar weithgareddau sectorau eraill a dylent sicrhau na fydd y safle gwaredu arfaethedig yn amharu'n sylweddol ar ddefnyddwyr a defnyddiau dilys eraill o'r amgylchedd morol na chwaith yn gostwng eu gwerth (yn unol â pholisïau diogelu perthnasol CMCC).

264. Os mai'r cynnig yw defnyddio safleoedd gwaredu sydd wedi cau, bydd gofyn cyflwyno cais newydd a dylai gynnwys asesiadau perthnasol a'r un ystyriaethau a ddisgrifir uchod o ran nodi safleoedd gwaredu newydd.

265. Gallai gweithgareddau carthu a gwaredu, gan ddibynnu ar eu math a'u lleoliad, gael amrywiaeth o effeithiau y bydd gofyn eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o effeithiau ar ecosystemau morol (**Polisi ENV_01**) i newidiadau yn ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**), y risg o amharu ar asedau hanesyddol (**Polisi SOC_05**) neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol (**Polisi ENV_03**). Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynigir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn CMCC. Gallai mesurau lliniaru a/neu fonitro fod yn amod unrhyw gymeradwyaeth.

266. Dylai ACPau fod yn ymwybodol o bwysigrwydd hanfodol carthu llwybrau mordwyo er mwyn i'r sector Porthladdoedd a Morgludo allu gweithio'n effeithiol yn ogystal â'i rôl gysylltiedig o ran cefnogi a galluogi sectorau eraill fel pysgota, twristiaeth a hamdden ac ynni'r môr. Felly, pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i'r canlynol:

- cyfraniad y cynnig at gyflawni amcan y sector i gynnal mynediad mordwyo diogel ac effeithiol a chefnogi twf pellach i gyfleusterau porthladdoedd; a

---

[21] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69403/pb13530-waste-hierarchy-guidance.pdf

- yr effaith economaidd a/neu ganlyniadau posibl ar weithgareddau neu ddatblygiadau mewn sectorau eraill pa na rhoddid caniatâd.

267. Bydd gofyn i ACPau roi ystyriaeth ofalus i unrhyw gynnig ar gyfer gwaredu deunydd na chafodd ei garthu yn y môr. Ni ddylid gweithgareddau gwaredu newydd oni gall y cynnig ddangos yn foddhaol:

- nad oes dewis arall ar gael ar gyfer defnyddio'r deunydd gwastraff; a
- bod safle gwaredu addas yn y môr wedi'i nodi, a bod yr holl asesiadau perthnasol wedi'u cynnal i nodi'r safle gan gynnwys astudiaeth o gymeriad y safle.

268. Dylai ACPau ystyried rhoi awdurdodiadau tymor hir ar gyfer cynnal gweithgareddau carthu cynnal a chadw, sicrhau mynediad hirdymor, lle gall yr ymgeisydd darparu sylfaen dystiolaeth foddhaol sy'n dangos yn ddigon da bod y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt yn gynaliadwy.

### 3.1.4 ELC_01 i 04: Ynni – Carbon Isel

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

269. Mae polisi'r sector Ynni – Carbon Isel yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun.

270. Gall ACPau ar gyfer y sector hwn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)

- Llywodraeth Cymru;
- Ystâd y Goron;
- CNC; a
- Llywodraeth y DU.

271. Yng nghyd-destun yr CMCC, mae "ynni adnewyddadwy'r môr" yn cynnwys ynni sy'n cael ei gynhyrchu gan y tonnau, ffrwd llanw, amrediad llanw, gwynt alltraeth a mathau eraill o ynni carbon isel.

272. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Trydan 1989, Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, Deddf Cynllunio 2008, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Cymru) 2019.

273. Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan hinsawdd argyfwng, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau (o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys Cymru yn cynhyrchu 70% o'r ynni y mae'n ei ddefnyddio o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030[22].

---

[22] Datganiad Llafar ar "ynni" a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 26 Medi 2017 (http://www.assembly.wales/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4644&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C494225)

274. Gellid sicrhau capasiti newydd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy'r môr drwy ddefnyddio technolegau arddangos a thechnolegau ar raddfa fasnachol, yn dibynnu ar ystyriaethau penodol unrhyw is-sectorau.

**Ystyriaethau is-sectorau**

Mae’r CMCC yn nodi bod ynni **gwynt alltraeth** yn dechnoleg brofedig a strategol bwysig, sy’n cynnig llawer o botensial ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr (gan gynnwys y posibilrwydd o strwythurau arnofiol), ac mae datblygiadau newydd yn cael eu cefnogi drwy **Bolisi ELC_01.**

Mae technolegau **tonnau a llanw** yn cynnig potensial yn y tymor canolig i’r hirdymor i helpu i gyrraedd targedau ar gyfer ynni carbon isel, gyda'r sectorau hyn yn canolbwyntio ar dechnolegau arddangos ar raddfa lai ar hyn o bryd. Mae **Polisïau ELC_02** a **03** yn cefnogi defnyddio dyfeisiau tonnau a ffrwd llanw gan gynnwys parthau profi ac arddangos.

Mae’r CMCC yn cydnabod bod yr adnodd **amrediad llanw** yn cynnig cryn botensial ar gyfer creu ynni, yn ddarostyngedig i feithrin dealltwriaeth o'r cyfle i ddatblygu technoleg **morlyn llanw** mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys rheoli effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. Mae **Polisi ELC_04** yn canolbwyntio ar *annog* ffordd fesul cam o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cynllunio yn y sector morlyn llanw. Bydd yn bwysig i unrhyw brosiect(au) arddangos gasglu cymaint o dystiolaeth ag y bo modd i ddangos sut y gall y wybodaeth a geir o'r prosiect lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

275. Mae angen trwydded forol ar bob datblygiad ynni carbon isel, ac mae hyn yn amodol ar hawliau gwely'r môr yn cael eu rhoi gan Ystad y Goron os yw’r datblygiad mewn ardal y mae Ystad y Goron yn berchen arni. Yn ogystal mae angen GCD ar PSACau (prosiectau >350MW) o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Hefyd mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i brosiectau sydd o dan drothwy GCD gael caniatâd o dan Reoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Cymru) 2019 a/neu Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau ynni carbon isel, mae Ystad y Goron yn rhoi cytundeb cyn prydles i ganiatáu ymchwiliad i safle sy’n gysylltiedig â chynnig. Os yw’r cytundeb cyn prydles yn llwyddiannus, gellir ei droi yn brydles, yn ddarostyngedig i ddeiliad y brydles yn cael yr holl ganiatadau sydd eu hangen. Ar gyfer datblygiadau ynni tonnau ac ynni llanw sydd yn y camau cynnar o brosiect, yn lle hyn i ddechrau mae'n bosibl y bydd Ystad y Goron yn rhoi hawliau i gynnal arolygon drwy Drwydded Arolygu Gwely'r Môr.

276. Mae DPC cyffredinol Llywodraeth y DU ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1-6) ac Ynni Adnewyddadwy (EN-3) y rhoi'r brif sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch PSACau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (rhaid i benderfyniadau o'r fath ystyried hefyd yr MPS a’r CMCC yng Nghymru). Mae EN-3 yn ymdrin ag ynni gwynt alltraeth yn benodol (nid technolegau tonnau, ffrwd llanw neu amrediad llanw). Bydd angen GCD ar PSACau dros 350MW, yn ogystal â thrwydded forol ar gyfer ardal glannau’r cynllun. Bydd proses yr GCD yn cynnwys ystyried rhoi trwydded forol ar gyfer ardal

môr mawr y cynllun. Wrth wneud penderfyniadau o dan Ddeddf Cynllunio (2008) mewn perthynas â PSAC, rhaid i'r penderfynydd ystyried yr CMCC, gan gynnwys yr egwyddorion a'r amcanion sy'n cael eu hamlinellu yn y Cyflwyniad. Wrth benderfynu ynghylch unrhyw gynigion ar gyfer PSACau, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i waddol y prosiect ar gyfer cymunedau arfordirol fod yn ystyriaeth bwysig

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

277. Wrth ddarparu cynigion sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy'r môr, dylai ymgeiswyr ystyried Hierarchaeth Ynni PCC ar gyfer Cynllunio, sydd â'r nod o leihau effaith carbon sy'n deillio o gynhyrchu ynni.

278. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynnig potensial sylweddol ar gyfer cynnwys cymunedau lleol a sicrhau manteision i gymunedau. Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau penodol ar gyfer perchnogaeth leol ar brosiectau ynni[23], ac mae'n cefnogi datblygwyr masnachol i weithio gyda sefydliadau yn y gymuned i gyflawni prosiectau ar sail cydberchnogaeth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau manteision cadarnhaol ar gyfer y cymunedau y mae prosiectau wedi cael eu lleoli ynddynt, pan fydd hynny'n briodol (gweler **Polisi SOC_02**).

279. O ran yr effaith ar y morwedd **(Polisi SOC_07**), mae'r CMCC yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd datblygu seilwaith ynni adnewyddadwy'r môr yn arwain at newidiadau i nodweddion morwedd Cymru, a bod y newidiadau hyn yn ganlyniad anochel i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy'r môr. Byddai maint y newid i'r morwedd yn dibynnu ar amryw ffactorau, gan gynnwys maint y datblygiad a'i bellter o'r draethlin, ac mae'n bosibl y bydd o berthnasedd penodol i'r sector Twristiaeth a Hamdden. Mae'r dystiolaeth hyd yn hyn o unrhyw effeithiau niweidiol ar dwristiaeth a hamdden o ganlyniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy'r môr yn gyfyngedig, ac mae'n bosibl y byddant yn arwain at fanteision. Fodd bynnag mae'n bwysig ystyried effeithiau posibl o'r fath a dylai cynigion, yn enwedig y rhai sy'n agos at y draethlin, ddangos sut y maent wedi ystyried ac wedi rhoi sylw i'r gofyniad i osgoi, lleihau neu liniaru'r effaith y maent yn ei chael ar y morwedd.

280. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau ynni adnewyddadwy, yn dibynnu ar eu math a'u lleoliad, yn cael amrediad o effeithiau y bydd angen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o effeithiau ar ecosystemau morol (**Polisi ENV_01**), newidiadau i ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**) a chyflwyno sŵn tanddwr (**Polisi ENV_05**) i'r effeithiau ar alluoedd chwilio ac achub y DU a diogelwch mordwyaeth (Polisi Porthladdoedd a Morgludo **SAF 01b**) . Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynhwysir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn yr CMCC. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gymeradwyaeth yn amodol ar fesurau lliniaru priodol a/neu fonitro.

[23] Datganiad Llafar ar "ynni" a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 26 Medi 2017 (http://www.assembly.wales/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4644&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C494225)

281. Mae'n bosibl y bydd ystyriaethau ar gyfer cynigion ynni carbon isel sy'n benodol i'r sector gynnwys y canlynol:

- cefnogi datblygu diwydiannau lleol, i ddod â swyddi i'r ardal a chynnal economïau lleol a llesiant cymunedau arfordirol (gweler **Polisïau ECON_01** ac **SOC_02**);
- defnyddio cyfleoedd ar gyfer cydfodoli neu gydleoli â sectorau eraill fel dyframaethu, ac o ganlyniad manteisio i'r eithaf ar le morol (gweler **Polisi ECON_02**);
- cefnogi cyfranogiadau gan gymunedau lleol a sicrhau manteision ar gyfer cymunedau arfordirol lleol.

282. Mae cynigion morlynnoedd llanw yn cynnig potensial penodol ar gyfer cydfodoli â gweithgareddau neu ddatblygiadau mewn rhai sectorau eraill. Yn unol â **Pholisi ECON_02**, dylai cynigion amlinellu pa opsiynau ar gyfer cydfodoli y maent wedi eu hystyried a sut mae'r rhain wedi cael eu hasesu. Lle mae elfen o gydfodoli â sectorau neu weithgareddau addas eraill yn cael ei chynnwys, dylai cynigion ddangos i ba raddau y byddant yn cydfodoli a sut bydd hyn yn cael ei gyflawni.

283. Oherwydd maint y cynigion morlynnoedd llanw a ddisgwylir yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd effeithiau pellgyrhaeddol a/neu effeithiau cronnol yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau (gweler **Polisi GOV_01).** Dylai cynigion hefyd ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau trawsffiniol mewn ardaloedd cynllunio cyfagos, lle bo hynny'n berthnasol (gweler **Polisi GOV_02**), ac ystyried yr MPS a'r cynllun(iau) morol ar gyfer yr ardaloedd hyn lle bydd angen.

284. O dan **Bolisïau Cefnogi ELC**, dylai ACPau gymryd yn ganiataol bod yr angen strategol i ddatblygu ynni adnewyddadwy'r môr wedi cael ei dderbyn, a'i bod yn hanfodol cefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy'r môr newydd yng Nghymru lle bynnag y bo modd. O ganlyniad dylai ACPau roi cryn bwyslais ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan ystyried y cyfraniad y bydd cynnig yn ei wneud at y polisïau yn yr CMCC sy'n berthnasol i'r canlynol:

- cyrraedd targedau a gwireddu'r potensial mae Cymru a'r DU wedi eu nodi ar gyfer ynni adnewyddadwy;
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- cyrraedd targedau Cymru a'r DU sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd;
- cymunedau Lleol;
- yr economi a
- chyflawni amcan y sector i wneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o ddatgarboneiddio ein heconomi a'n ffyniant ni drwy gynyddu faint o ynni adnewyddadwy'r môr sy'n cael ei gynhyrchu.

285. Yn ôl **Polisi SCI_01** mae'n ofynnol ystyried y dystiolaeth sydd ei hangen mewn perthynas â thechnolegau newydd yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd y polisi hwn yn enwedig o bwysig mewn perthynas â phrosiectau arddangos llai ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy'r môr megis datblygiadau ffrwd llanw a'r tonnau lle mae angen rheoli ansicrwydd ynghylch effeithiau niweidiol yn ofalus. Dylai ACPau

sicrhau, gan weithredu mewn modd rhagofalus, fod unrhyw ofyniad i brosiectau ynni adnewyddu'r môr llai/risg isel gasglu tystiolaeth fod yn gymesur â'r risg mae'r ddyfais yn ei pheri, gan adlewyrchu'r tebygolrwydd y bydd tystiolaeth o'r fath yn galluogi dod i gasgliadau yn ddigon hyderus. Felly, ni ddylid gofyn am dystiolaeth yn ystod y cam cyn ymgeisio ond lle mae'n glir bod angen y dystiolaeth honno i wneud penderfyniad, a bydd yn cael dylanwad ystyrlon ar ganlyniad y penderfyniad. Dylid cynyddu gwerth arolygon cymaint ag y bo modd, gan ganolbwyntio ar ddeall y materion allweddol ar raddfa briodol. Lle bo hynny'n briodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar gasglu tystiolaeth drwy arolygon llinell sylfaen yn ystod y cam cyn ymgeisio, dylid canolbwyntio ar fonitro ôl-ganiatâd fel mecanwaith cymesur ac effeithiol ar gyfer rheoli risg ac ansicrwydd.

286. Mae'n debygol y bydd dull rheoli addasol (gweler **Polisi SCI_01**) yn opsiwn pwysig ar gyfer gweithredu rhai mathau o brosiectau ynni adnewyddu'r môr, gan gynnwys rheoli prosiectau yn ofalus â dulliau rheoli addasol, fel monitro integredig a chyflwyno prosiectau fesul cam.

287. Dylai ACPau gydlynu gweithgareddau cynllunio a chaniatâd ar draws ffiniau tir-môr lle bynnag y bo hynny'n gyfreithiol ymarferol, gan ei bod yn bwysig ystyried ceblau trydan er mwyn sicrhau digon o gapasiti a seilwaith i alluogi cysylltu â'r grid.

288. Mae pob **polisi cefnogi ELC b** yn *annog* datblygwyr ac ACPau i gydweithio i ddeall yn well ac i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys polisïau sy'n *annog* cydweithio rhwng sefydliadau perthnasol i ddatblygu ac i gymryd rhan mewn cyfleoedd i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth i ddeall yn well cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sector. Bydd gan Asesiad Amgylcheddol Strategol Llywodraeth y DU o Gynhyrchu Ynni ar y Môr, Cyd-fwrdd y Diwydiant Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, Ystad y Goron ac Ynni Môr Cymru rolau penodol i'w chwarae.

289. Mae pob **polisi cefnogi ELC b** hefyd yn *annog* ACPau a sectorau sydd â diddordeb i gasglu tystiolaeth a'i gwneud ar gael, pan fydd hynny'n briodol, i gynorthwyo yn y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r dull cydweithredol hwn ar gyfer rhannu gwybodaeth a'i defnyddio yn y ffordd orau posibl yn bwysig iawn wrth alluogi'r sector, a gall helpu i wneud penderfyniadau mewn modd cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth (yn unol â **Pholisi SCI_01**).

### 3.1.5 O&G_01 a 02: Ynni – Olew a Nwy

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

290. Mae polisi'r sector Ynni – Olew a Nwy yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun, er bod polisïau penodol yn berthnasol i ardaloedd penodol.

291. Mae'n bosibl y bydd ACPau ar gyfer y sector hwn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Llywodraeth Cymru; a
- Llywodraeth y DU.

292. Mae'r Canllaw Cyflawni hwn yn defnyddio'r termau a'r diffiniadau isod:

- Mae’r term "dyfroedd mewnol" fel y’i defnyddir yn CMCC, yn golygu ardaloedd rhynglanwol, aberoedd a chilfachau arfordirol sydd o fewn ardal drwyddedu petrolewm tua thir Cymru, a’i dyfroedd mewnol;
- Mae’r term "ardaloedd yn y môr/tua'r môr” yn golygu ardaloedd yn y môr mawr a'r glannau sy'n ddarostyngedig i Bolisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU ar gyfer Olew a Nwy (nid yw’n cynnwys Dal a Storio Carbon)[24].

293. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Petrolewm 1998, Rheoliadau Cynhyrchu Petrolewm a Phibellau Alltraeth (Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol) 1999 (fel y’u diwygiwyd), Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Gwarchod Cynefinoedd) 2001 (fel y’u diwygiwyd), Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Atal a Rheoli Llygredd Olew) 2005, Deddf Ynni 2008, Deddf Ynni 2016, Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Chwilio a Chynhyrchu) (Ardaloedd tua’r Tir) 2014, Deddf Seilwaith 2015 a Deddf Cymru 2017. Ceir rhestr fanwl o’r rheoliadau a’r canllawiau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â chwilio a chynhyrchu olew a nwy yn y môr/tua’r môr ar wefan OPRED[25]

294. Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn berthnasol i ddyfroedd ar y tir a dyfroedd y glannau, ac mae polisïau Llywodraeth y DU yn berthnasol i ardaloedd tua'r môr y tu hwnt i'r ffiniau hyn.

295. Mae'n bosibl y bydd polisïau Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i ddiwygiadau drwy Ddatganiad gan Weinidogion, a byddant yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw benderfyniadau a wneir o dan yr CMCC.

296. Mae **Polisi O&G_01a** yn cymhwyso polisïau Llywodraeth y DU i ardaloedd tua'r môr, ac mae'n adlewyrchu polisïau'r DU mewn perthynas â rôl barhaus tanwyddau ffosil yn ystod y newid i ynni carbon isel, ac yn sicrhau bod cyflenwadau o adnoddau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy yn cael eu defnyddio mor effeithlon ag y bo modd.

297. Mae **Polisi O&G_01b** yn cymhwyso polisïau Llywodraeth Cymru i ddyfroedd mewnol. Mae'n cydnabod nad yw datblygu ac echdynnu olew a nwy ar y tir yn cyd-fynd â gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru carbon isel.

298. Mae **Polisi O&G_02** yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun, ond mae ganddo botensial penodol i gael ei gymhwyso i ranbarth y glannau.

299. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer dyfroedd ar y tir a dyfroedd y glannau. Mae'r AON yn rhoi trwyddedau ar gyfer archwilio tua'r môr, a thrwyddedau cynhyrchu ar gyfer ardaloedd tua'r môr sy'n rhoi hawliau unigol i archwilio a chynhyrchu. Mae'r AON yn cynnal rowndiau rheolaidd o drwyddedu ar gyfer y môr mawr, ond gellir rhoi trwyddedau y tu allan i rowndiau o drwyddedu. (OPRED) yw'r

[24] https://www.gov.uk/guidance/oil-and-gas-offshore-environmental-legislation

[25] Er na ddefnyddir y term hwn yn CMCC, fe’i defnyddir yn yr Arweiniad hwn i’ch helpu i ddeall polisi CMCC.

rheoleiddiwr amgylcheddol mewn perthynas â gweithgareddau olew a nwy mewn ardaloedd tua'r môr[26].

300. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gynnal i lywio rowndiau trwyddedu Llywodraeth y DU ac mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal i ategu ceisiadau sy'n benodol i weithgaredd.

301. Mae Deddf Ynni 2008 yn darparu ar gyfer cyfundrefn drwyddedu (drwy'r AON ar hyn o bryd) sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru lywodraethu mewn perthynas â charbon deuocsid yn cael ei ddal a'i storio yn y môr.[27]

302. Mae DPC cyffredinol Llywodraeth y DU ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1) a Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phibellau Nwy ac Olew (EN-4) yn rhoi'r brif sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch PSACau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (rhaid i benderfyniadau o'r fath ystyried hefyd yr MPS a'r CMCC yng Nghymru).

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

303. Bydd angen i geisiadau am drwydded i echdynnu olew neu nwy adlewyrchu'r polisi sy'n berthnasol i'r môr neu ddyfroedd mewnol, ac unrhyw bolisi sy'n cael ei ddatblygu ar ddal a storio carbon. Mae'n rhaid i gynigion sydd ag elfennau ar y tir gynnwys hefyd bolisïau ar gynllunio defnyddio tir.

304. Bydd gweithgareddau olew a nwy yn cael amrediad o effeithiau y bydd angen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o effeithiau ar ecosystemau morol (**Polisi ENV_01**), newidiadau i ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**), a chyflwyno sŵn tanddwr (**Polisi ENV_05**), i effeithiau ar forweddau (**Polisi SOC_07**) ac allyriadau nwyon tŷ gwydr (**Polisi SOC_10**). Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynhwysir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn yr CMCC, a gofynion rheoleiddiol sefydledig y sector. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gymeradwyaeth yn amodol ar fesurau lliniaru priodol a/neu fonitro.

305. Bydd rhaid i ACPau ystyried yn ofalus unrhyw gynigion ar gyfer gweithgareddau olew a nwy newydd o dan **Bolisi O&G_01b**. Ni ddylid cefnogi cynigion oni bai eu bod yn gallu dangos y canlynol yn ddigonol:

- bod angen y gweithgaredd newydd i sicrhau bod mwynglawdd segur yn cael ei reoli'n ddiogel;
- bod angen y gweithgaredd newydd i ategu ymchwil wyddonol;

A bod y cynnig yn gallu rhoi tystiolaeth gadarn a chredadwy sy'n dangos:

- sut mae'n cydymffurfio â Hierarchaeth Ynni PCC ar gyfer Cynllunio;
- ei fod yn cyd-fynd ag ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddatgarboneiddio, gan gynnwys y ffordd mae'n gwneud cyfraniad angenrheidiol at ddatgarboneiddio'r system ynni.

---

[26] Am ddeddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer yr ardaloedd tua'r môr, gweler OPRED https://www.gov.uk/guidance/oil-and-gas-offshore-environmental-legislation

[27] Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

306. Dylai ACPau gyfeirio ar yr MPS ac at unrhyw ganllawiau perthnasol neu Ddatganiadau gan y Cabinet y mae'n bosibl y byddant yn cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd, yn ogystal ag ystyried a yw'r gwahanol sectorau â diddordeb wedi dod i unrhyw gytundeb digolledu mewn egwyddor.

### 3.1.6 FIS_01: Pysgodfeydd

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

307. Mae polisi'r sector pysgodfeydd yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun morol, er bod y rhan fwyaf o bysgota yn cael ei chynnal o fewn chwe milltir forol o'r arfordir.

308. Mae gweithgareddau pysgota hamdden hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar stociau pysgod, ac maent yn cael eu hystyried o dan y polisïau cysylltiedig ar gyfer y sector twristiaeth a hamdden (gweler **Polisi T&R_01**).

309. Mae'n bosibl y bydd ACPau ar gyfer y sector hwn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gweinidogion Cymru;
- CNC; ac
- Awdurdodau Cynllunio Lleol.

310. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

311. Yn aml nad yw gweithgareddau pysgota yn cael eu hawdurdodi, ond maent yn cael eu rheoli neu eu cyfyngu drwy reoliadau ac amodau.

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

312. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau pysgota, yn dibynnu ar eu math a'u lleoliad, yn cael amrediad o effeithiau y bydd angen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau i ansawdd dŵr (**Polisi ENV_06**) a'r risg o aflonyddu ar asedau hanesyddol (**Polisi SOC_05**), i gyflwyno sŵn tanddwr (**Polisi ENV_05**) ac effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd pysgod (**Polisi ENV_07**). Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynigir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn yr CMCC. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gymeradwyaeth yn amodol ar fesurau lliniaru priodol a/neu fonitro.

313. O dan **Bolisi FIS_01a** mae'n bosibl y bydd cynigion sy'n ategu ac yn gwella gweithgareddau pysgota cynaliadwy y dylid eu cefnogi yn cynnwys:

- cynlluniau cymorth grant sy'n darparu cymorth ar gyfer addasu i gyfundrefnau rheoli'r amgylchedd a physgodfeydd;
- mentrau sy'n gwella'r ffordd mae gweithgareddau'n cydfodoli (**Polisi ECON_02**) ac sy'n lleihau'r risg o *ddadleoli*;

- annog pysgotwyr i fod yn geidwaid y pysgodfeydd y maent yn dibynnu arnynt, gan gynnwys sefydlu mentrau cydweithredol a chymdeithas(au) pysgotwyr;
- cefnogi arallgyfeirio priodol gan bysgodfeydd, i gynnwys rhywogaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio lawer (yn ddarostyngedig i Arfarniad o Gynaliadwyedd);
- mentrau sy'n cynyddu gwerth dalfeydd ac yn lleihau costau a gwastraff, gan annog prosesu yng Nghymru;
- mentrau i nodi marchnadoedd domestig yn y sectorau manwerthu a lletygarwch;
- mentrau i nodi marchnadoedd allforio gwerth uwch, cynaliadwy;
- cefnogi pysgota cynaliadwy megis achrediadau'r Cyngor Stiwardiaeth Forol;
- sefydlu pysgodfa gynaliadwy newydd sy'n targedu rhywogaethau newydd.

314. Dylai ACPau ystyried yn ffafriol gyfleoedd i gefnogi'r sector, gan drafod â chynrychiolwyr y sector, er mwyn cyfrannu at amcan Llywodraeth Cymru i gefnogi ac i ddiogelu sector pysgota sy'n gynaliadwy, yn amrywiol ac yn broffidiol.

315. Mae **Polisi FIS_01b** yn *annog* pob parti perthnasol i fuddsoddi (mewn amryw ffyrdd) mewn datblygu sail dystiolaeth ofodol benodol ynglŷn â dwysedd pysgota, fesul lleoliad, dull a thymor neu amser.

316. Nid yw lefel y pysgota yr un peth ym mhob ardal, ac mae rhai lleoliadau o bwys penodol i'r sector pysgodfeydd. Er bod pysgotwyr unigol yn gwybod am y lleoliadau, yr amseroedd, y tymhorau a'r amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bwysig bod datblygwyr a phenderfynwyr yn cael eu hysbysu am y rhain, er mwyn i anghenion y diwydiant pysgota gael eu hadlewyrchu yn ddigonol mewn cynlluniau morol. *Anogir* cyfleoedd i wella dealltwriaeth yn y maes hwn.

317. Mae’r defnydd cynyddol o dechnoleg (e.e. Systemau Monitro Cychod yn nyfroedd y Glannau) i gofnodi lleoliadau pysgota, dalfeydd a'r offer a ddefnyddir yn creu potensial penodol i ardaloedd sy'n bwysig i'r diwydiant gael eu cadarnhau'n annibynnol, ac i gyd-fynd â'r dechnoleg hon dylid gwella'r ffordd mae pysgota rhynglanwol a, lle bo hynny'n berthnasol, islanwol (â llaw) yn cael ei gofnodi.

### 3.1.7 P&S_01 a 02: Porthladdoedd a Morgludo

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

318. Nid yw polisi’r sector porthladdoedd yn berthnasol i ranbarth môr mawr y cynllun. Mae polisi’r sector morgludo’n berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun.

319. Mae'n bosibl y bydd ACPau ar gyfer y sector hwn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- CNC;
- Ystad y Goron;
- Awdurdodau Harbwrs;
- Awdurdodau Cynllunio Lleol;
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau; a

- Llywodraeth y DU.

320. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Porthladdoedd 1964, MARPOL, Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, Deddf Cychod a Llongau Peryglus 1985, a Deddf Llongau Masnach 1995.

321. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y sector yn amrywio yn dibynnu ar natur y datblygiad a'r amgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd trwydded forol yn ofynnol ar gyfer datblygiadau mewn porthladdoedd a/neu y bydd y datblygiadau hyn yn dod o dan bwerau'r Awdurdod Harbwr. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cytundeb Ystad y Goron, ac ar gyfer datblygiadau ar yr ochr ffin y llanw trai cymedrig tua'r tir mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio.

322. Mae'r rhan fwyaf o borthladdoedd, harbwrs a marinas yn meddu ar ddaliadau tir sylweddol a bydd PCC a'r FfDC (pan fydd wedi'i gyhoeddi) yn ategu'r polisïau yn yr CMCC, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio fynd ati mewn modd cadarnhaol i hyrwyddo'r defnydd o borthladdoedd drwy ddiogelu neu ddarparu mynediad atynt a chadw neu ddarparu cyfleusterau priodol.

323. O dan ddeddfwriaeth y DU a deddfwriaeth a chytundebau rhyngwladol mae gweithgareddau morgludo a mordwyo'n cael eu cynnal o fewn llwybrau dynodedig a/neu rhwng bwiau; fodd bynnag, gallai gweithgareddau morgludo gael eu cynnal y tu allan i lwybrau dynodedig.

324. Bydd y meini prawf ar anghenion cenedlaethol, manteision a'r effeithiau, fel y'u hamlinellir yn y DPC perthnasol, yn cael eu defnyddio wrth asesu ceisiadau ar gyfer PSACau mewn porthladdoedd. Ar gyfer datblygiadau mewn porthladdoedd, bydd hyn yn cynnwys y DPS ar gyfer Porthladdoedd, sy'n amlinellu'r polisïau cenedlaethol y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau mawr newydd mewn porthladdoedd yn cael eu hasesu a'u harchwilio yn eu herbyn. Wrth wneud penderfyniadau o dan Ddeddf Cynllunio (2008) mewn perthynas â PSAC, rhaid i'r penderfynydd ystyried yr CMCC, gan gynnwys yr egwyddorion a'r amcanion sy'n cael eu hamlinellu yn y Cyflwyniad.

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

325. Rhaid i ddatblygiadau mewn porthladdoedd ymateb i'r galw masnachol wrth iddo newid, gan gynnwys galw gan ddiwydiant ynni adnewyddu sy'n datblygu, ac o bosibl y farchnad fordeithio.

326. Mae'n bosibl y bydd ystyriaethau sy'n benodol i'r sector mewn perthynas â chynigion ar gyfer porthladdoedd â morgludo'n cynnwys:

- cefnogi'r gwaith o ddatblygu ffynonellau alltraeth o ynni adnewyddadwy;
- cynnig amrediad digon eang o gyfleusterau mewn amrywiaeth o leoliadau i gyd-fynd â'r lefel o fasnach, nifer y llongau sy'n dod i'r porthladd a phatrymau dosbarthu mewnol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac i hwyluso ac *annog* gweithgareddau morgludo ar yr arfordir;
- sicrhau cystadleuaeth effeithiol rhwng porthladdoedd a darparu cydnerthedd yn y seilwaith cenedlaethol;

- hyrwyddo twf drwy ddarparu rhwydweithiau a chysylltiadau ar gyfer teithwyr a nwyddau, yn ogystal â sicrhau sector cludiant effeithlon a chystadleuol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- creu system gludiant lanach a gwyrddach drwy wella perfformiad amgylcheddol porthladdoedd a'r datblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys cludiant, yn ogystal â chefnogi'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer technolegau gwyrdd;
- atgyfnerthu diogelwch cludiant;
- hwyluso teithiau llongau byr ar y môr fel rhan o newid dull o symud nwyddau ar y ffyrdd i symud nwyddau ar y dŵr, i leihau allyriadau carbon ac i ryddhau capasiti ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd; a
- cefnogi defnyddio porthladdoedd yng Nghymru ar gyfer llongau mordeithio, ac *annog* yr agweddau twristiaeth ar ei phorthladdoedd a marinas yn unol â 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025'.

327. Lle mae Awdurdod Harbwr Statudol wedi gweithio gyda rhanddeiliad i gynhyrchu Cynllun Meistr i Borthladdoedd neu Gynllun Datblygu ffurfiol arall, dylai'r ACP ystyried hyn yn fater perthnasol wrth nodi lefel y gefnogaeth ar gyfer y prosiect a'r angen am y prosiect ar lefel leol. Pan fydd yn gwneud cynnig neu pan ymgynghorir ag ef ynghylch cynigion, dylai'r Awdurdod Harbwr Statudol nodi unrhyw oblygiadau i'r ACP neu gynigiwr y prosiect ar Gynllun Meistr i Borthladdoedd neu Gynllun Datblygu ffurfiol arall.

328. Dylai ACPau gadw mewn golwg y potensial ar gyfer twf cynaliadwy yn y sectorau Porthladdoedd a Morgludo a nodir gan yr CMCC, yn ogystal â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y sector fel blaenoriaeth ar gyfer datblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol, ac fel blaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol. Felly, pan fyddant yn gwneud ei benderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i'r cyfraniad y bydd y cynnig yn ei wneud at y canlynol:

- llesiant cymunedau lleol;
- yr economi ar lefel ranbarthol a lefel leol;
- sicrhau rhagor o fasnach drwy borthladdoedd Cymru, gwella cryfder y rhwydwaith nwyddau ac annog twristiaeth mewn porthladdoedd a marinas (gan gynnwys ymweliadau gan longau mordeithio a phorthladdoedd glanio);
- cefnogi datblygu porthladdoedd yn gynaliadwy i ymdrin â'r twf a ragwelir yn y tymor hir mewn nifer y mewnforion ac allforion ar y môr;
- cyflawni amcan y sector i ddiogelu llwybrau morgludo sefydledig a chefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector Porthladdoedd a Morgludo.

329. Dylai ACPau gydlynu gweithgareddau cynllunio a chaniatâd ar draws ffiniau tir-môr lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, gan fod ystyried seilwaith ar y tir a mynediad yn hanfodol i weithgareddau'r sector.

### 3.1.8 CAB_01: Ceblau o dan y Môr

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

330. Mae polisi’r sector Ceblau o dan y Môr yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun morol, er i fod yn canolbwyntio ar yr ardal lle mae'r ceblau yn cyrraedd tir a'r seilwaith arfordirol cysylltiedig.

331. Mae'n bosibl y bydd ACPau ar gyfer y sector hwn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- CNC;
- Ystad y Goron; ac
- Awdurdodau Cynllunio Lleol.

332. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Llinellau Pibell 1962, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS) 1982, Deddf Telegyfathrebu 1984, Deddf Trydan 1989 a Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.

333. Mae'n bosibl y bydd angen trwydded forol ar gyfer ceblau tanfor, a bydd angen hawliau gwely'r môr gan Ystad y Goron (o fewn 12 milltir forol). Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer seilwaith ceblau ar y tir.

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

334. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau ceblau tanfor, yn dibynnu ar eu math a'u lleoliad, yn cael amrediad o effeithiau y bydd angen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae’r rhain yn amrywio o effeithiau ar ecosystemau morol **Polisi ENV_01**) i gyflwyno sŵn tanddwr (**Polisi ENV_05**) a'r risg o aflonyddu ar asedau hanesyddol (**Polisi SOC_05**). Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynhwysir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn yr CMCC. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gymeradwyaeth yn amodol ar fesurau lliniaru priodol a/neu fonitro.

335. Mae cynigion ar gyfer ceblau tanfor yn cynnig potensial penodol ar gyfer cydfodoli â gweithgareddau neu ddatblygiadau mewn rhai sectorau eraill. Mae dull cydweithredol wedi'i gynllunio yn hyrwyddo cydfodoli ac yn lleihau risg. Yn aml mae hyblygrwydd o ran llwybrau ceblau yn gallu atal rhyngweithio andwyol yn ddigonol, ac *anogir* ymgeiswyr i ymgysylltu a chydlynu â defnyddwyr priodol gwely'r môr. Yn unol â **Pholisi ECON_02** dylai cynigion amlinellu pa opsiynau ar gyfer cydfodoli y maent wedi eu hystyried a sut mae'r rhain wedi cael eu hasesu. Lle mae elfen o gydfodoli â sectorau neu weithgareddau addas eraill yn cael ei chynnwys, dylai cynigion ddangos i ba raddau y byddant yn cydfodoli a sut bydd hyn yn cael ei gyflawni.

336. Oherwydd natur drawsffiniol ceblau tanfor, mae'n debyg y bydd yn bwysig ystyried effeithiau trawsffiniol wrth wneud penderfyniadau (gwelir **Polisïau GOV_01** a **02**). Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau mewn ardaloedd cynllunio cyfagos, lle bo hynny'n berthnasol, ac ystyried yr MPS a'r cynllun(iau) morol ar gyfer yr ardaloedd hyn lle bydd angen.

337. Dylai ACPau dderbyn bod angen clir i ddatblygu ceblau tanfor yn nyfroedd Cymru ymhellach, a'i bod yn bwysig cefnogi seilwaith trydan a thelegyfathrebu. Felly, pan fyddant yn gwneud ei eu penderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i'r cyfraniad y bydd y cynnig yn ei wneud at y polisïau yn yr CMCC mewn perthynas â'r canlynol:

- y gymdeithas a chymunedau lleol;
- yr economi;
- bodloni targedu Cymru a thargedu'r DU ar gyfer ynni, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy;
- y twf sydd eu hangen mewn rhwydweithiau cyfathrebu digidol;
- cyflawni amcan y sector i gefnogi dosbarthu trydan yn y ffordd orau posibl a chyfathrebu byd-eang gwell.

338. Dylai ACPau gydlynu gweithgareddau cynllunio a chaniatâd ar draws ffiniau tir-môr lle bynnag y bo hynny'n gyfreithiol ymarferol, gan ei bod yn hanfodol ystyried opsiynau ehangach ar y tir er mwyn sicrhau digon o gapasiti a seilwaith i alluogi cysylltu â'r grid.

### 3.1.9 T&R_01: Twristiaeth a Hamdden

**Cyd-destun y polisi a chanllawiau cyffredinol**

339. Mae polisi'r sector Twristiaeth a Hamdden yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun, er bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ardal y glannau, yn aml o fewn tair milltir forol o'r morlin.

340. Mae'n bosibl y bydd ACPau ar gyfer y sector hwn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gweinidogion Cymru;
- CNC; ac
- Awdurdodau Cynllunio Lleol.

341. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth[28] sy'n amlinellu'r blaenoriaethau datblygu ar gyfer cyrchfannau twristiaeth ledled Cymru, ac mae'n bosibl y bydd y rhain yn ystyriaeth berthnasol wrth i ACPau wneud penderfyniadau.

342. Gan fod gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn aml yn cael eu cynnal o dan hawliau cyhoeddus ac i raddau helaeth yn cael eu rheoli (yn hytrach na'u hawdurdodi), nid oes angen llawer o ganiatadau. Ar gyfer seilwaith a'r gweithgareddau cysylltiedig ar yr arfordir mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio a/neu drwydded forol.

**Cyngor ar gyfer ymgeiswyr a phenderfynwyr**

343. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau twristiaeth a hamdden, yn dibynnu ar eu math a'u lleoliad, yn cael amrediad o effeithiau y bydd angen eu ystyried wrth wneud

[28] https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/gweithio-gyda-croeso-cymru

unrhyw benderfyniadau. Mae’r rhain yn amrywio o gyflwyno sŵn tanddwr (**Polisi ENV_05**) neu ysbwriel môr (**Polisi ENV_04**) i effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd pysgod (**Polisi ENV_07**). Pan fydd cynnig yn nodi effeithiau niweidiol posibl, dylai amlinellu'r mesurau a gynhwysir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hyn yn unol â'r polisi perthnasol yn yr CMCC. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gymeradwyaeth yn amodol ar fesurau lliniaru priodol a/neu fonitro.

344. O dan **Bolisi T&R_01a**, mae'n bosibl y bydd cynigion sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden o amgylch arfordir Cymru y dylid eu cefnogi yn cynnwys:

- hybu mynediad (llwybrau, llithrffyrdd, marinas, arwyddion, trafnidiaeth gyhoeddus, prisiau mynediad rhad ac am ddim neu gost isel (gweler hefyd **Polisi SOC_01**);
- darparu cyfleusterau (meysydd parcio, llithrffyrdd, angorfeydd, toiledau cyhoeddus, cyfleusterau ar gyfer pobl ag anableddau, iardiau cychod, siopau gêr môr, seilwaith clybiau) (gweler hefyd **Polisi SOC_01**);
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fodolaeth ardal neu atyniad – ynghyd â gwerth yr ardal neu’r atyniad, faint o berygl y mae ynddo a'r hyn sy'n cael ei wneud i'w (d)diogelu a'i (d)datblygu (arwyddion, swyddfeydd twristiaeth, gwybodaeth electronig a phapur);
- hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy weithgareddau twristiaeth (darparu arwyddion, gwybodaeth, adnoddau digidol ac addysgol yn Gymraeg) (gweler hefyd **Polisi SOC_04**);
- hybu stiwardiaeth (*annog* y cyhoedd i chwarae rôl ragweithiol yn y gwaith y ddiogelu a/neu gadw (adrodd am broblemau/pethau wedi torri, gwirfoddoli, clirio sbwriel, datblygu a chydymffurfio â chodau ymddygiad);
- ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli ac arallgyfeirio er mwyn cynyddu amrediad y gweithgareddau sydd ar gael mewn ardal benodol (gweler **Polisi ECON_02**);
- mentrau twristiaeth amgylcheddol gyfrifol neu fentrau ecodwristiaeth.

345. Dylai ACPau gadw mewn golwg y potensial ar gyfer twf yn y sector twristiaeth a hamdden a nodir yn yr CMCC (yn benodol y potensial sy'n cael ei greu gan y farchnad fordeithio a chyfleoedd gwerth uwch sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn ym mhob math o dywydd), yn ogystal ag uchelgais Llywodraeth Cymru i alluogi'r sector i ddatblygu. Felly, pan fyddant yn gwneud ei benderfyniad, dylai ACPau roi bwysoliad priodol i'r cyfraniad y bydd y cynnig yn ei wneud at y canlynol:

- yr economi;
- llesiant cymunedau lleol; a
- cyflawni amcan y sector i ddiogelu a hyrwyddo mynediad at yr arfordir a gwella ansawdd profiad yr ymwelydd yng Nghymru.

346. Dylai ACPau geisio cefnogi posibiliadau ar gyfer twristiaeth a hamdden cynaliadwy yn y dyfodol, drwy annog, cefnogi a thrafod cynigion sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu gweithgareddau twristiaeth a hamdden mewn modd cynaliadwy, a chyfrannu at sail wybodaeth a thystiolaeth y sector. Gallai hyn gynnwys:

- nodi lleoliadau posibl ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a hamdden;

- deall marchnadoedd a chyfyngiadau:
- deall effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgareddau twristiaeth a hamdden a/neu ddeall lle mae'r sector yn strategol bwysig.

347. Mae **Polisi T&R_01b** yn *annog* pob parti perthnasol i fuddsoddi mewn datblygu sail dystiolaeth benodol ar gyfer gweithgareddau hamdden fesul lleoliad, math a thymor/amser. Mae rhai lleoliadau o bwys penodol i'r sector Twristiaeth a Hamdden oherwydd eu bod yn cynnig nodweddion penodol iawn sydd eu hangen er mwyn i weithgaredd fod yn llwyddiannus (er enghraifft, dŵr dwfn fel platfform genweirio, cysgod mewn lleoliadau ar gyfer angorfeydd hamdden, gwyntoedd cyson ar gyfer syrffio gwynt neu donnau ffafriol ar gyfer syrffio) . Er bod pobl leol yn gwybod am y lleoliadau, yr amseroedd, y tymhorau a'r amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bwysig bod datblygwyr a phenderfynwyr yn cael eu hysbysu amdanynt, er mwyn i anghenion y sector gael eu hadlewyrchu yn ddigonol mewn cynlluniau morol. Mae natur fach diwydiant twristiaeth Cymru a dynameg yr amgylchedd morol naturiol yn gwneud hwn yn faes heriol, maes y byddwn yn parhau i'w ddatblygu. *Anogir* cyfleoedd i wella dealltwriaeth yn y maes hwn.

## 3.2 Polisïau Diogelu Sectorau

348. Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn gynaliadwy, mae gan bob sector un neu fwy o bolisïau diogelu i hyrwyddo cydnawsedd. Rhaid i unrhyw weithgaredd arfaethedig ystyried diogelu o'r fath.

349. Mae polisi diogelu'r CMCC yn ffurfioli arferion cyffredin wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod pob mater yn cael ei ystyried mewn modd strwythuredig, gan gynnwys effeithiau posibl unrhyw gynnig ar weithgareddau presennol, ac effeithiau niweidiol posibl ar sectorau eraill sy'n dibynnu ar adnodd penodol. Mewn gwirionedd, yn aml mae cynigion newydd eisoes yn dangos i ba raddau maent yn gysylltiedig â mathau posibl o ddefnydd yn y dyfodol ar gyfer eu sector nhw a sectorau eraill. Mae polisïau diogelu'r CMCC yn sicrhau bod hyn yn digwydd fel mater o gwrs ac ar adeg briodol. Felly, ni fwriedir i bolisïau diogelu fod yn faich ar y rheini sy'n cynnig prosiectau, ond byddant yn sicrhau eu bod yn ystyried eu cynnig presennol yng nghyd-destun y ffordd y bydd sectorau eraill yn defnyddio'r ardal y maent yn cynnig gweithredu ynddi yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol.

350. Bwriedir i bolisïau diogelu roi sicrwydd a hyder busnes i weithredwyr:

- sy'n cynnal gweithgaredd sydd wedi'i sefydlu a/neu wedi'i awdurdodi;
- sydd wedi cyflwyno cais i gynnal gweithgaredd;
- y dyrannwyd ardal(oedd) iddynt i'w datblygu (e.e. ardaloedd archwilio neu opsiwn) ac sydd wrthi'n cynnal ymchwil neu'n diffinio nodweddon safle er mwyn mireinio eu cais am drwydded o fewn ardal nad yw ond yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu sector; a/neu

- sy'n elwa ar AAS sefydledig ar gyfer eu sector gan nodi ardaloedd lle mae adnoddau sy'n strategol i'r sector.

Mae polisïau diogelu'r CMCC yn ceisio diogelu, i raddau priodol, weithgareddau presennol, ac mewn rhai achosion gweithgareddau posibl yn y dyfodol. Mae polisi diogelu penodol (**DEF_01**) yn berthnasol i'r sector Amddiffyn, ac mae polisïau diogelu eraill (**SAF_01a b**) yn berthnasol i bob sector ar wahân i amddiffyn.

Mae **Polisi SAF_01** yn diogelu gweithgareddau presennol. O dan **SAF_01a**, rhaid i gynigion y mae'n debygol y byddant yn cael *effaith/effeithiau niweidiol arwyddocaol* ar weithgaredd sefydledig sy'n destun **cais neu awdurdodiad ffurfiol** ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cydnawsedd.

O dan **Bolisi SAF_01b**, rhaid i gynigion y mae'n debygol y byddant yn cael effaith/effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig **nad yw'n destun awdurdodiad ffurfiol** ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cydnawsedd.

Bydd **Polisi SAF_02** yn cael ei weithredu drwy nodi AASau ar gyfer sector penodol yn y dyfodol pan fydd hynny'n briodol.

### 3.2.1 DEF_01: Amddiffyn

351. Mae polisïau ar gyfer y sector Amddiffyn yn berthnasol i ranbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun. Dylai pob cynnig y mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn gymhwyso **Polisi DEF_01**. Mae'r polisi hwn yn helpu i reoli effeithiau niweidiol posibl gweithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol y sector Amddiffyn, gweithgareddau wedi eu cynllunio a gweithgareddau posibl yn y dyfodol. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod cynigion newydd gan sectorau eraill yn ystyried eu heffeithiau unigol a chronnol posibl ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar y môr ac ar y tir, ac yn osgoi, lleihau neu liniaru ymyrraeth; gan ddiogelu buddiannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ogystal â diogelu defnyddwyr y môr rhag y peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Weinyddiaeth. Mae rhai o diroedd ymarfer a pheryglus y Weinyddiaeth yn cael eu diogelu gan is-ddeddfau gan roi'r hawl i'r Weinyddiaeth wahardd pobl a chychod yn ogystal â chodi adeiladau.

352. Byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgynghorai ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn yr ardal forol y mae'n bosibl y bydd yn gwrthdaro â buddiannau amddiffyn, ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau am ddatblygiadau ar y tir ac yn y môr. Bydd rhai datblygiadau neu weithgareddau ar y môr yn effeithio ar gyfleusterau amddiffyn ar y tir, fel lleiniau awyr, safleoedd trosglwyddyddion a storfeydd ffrwydron ar yr arfordir sydd â pharthau diogelu sy'n ymestyn i'r môr i reoleiddio datblygiadau a allai effeithio ar eu heffeithlonrwydd. Dylai ymgeiswyr hysbysu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gynnar yn y broses os bydd unrhyw effaith ar weithgareddau'r Weinyddiaeth yn bosibl. **Ni roddir caniatâd, drwydded forol neu**

**gydsyniad/trwydded berthnasol arall ond lle mae'r Weinyddiaeth yn fodlon na fydd y cynnig yn peri risg annerbyniol i amddiffyn a diogelwch cenedlaethol.** Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd modd cytuno ar fesurau lliniaru i oresgyn unrhyw effeithiau niweidiol a nodir er mwyn sicrhau cydnawsedd a bwrw ymlaen â'r cynnig.

353. Mae'n bosibl y bydd rhai gweithgareddau a strwythurau sefydlog yn anghydnaws â gweithgareddau amddiffyn, yn enwedig ar Dir Ymarfer a Pherygl y Weinyddiaeth. Fodd bynnag, gall mesurau lliniaru helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn o dan rai amgylchiadau. Bydd angen i bob gweithgaredd morol neu ddatblygiad arfaethedig o fewn Ardaloedd Perygl neu Ymarfer y Weinyddiaeth gael ei gymeradwyo gan dîm diogelu'r Weinyddiaeth.

354. Mae'n bosibl y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau ynni ger gweithgareddau’r Weinyddiaeth yn wynebu cyfyngiadau, yn dibynnu ar natur y dyfeisiau a’r math o ddefnydd a nodir ar gyfer yr ardal. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau'r Weinyddiaeth yn rhoi rhwystr penodol ar y diwydiannau ynni adnewyddadwy ac olew a nwy ar Dir Perygl ac Ymarfer.

355. Gall rhai gosodiadau megis tyrbinau gwynt effeithio ar weithgareddau radar sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y wlad. Bydd angen hefyd i bob gweithgaredd morol neu ddatblygiad arfaethedig, gan gynnwys unrhyw osodiadau ynni yn ardaloedd ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn a thyrbinau gwynt 11 metr neu fwy o uchder neu sydd â llafnau 2 fetr neu fwy o hyd, gael ei gymeradwyo gan dîm diogelu'r Weinyddiaeth.

356. Gan nad yw safleoedd saethu milwrol yn cael eu defnyddio'n gyson, mae'n bosibl y bydd y Weinyddiaeth yn caniatáu gweithgareddau eraill lle maent yn cyd-fynd â gofynion gweithredol. Mae'n bosibl y rhoddir caniatâd dros dro ar gyfer pysgota, cynnal arolygon daearegol, morgludo a gweithgareddau cychod hamdden yn ystod cyfnodau pan nad yw ardaloedd yn cael eu defnyddio at ddibenion milwrol gweithredol. Mae'r sector pysgota a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cytuno ar god ymarfer sydd â'r nod o ddatrys anghydfodau sy'n codi o'u gwahanol weithgareddau.

357. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau sy'n ymwneud â gwely'r môr, megis rhai gweithgareddau pysgota, yn cael eu cyfyngu mewn ardaloedd sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer dympio arfau rhyfel. Mae sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a safleoedd dympio arfau rhyfel yn cael eu nodi'n glir ar siartiau'r Morlys.

### 3.2.2 SAF_01: Diogelu Gweithgareddau Presennol

358. Mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol i bob sector (ar wahân i amddiffyn sydd â'i bolisi diogelu neilltuedig ei hun, **DEF_01**), a'i nod yw diogelu gweithgareddau presennol, yr adnoddau a ddefnyddir, yn ogystal â hybu cydfodoli. Mae diogelu yn cael ei hwyluso drwy *annog* trefniadau cysylltu priodol rhwng sectorau.

359. Mae **Polisi SAF_01** yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gweithrediadau a buddsoddiadau parhaus. Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau presennol yn cael eu hystyried mewn modd clir a systematig, yn gynnar yn y broses, gan unrhyw gynnig newydd y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith niweidiol arnynt.

360. Dylai cynigion sy’n ceisio cynnal gweithgareddau mewn ardaloedd y mae **Polisi SAF_01** yn berthnasol iddynt ddangos eu bod yn gydnaws â gweithgareddau presennol (drwy fodloni'r meini prawf ar gyfer osgoi, lleihau a lliniaru). Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys gwneud addasiadau dros dro neu ofodol i osgoi neu leihau'r effaith. Er enghraifft, mae'n bosibl cynnal gweithgareddau pysgota a morgludo mewn ardaloedd lle mae agregau'n cael eu hechdynnu, ond mae'n bosibl y bydd angen dadleoli'r gweithgareddau hyn am gyfnod byr pan fydd agregau'n cael eu hechdynnu. Os nad yw cydnawsedd yn bosibl, yno caiff cynigion gyflwyno *achos dros fwrw ymlaen* (o dan **SAF_01b**) neu ddangos *amgylchiadau eithriadol* (o dan **SAF_01a**).

361. Wrth ystyried a ddylai cynnig fynd yn ei flaen a phwyso a mesur unrhyw effeithiau niweidiol posibl yn erbyn y manteision, dylai penderfynwyr ystyried:

- yr effeithiau ar ddefnyddwyr eraill y môr;
- pwysigrwydd strategol y cynnig (a yw'n cyd-fynd â pholisïau’r CMCC ac yn ategu amcanion y Cynllun);
- i ba raddau y mae'r cynnig yn bodloni polisïau Llywodraeth Cymru neu bolisïau cenedlaethol, ac yn cydymffurfio â gwybodaeth berthnasol arall megis HCMau a/neu Ddatganiadau y Cabinet:
- i ba raddau y byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei dderbyn, yn helpu'r sector hwnnw i gyflawni eu hamcanion eu hunain;
- i ba raddau y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar amcanion a pholisïau sector y gweithgaredd a ddiogelir;
- i ba raddau y mae achos dros *amgylchiadau eithriadol* wedi cael ei gyflwyno.

**Diogelu'r sector Agregau**

362. Mae **Polisi SAF_01a** yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gweithrediadau a buddsoddiadau parhaus. Mae hyn yn berthnasol i'r holl gynigion y mae'n bosibl y byddant yn cael effaith ar ardaloedd lle:

- mae cytundeb archwilio neu opsiwn wedi cael ei gynnig neu ar waith ar gyfer carthu agregau;
- mae caniatâd neu awdurdod ar gyfer carthu agregau wedi cael ei roi neu mae cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno am un o'r rhain;
- mae cais am hawliau cynhyrchu ar gyfer carthu agregau wedi cael ei gymeradwyo neu mae cais ffurfiol am hawliau wedi cael ei gyflwyno.

363. Mae **Polisi SAF_01a** yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi ardaloedd posibl ar gyfer agregau. Mae'r rhain yn cael eu cynnig gan Ystad y Goron ar gyfer archwilio gwely'r môr, a gwaith dilynol i fireinio'r ardal i fod yn fasnachol hyfyw (ac i gytundeb cynhyrchu gael ei gynnig gan Ystad y Goron).

364. Yn y cyd-destun hwn mae "wedi cael ei gynnig neu ar waith" yn golygu wedi cael ei gynnig neu wedi cael ei dderbyn dros dro gan Ystad y Goron neu'r tirfeddiannwr ar gyfer trwydded gyfnodol i gynnal rhagor o waith archwilio. Mae "cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu bod y cais wedi cael ei dderbyn gan Ystad y Goron neu'r tirfeddiannwr ar gyfer Cytundeb Cynhyrchu, neu fod cais priodol am drwydded forol

wedi cael ei wneud i CNC yn barod ar gyfer cyhoeddi trwydded forol. Pan fydd trwydded forol wedi'i roi, bydd Ystad y Goron yn cyflwyno Cytundeb Cynhyrchu i'r ymgeisydd.

365. Mae Ardal Adnoddau eang wedi cael ei nodi yn seiliedig ar waith helaeth Arolwg Daearegol Prydain, sy'n dangos bod adnodd agregau yn bodoli, neu ei bod yn debygol bod adodd agregau'n bodoli, fel y'i dangosir yn yr adran fapiau yn yr CMCC. Nid oes polisi diogelu uniongyrchol sy'n berthnasol i'r ardaloedd hyn oherwydd eu bod mor fawr ac, mewn llawer o achosion, mae'n annhebyg y byddant yn cael eu datblygu yn ystod cyfnod yr CMCC. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd yn cael eu datblygu neu eu defnyddio os yw prosiect cyfalaf mawr neu brosiect adfer traeth yn cael ei gynnal yn y lleoliad hwnnw neu lle mae cyfleusterau glanio cyfagos. Mae Llywodraeth Cymru o blaid mireinio'r Ardal Adnoddau ymhellach i ategu'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

366. Er bod yr ardaloedd archwilio'n helaeth, bydd presenoldeb cychod yn cynnal asesiadau o agregau, a natur y gwaith, at ei gilydd dros dro ac yn anymwthiol, ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i gydfodoli â defnyddwyr eraill. Felly, sectorau sy'n rhoi gosodiadau parhaol mewn ardaloedd (trwyddedig) cynhyrchu (arfaethedig) a fyddai fwyaf tebygol o gyflwyno ceisiadau o dan achos o *amgylchiadau eithriadol*  Lle y gwneir cais mewn perthynas ag ardaloedd opsiwn neu archwilio, yna bydd yn bwysig ystyried potensial yr ardal honno ar gyfer datblygu agregau yn y dyfodol.

367. Mae gan y diwydiant agregau botensial da ar gyfer rhannu lle â sector eraill, yn dibynnu ar hyblygrwydd wrth benderfynu ynghylch lleoliad ac amser y gweithgareddau echdynnu. Wrth gynnig cymorth ar gyfer y diwydiant agregau, mae'n bwysig ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer sectorau eraill. Fel rhan o'r weithdrefn drwyddedu, mae'n rhaid i gynigion newydd ar gyfer safleoedd carthu agregau leihau eu heffeithiau ar weithgareddau presennol neu weithgareddau wedi'u cynllunio mewn sectorau eraill.

368. Er ei bod yn bosibl y gall rhai sectorau'n gydfodoli â gweithgareddau agregau, e.e. pysgota, gweithgareddau morgludo, twristiaeth a hamdden, rhaid ystyried y risg o wrthdaro (diogelwch a'r risg o lygredd) a goblygiadau cost i sectorau eraill o ganlyniad i gynnig. Dylid rhoi trefniadau cysylltu ar waith gyda sectorau allweddol lle bo angen e.e. y Weinyddiaeth Amddiffyn, morgludo a physgota. Yn benodol, dylid sefydlu trefniadau cysylltu priodol gyda physgodfeydd er mwyn hwyluso cyfathrebu ac arferion gweithio (e.e. swyddog cysylltu â physgodfeydd). Mae'r diwydiant wedi llunio canllawiau arfer da mewn perthynas â mordwyo[29], y diwydiant pysgota[30], a cheblau[31].

[29] https://bmapa.org/documents/Annex_II_Guide_to_Good_Practice_Dredging_Operations_140912.pdf

[30] https://www.bmapa.org/documents/Marine_Aggregate_Fisheries_Liaison_CoP_with_survey_notifications.pdf

[31] https://www.bmapa.org/documents/Guideline_19_Marine_Aggregate_Extraction_Proximity_2.pdf

369. Mae gan nifer o sectorau'r potensial i gael effaith niweidiol ar y sector agregau, yn enwedig y rhai sy'n gosod strwythurau sefydlog neu barhaol, megis ceblau a datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae'n debygol y bydd y rhain yn rhwystro neu'n atal unrhyw echdynnu agregau yn y dyfodol. Mae'n bosibl na fydd gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gydnaws â charthu agregu rheolaidd, er bod y gorgyffwrdd rhwng y ddau yn isel ar hyn o bryd. Hefyd mae risg o halogi'n gysylltiedig â gweithgareddau carthu, o ganlyniad i ddŵr yn cael ei lygru drwy waddodion yn cael eu hail-ddal yn y dŵr, a fydd yn arwain at oblygiadau ar gyfer sectorau megis dyframaeth.

370. Mae morgludo yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gludo deunyddiau agregau i borthladdoedd a harbwrs, lle maent yn cael eu glanio a'u storio, cyn iddynt gael eu cludo i'r cyrchfan lle byddant yn cael eu defnyddio. Mae angen diogelu glanfeydd agregau er mwyn galluogi mynediad parhaus at farchnadoedd lleol, ac mae angen i awdurdodau cynllunio arfordirol ac awdurdodau porthladdoedd ystyried anghenion y diwydiant agregau a sicrhau bod cyfleusterau glanfeydd digonol a'r seilwaith cysylltiedig yn cael eu darparu mor agos at yr ardal lle mae'r galw ag sy'n ymarferol, yn unol â gofynion polisi PCC. Mae'r ystyriaeth hon hefyd yn ymwneud â'r polisi diogelu porthladdoedd.

**Diogelu'r sector Dyframaeth**

371. Bwriad **Polisi SAF_01a** yw galluogi dyframaeth i barhau lle mae awdurdodiadau ar waith ac yn cael eu sicrhau.

372. Mae'r polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gweithrediadau a buddsoddiadau parhaus. Mae hyn yn berthnasol i'r holl gynigion y mae'n bosibl y byddant yn cael effaith ar ardaloedd lle:

- mae cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu hawliau cynhyrchu ar gyfer dyframaeth wedi cael ei gymeradwyo, neu mae cais ffurfiol am un o'r rhain wedi cael ei gyflwyno;
- mae cytundeb ffurfiol a gofnodwyd wedi cael ei wneud rhwng perchennog gwely'r môr a gweithredwr dyframaethu;
- mae Busnes Cynhyrchu Dyframaeth wedi cael ei gofrestru neu mae cais am gofrestriad wedi cael ei gyflwyno.

373. Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol lle mae cytundeb ffurfiol wedi cael ei wneud neu ei ddyfarnu ar gyfer trwydded forol a/neu Orchymyn Pysgota Unigol (ar gyfer pysgod cregyn) neu lle mae cytundeb â pherchennog gwely'r môr (fel arfer Ystad y Goron). Ar gyfer prosesau lle mae angen hysbysiad ffurfiol, mae'r polisi'n dod i rym pan fydd yr hysbysiad cyhoeddus wedi dechrau. Bydd derbyn cofrestriad ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaeth, neu wneud cais am gofrestriad, a bodolaeth trwyddedau neu ganiatadau eraill, yn cadarnhau statws y busnes dyframaeth at ddibenion y polisi hwn.

374. "Mae cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu bod cais i Weinidogion Cymru am Orchymyn Pysgodfa Unigol wedi cael ei gyflwyno a'i gyhoeddi, neu fod hawliau i wely'r môr wedi cael eu rhoi. Ar yr adeg hon, dylai ffiniau'r ardal y gwneir cais ar ei

chyfer gael eu diffinio'n dda a, chyn derbyn yr ymatebion i unrhyw hysbysiad ffurfiol, fod yn gymharol sefydlog.

375. Mae angen amrediad o gyfleusterau ar y tir ac yn y môr ar gyfer gweithrediadau dyframaethu, ac o ganlyniad byddant yn rhyngweithio â defnyddwyr eraill y môr mewn nifer o ffyrdd. Bydd y graddau y mae gweithgareddau dyframaethu'n effeithio ar ddefnyddwyr eraill, neu yr effeithir arnynt hwy gan ddefnyddwyr eraill yn dibynnu ar, er enghraifft, ôl troed pob gweithgaredd, y rhywogaeth sy'n cael ei ffermio ac a yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal ar wyneb neu ar wely'r môr.

376. Er bod anghenion gweithgareddau dyframaethu yn benodol iawn i safle, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran lleoliad, yn enwedig ar gyfer mentrau llai, a chyda chynllunio priodol yn aml gall gweithrediadau dyframaethu helaeth a dwys gydfodoli'n dda â sectorau eraill.

377. Mae ansawdd dŵr da, ac ar gyfer pysgod asgellog "man tawel" yn arbennig o bwysig ar gyfer gweithgareddau dyframaethu llwyddiannus. Gall fod effeithiau niweidiol gan sectorau eraill. Mae effeithiau posibl yn cynnwys aflonyddu gan echdynnu agregau, carthu mordwyo, gollyngiadau yn y môr, gwaredu deunyddiau gwastraff yn y môr ac ansawdd dŵr gwaeth ar gyfer cynhyrchu pysgod cregyn. Gall gweithgareddau o'r fath gael effaith niweidiol ar weithrediadau dyframaethu a dylent gael eu hystyried wrth gynllunio unrhyw weithgareddau newydd.

378. Mae gwrthdaro â gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn bosibl, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau ar wyneb y môr ac mewn mannau rhynglanwol, gan gynnwys newidiadau lleol i ansawdd dŵr, aflonyddu ar fordwyo a mynediad, ac effeithiau ar y morwedd. Mewn gwirionedd mae gweithgareddau dyframaethu'n tueddu i fod mewn ardaloedd llai hygyrch, sydd o ganlyniad yn cael eu defnyddio'n llai ar gyfer gweithgareddau hamdden, a gallant gael effaith gadarnhaol ar ymdeimlad o le a chymeriad ardal.

379. Yn unol â'r ymagwedd gadarnhaol tuag at dwf glas, dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli mewn datblygiadau dyframaethu yn y dyfodol, ac mae'n bosibl bod nifer o gyfleoedd, yn enwedig mewn perthynas â chydleoli gweithgareddau dyframaethu â seilwaith ynni adnewyddadwy (e.e. morlynnoedd llanw neu seilwaith ynni gwynt y môr). Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ardaloedd arfaethedig ar gyfer ynni ffrwd llanw a'r tonnau yn amgylchedd ffisegol addas ar gyfer dyframaethu. *Anogir* ymgeiswyr i drafod ag awdurdodau porthladdoedd pan fyddant yn gweld potensial ar gyfer dyframaethu o fewn porthladdoedd. Yn yr un modd, dylai awdurdodau porthladdoedd ystyried defnydd o'r fath yn eu chylch gwaith, eu cynlluniau datblygu a chyd-destun yr CMCC yn gyffredinol.

380. Nid yw gweithgareddau dyframaethu sydd eisoes yn bodoli o reidrwydd yn golygu na roddir caniatâd ar gyfer gweithgareddau newydd pan all y gweithgaredd newydd ddangos cydnawsedd. Er mwyn gwneud hynny, dylai cynigion newydd gynnwys asesiad o'r effeithiau niweidiol posibl ar y gweithgaredd dyframaethu a'r rheini sy'n dibynnu arno. Mae'n bosibl y bydd effeithiau niweidiol yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau i ansawdd neu dymheredd dŵr yn arwain at lai o gynnyrch neu gynnyrch o ansawdd is; aflonyddu ffisegol, golau neu sŵn; effeithiau ar barhad neu seilwaith

busnesau; cynnydd mewn clefydau; neu rwystrau ffisegol yn arwain at gostau uwch, rhagor o amser neu ragor o ymdrech – e.e. i gyrraedd y safle neu i gynaeafu.

381. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd lle i adleoli gweithgareddau sefydledig, er y cydnabyddir y bydd hyn yn arwain at gostau. Wrth ystyried cynnig y mae'n bosibl y bydd yn *dadleoli* neu'n aflonyddu ar weithgareddau datblygiad dyframaethu, dylai ACPau ystyried maint yr effaith niweidiol (gan gynnwys yr effaith ar y busnes), a'r cyfleoedd a'r costau sy'n gysylltiedig ag adleoli'r gweithgaredd (ac a oes unrhyw gytundeb wedi'i wneud rhwng y gwahanol bartïon). Dylai unrhyw weithgareddau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad dyframaethu sydd eisoes yn bodoli adleoli ddarparu tystiolaeth i ategu asesiad o leoliadau eraill, ynghyd â'r costau net a'r goblygiadau ar gyfer amcanion y Cynllun i ail-sefydlu'r busnes neu ddod ag ef i ben.

**Diogelu'r sector Carthu a Gwaredu**

382. Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol i bob cynnig (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Carthu a Gwaredu) y mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar weithgareddau carthu a gwaredu newydd neu arfaethedig mewn ardaloedd:

- lle mae caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer carthu mordwyo (cynnal a chadw), neu waredu deunydd wedi'i garthu yn y môr wedi cael ei roi, neu mae cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno am un o'r rhain;
- sy'n destun ymchwiliad neu waith arolygu i nodi nodweddion safle ar gyfer carthu cyfalaf neu waredu deunydd.

383. Mae "cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu lle mae CNC neu'r Sefydliad Rheoli Morol wedi cytuno bod "cais priodol" wedi cael ei gyflwyno, neu lle mae Awdurdod Harbwr Statudol wedi rhoi caniatâd.

384. Mae polisïau'n diogelu'r sector drwy sicrhau, lle bynnag y bo modd, nad yw cynigion yn cael effeithiau niweidiol ar weithgareddau carthu a gwaredu, neu fod effeithiau niweidiol yn cael eu lleihau neu eu lliniaru'n effeithiol. Maent yn cydnabod y gwaith a'r buddsoddiadau sydd eu hangen i nodi safleoedd priodol a gwneud cais – proses a all fod yn gostus i ddatblygwyr ac yn drwm ar eu hamser, yn enwedig lle mae opsiynau eraill yn gyfyngedig.

385. Mewn gwirionedd cyfyngedig iawn yw'r effeithiau y mae sectorau eraill yn eu cael ar y sector Carthu a Gwaredu. Nid yw gweithrediadau carthu'n defnyddio llawer o le; maent yn angenrheidiol ac maent yn cael eu cynllunio ymlaen llaw mewn cyswllt â defnyddwyr eraill y môr ac yn dilyn prosesau statudol, e.e. asesiad o'r effaith amgylcheddol. Mae'n bosibl y rhoddir sylw i'r effeithiau drwy gyfyngiadau dros dro ar fynediad yn ystod y gweithrediadau carthu neu waredu. O ran gweithgareddau o ddydd i ddydd, mae'r effaith y mae cynnal gweithgareddau cynnal a chadw a gweithgareddau carthu a gwaredu o bryd i'w gilydd yn eu cael ar y rhan fwyaf o sectorau eraill yn gyfyngedig iawn, gan fod y rhain yn weithgareddau achlysurol sy'n para am gyfnod byr.

386. Bydd y gwahanol brosesau trwyddedu'n ystyried yr effeithiau posibl ar sectorau; er enghraifft, carthu mordwyo'n effeithio ar garthu agregau (lle mae'n bosibl y bydd yr

adnodd yn cael ei halogi gan ddeunydd wedi'i garthu), neu gael effaith ar geblau neu biblinellau. Gall gwaith carthu cyfalaf fod yn ddwysach, yn dibynnu ar natur y datblygiad cysylltiedig, ac o ganlyniad mae'n bosibl y bydd yn arwain at ragor o ryngweithio rhwng gwahanol sectorau. Mae gan safleoedd gwaredu'r potensial i ryngweithio ag amrediad o sectorau, ond mae hyn yn gymharol gyfyngedig o ystyried maint yr ôl troed, sydd fel arfer yn fach, a nifer fach y safleoedd sy'n weithredol yn nyfroedd Cymru.

**Diogelu'r sector Ynni - Carbon Isel**

387. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol posibl gan weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol, rhai sydd ar y gweill a gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol yn y sector ynni carbon isel, gan gynnwys seilwaith gwynt, tonnau, ffrwd llanw ac amrediad llanw, ceblau rhwng-arae a cheblau allforio, parthau diogelwch ac unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu rhoi ar wely'r môr sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni carbon isel.

388. Mae **Polisi SAF_01a** yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gweithrediadau a buddsoddiadau parhaus. Mae'n berthnasol i'r holl gynigion (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Ynni Carbon Isel) lle mae'n bosibl y bydd effaith ar ardaloedd lle:

- mae cytundeb cyn prydles ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel wedi cael ei gynnig neu ar waith;
- mae caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel wedi cael ei roi neu mae cais ffurfiol am un o'r rhain wedi cael ei gyflwyno.

389. Felly, mae'r polisi'n cynnwys ardaloedd lle mae cytundebau cyn prydles ar waith, neu mewn ardaloedd sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer prydles. Mae hyn yn cynnwys prydlesau ar gyfer:

- prosiectau ynni adnewyddadwy'r môr yn yr ardaloedd profi ac arddangos prosiectau ynni'r tonnau ac ynni ffrwd llanw y mae Llywodraeth y DU, Ystad y Goron, CNC Cymru a/neu Lywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn strategol bwysig;
- prosiectau ffrwd llanw neu ynni'r tonnau ar raddfa fasnachol;
- ffermydd gwynt neu weithgareddau ffrwd llanw masnachol;
- seilwaith sy'n gysylltiedig â'r uchod.

390. Mae **SAF_01a** yn adlewyrchu'r broses ar gyfer ardaloedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, ac sy'n cael eu cynnig gan Ystad y Goron o dan gytundeb cyn prydles sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n rhyngweithio â gwely'r môr, a gwaith dilynol i fireinio'r ardal i fod yn fasnachol hyfyw (ac unrhyw brydles sy'n cael ei chynnig gan Ystad y Goron yn y dyfodol).

391. Mae "cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu bod y cais wedi cael ei dderbyn gan Ystad y Goron neu'r tirfeddiannwr, neu fod cais wedi cael ei gyflwyno i'r ACP yn barod i gyhoeddi trwydded forol, GCD neu ganiatâd perthnasol arall.

392. O dan **Bolisi SAF_01a** bydd angen i gynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd sydd eisoes wedi derbyn caniatâd neu awdurdodiad ddangos y gallant gydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau ynni carbon isel, oni bai eu bod yn gwneud cais i *fwrw ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol*, ac ni fyddai hyn yn arferol. Mae hyn yn helpu i nodi partïon sydd â diddordeb mewn defnyddio/datblygu'r un ardaloedd, ac yn hwyluso trafodaethau rhyngddynt a'r ACP mor fuan ag y bo modd i nodi'r cyfyngiadau, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer cydfodoli.

> Bydd angen i unrhyw achos sy'n cael ei gyflwyno o dan *amgylchiadau eithriadol* ystyried y canlynol:
>
> - DPC Llywodraeth y DU ar gyfer Ynni (EN-1) ac Ynni Adnewyddadwy (EN-3) ac unrhyw DPC arall neu bolisïau perthnasol eraill y Llywodraeth;
> - y ffaith bod y sector hwn un o flaenoriaethau'r CMCC, ac y bydd penderfynwyr yn ystyried i ba raddau y mae amcanion y sector Ynni Carbon Isel yn cael eu bodloni neu'n cael eu niweidio gan gynnig.

393. Mae natur y rhyngweithio rhwng y diwydiant ynni carbon isel y môr a defnyddwyr eraill y môr yn dibynnu ar y math o ddyfais, ei maint a'i lleoliad a nodweddion gweithgareddau morol eraill.

394. Er y gall yr ardaloedd archwilio'n helaeth, bydd presenoldeb cychod yn cynnal asesiadau, a natur y gwaith, dros dro ac i raddau helaeth yn anymwthiol, ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd da ar gyfer cydfodoli. Felly, y diwydiannau a fyddai fwyaf tebygol o gyflwyno cais o dan *amgylchiadau eithriadol* yw'r rhai sy'n gosod strwythurau parhaol, ac yn cyflwyno cais am ddatblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar ardaloedd ynni carbon isel. Lle y gwneir cais mewn perthynas ag ardaloedd opsiwn neu archwilio, yna bydd yn bwysig ystyried potensial yr ardal honno ar gyfer datblygiadau ynni yn y dyfodol.

**Diogelu'r sector Ynni - Olew a Nwy**

395. Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol i bob cynnig (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Olew a Nwy) y mae'n bosibl y byddant yn cael effaith ar ardaloedd lle mae trwyddedau wedi cael eu rhoi, lle mae datblygiadau olew a nwy wedi cael eu cymeradwyo neu lle mae cais am gymeradwyaeth wedi cael ei gyflwyno:

396. Mae **SAF_01a** yn berthnasol i gynigion y mae'n bosibl y byddant yn cael effaith ar flociau sy'n dod o dan drwyddedau cynhyrchu tua'r môr, ac mae'n sicrhau bod unrhyw gynigion newydd mewn ardaloedd o'r fath yn gydnaws â'r sector Olew a Nwy. *Anogir* trafodaethau rhwng gwahanol ddefnyddwyr y môr, a'r ACP priodol lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cydfodoli.

397. Mae **SAF_01a** hefyd yn berthnasol i'r ardal sy'n dod o dan ganiatâd cynhyrchu neu seilwaith presennol neu arfaethedig, gan gynnwys pennau ffynhonnell, maniffoldiau, terfynfeydd a phlatfformau, piblinellau (gan gynnwys llwybrau allforio), ceblau ac unrhyw barth allgau statudol o amgylch y gosodiadau sefydlog.

398. Bydd y term "cais ffurfiol" yn dod i rym pan fydd yr AON wedi derbyn cais neu wedi rhoi trwydded cynhyrchu tua'r môr ar gyfer bloc(iau) penodol, neu wedi derbyn Cynllun Datblygu Maes sy'n diffinio ardal ar gyfer datblygu'r maes penodol, gan gynnwys lleoliad unrhyw seilwaith.

399. Ar hyn o bryd mae gweithgareddau olew a nwy yn gyfyngedig ac at ei gilydd gryn bellter o'r arfordir yn nyfroedd Cymru. Mae lleoliad ac ôl troed bach archwilio a seilwaith cynhyrchu, a'r cyfnod cyfyngedig mae rhai gweithgareddau'n para (e.e. unrhyw weithgareddau archwilio, gan gynnwys arolygon seismig a gweithrediadau drilio sy'n benodol i safle neu weithrediadau adeiladu) yn golygu bod rhyngweithio â defnyddwyr eraill y môr yn aml yn gyfyngedig, ac felly mae'n bosibl i weithgareddau barhau yn agos, y tu allan i unrhyw parth diogelwch berthnasol. Fodd bynnag, nid yw parthau diogelwch yn ofynnol ar gyfer cychod sy'n cynnal arolygon seismig, ac mae rhyngweithio â gweithrediadau pysgota yn bosibl. Felly mae trafodaethau rhwng y contractwyr arolygu a'r sefydliad pysgota yn hanfodol.

400. Bydd angen i gynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd lle mae'r AON wedi rhoi trwydded cynhyrchu ar gyfer gweithgareddau tua'r môr, neu lle mae datblygiadau olew a nwy wedi cael eu cymeradwyo, ddangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau echdynnu olew a nwy[32] oni bai eu bod yn bwriadu cyflwyno cais i *fwrw ymlaen o dan achos o amgylchiadau eithriadol.*

401. Felly, y diwydiannau a fyddai fwyaf tebygol o gyflwyno cais o dan achos o *amgylchiadau eithriadol* yw'r rhai sy'n rhoi gosodiadau sefydlog. Oherwydd lleoliad gweithgareddau olew a nwy yn nyfroedd Cymru, y nifer fach o ddefnyddwyr eraill, cyfleoedd da ar gyfer rhoi seilwaith a fyddai'n gwrthdaro mewn lleoliadau eraill a phwysigrwydd cenedlaethol olew a nwy i'r DU, mae'n debygol mai bach fydd nifer y ceisiadau o dan achos o *amgylchiadau eithriadol*. Lle y gwneir achos o'r fath, bydd potensial posibl yr ardal honno ar gyfer datblygu olew a nwy, faint o ddiddordeb masnachol sydd, ac anghenion penodol y ddau ddiwydiant yn ystyriaethau pwysig.

402. Bydd rhaid i unrhyw gynnig ystyried pwysigrwydd yr ardal ar gyfer bodloni amcanion y sector Olew a Nwy, a pha mor fawr fydd yr effaith niweidiol honno ar y gofyniad hwnnw os derbynnir y cynnig. Dylid ystyried hefyd bwysigrwydd strategol cenedlaethol olew a nwy ac amcan Llywodraeth i DU i fanteisio i'r eithaf ar adferiad economaidd adnoddau olew a nwy .

403. Lle mae defnyddiwr gwely'r môr arall wedi derbyn cytundeb prydles ar gyfer gweithgaredd yn yr un lleoliad, e.e. fferm wynt, mae'n bosibl y bydd gofyniad i'r ddau barti o dan sylw drafod (gweler Canllawiau Llywodraeth y DU, 2014[33]). Gallai PSACau ynni'r môr arwain at oblygiadau helaeth ar gyfer adnoddau naturiol a gweithgareddau yn ardal y cynllun. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch PSACau rhaid i'r ACP ystyried yr CMCC.

[32] https://www.ogauthority.co.uk/licensing-consents/licensing-rounds/

[33] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/318704/Crown_Estate_Lease_Independent_Valuer_Guidance.pdf

404. Fel rhan o broses ymgeisio'r prosiect bydd yr AON ac OPRED yn sicrhau bod datblygwyr yn ymgynghori â defnyddwyr eraill y môr i ystyried rhyngweithio ac i geisio osgoi, lleihau neu liniaru ei effeithiau. O ganlyniad, fel arfer bydd seilwaith ar arwyneb y môr ar gyfer gweithgareddau olew a nwy yn cael ei leoli y tu allan i lwybrau morgludo sefydledig ar ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd y cyrff perthnasol yn cael eu hysbysu am seilwaith ar wely ac ar arwyneb y môr, fel rhan o'r broses caniatâd i leoli. Mae'r broses hon yn cael ei rheoleiddio gan OPRED ac yn ei gwneud y ofynnol i ddefnyddwyr eraill y môr gael eu hysbysu am beryglon sy'n cael eu hachosi gan seilwaith drwy Swyddfa Hydrograffig y DU, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Gwasanaethau Pysgod y Môr.

**Diogelu’r sector Pysgodfeydd**

405. Mae pysgota yn weithgaredd sydd fel arfer yn digwydd heb drwydded forol (er nid bob amser). Gan amlaf, mae gweithgareddau pysgota'n cael eu cyfyngu drwy osod amodau i reoli a gwarchod rhywogaethau o bysgod (pysgod cregyn) a/neu'r amgylchedd morol y maent yn dibynnu arno.

406. Mae **Polisi SAF_01b** yn berthnasol i bob cynnig (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Pysgodfeydd) y mae’n bosibl y bydd yn dadleoli gweithgareddau pysgodfeydd sefydledig neu’r effeithio arnynt.

407. Bydd gweithgareddau pysgota, yn dibynnu ar y math, yn rhyngweithio ag amrywiaeth o ddefnyddwyr eraill y môr mewn nifer o ffyrdd. Gall y rhyngweithio rhwng buddiannau bysgodfeydd sefydledig a sectorau eraill fod yn helaeth o ganlyniad i wasgariad helaeth pysgota a'r ffaith ei fod yn dibynnu ar gynefinoedd ac ardaloedd lle mae pysgod yn crynhoi. Yn benodol, mae cynhyrchu ynni, echdynnu agregau, carthu a gwaredu cyfalaf a mordwyo, arolygu ac echdynnu olew a nwy, safleoedd saethu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, llwybrau morgludo a mordwyo, ceblau, piblinellau, platfformau neu strwythurau sylfaenol eraill i gyd yn rhyngweithio ac mae'n bosibl y byddant yn atal neu'r aflonyddu ar weithgareddau pysgota. Bydd angen i benderfyniadau ynghylch pob un o'r gweithgareddau hyn ystyried **Polisi SAF_01b** yng nghyd-destun y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

408. Mae'n bosibl y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau newydd gan sectorau eraill yn arwain at *ddadleoli* o ardaloedd pysgota, newidiadau i wasgariad yr adnodd, neu effeithiau posibl ar silio, meithrinfeydd, mudo ac ardaloedd bwyta sy'n cynnal stociau pysgod. Ar wahân i *ddadleoli*, mae'n bosibl y bydd gosodiadau sefydlog sy’n peri risg i fordwyo yn effeithio ar weithgareddau pysgota, neu gallai gêr pysgota sy'n cael ei lusgo gael ei ddal, gan arwain at ddifrod drud posibl a goblygiadau diogelwch. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i osodiadau sefydledig a gweithgareddau pysgota gydfodoli.

409. Oherwydd eu gwasgariad helaeth a'u natur symudol, gall gweithgareddau pysgota effeithio ar sectorau eraill. Y ffyrdd gorau o ymdrin â'r materion hyn yw dulliau gwirfoddol a thrafodaethau effeithiol rhwng y gwahanol bartïon er, ar adegau, mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno rheolaethau statudol, e.e. cyfyngu ar bysgota mewn sianelu mordwyo neilltuedig neu barthau diogelwch statudol o amgylch strwythurau sy'n gysylltiedig ag olew a nwy.

410. Mae'r CMCC yn *annog* gweithgareddau, gan gynnwys pysgota, i gydfodoli (gweler **Polisi ECON_02**). Yn aml, gall gweithgareddau gydfodoli drwy drafodaethau effeithiol a mesurau rheoli ymarferol. Er enghraifft, gellir pysgota yn ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn neu mewn ardaloedd lle mae arolygon yn cael eu cynnal (h.y. agregau neu olew a nwy) ar adegau sy'n gyfleus i bawb. Nid oes gan bob ardal yr un gwerth o safbwynt pysgota, ac nid yw pysgota'n digwydd drwy gydol y flwyddyn – mae'r amrywiaeth a'r amrywioldeb hwn yn rhoi cyfle da ar gyfer cydfodoli.

411. O dan **Polisi SAF_01b**, dylai cynigion ystyried natur, dwysedd a gwerth gweithgareddau pysgota sefydledig yn ardal y datblygiad arfaethedig a goblygiadau unrhyw *ddadleoli* gweithgareddau pysgota sy'n bosibl, gyda phwyslais ar weithgareddau sy'n fasnachol bwysig a pharhauster unrhyw effeithiau.

412. Dylid defnyddio diffiniad bras o weithgareddau masnachol bwysig oherwydd amrywioldeb stociau a'u hargaeledd masnachol (e.e. drwy gwotâu neu gyfyngiadau dros dro eraill ar gyfer rheoli pysgodfeydd). Dylai ystyriaethau ganolbwyntio ar y rhywogaethau pwysicach o bysgod asgellog o safbwynt pwysau neu werth, a phob rhywogaeth o bysgod cregyn sydd â gwerth masnachol gwirioneddol (mae enghreifftiau o rywogaethau sydd â gwerth economaidd llai yn cynnwys lledod mwd, lledod tywod, y rhan fwyaf o rywogaethau o chwyrnwyr, penfreision gwael a bwganod dŵr sy'n gallu bod yn niferus mewn arolygon treillio gwyddonol yn nyfroedd y glannau ond yn llai masnachol arwyddocaol).

413. Mae nodweddion y diwydiant pysgota, yn enwedig cychod llai ar leoliadau ar yr arfordir, yn ei wneud yn fwy agored i aflonyddu gan weithgareddau morol eraill.

414. Yn wahanol i gychod mwy, mwy crwydrol a chanddynt offer symudol, ni all cychod sy'n pysgota yn nyfroedd y glannau adleoli'n hawdd i ardaloedd eraill, lle mae'r lle sydd ar gael a'r cyfleoedd ar gyfer dal pysgod yn debygol o fod yn gyfyngedig beth bynnag. Pe bai penderfyniadau gan ACPau yn gwneud *dadleoli yn* ofynnol (peri dadleoli), gan arwain at gychod pysgota yn cael eu hadleoli'n barhaol i ardaloedd eraill, mae'n annhebygol y byddai adleoli o'r fath yn opsiwn hyfyw ar gyfer pysgotwyr unigol. Mae'n bosibl y bydd unrhyw aflonyddu ar weithgareddau pysgota, hyd yn oed dros dro, yn cael effaith ar hyfywedd ariannol busnesau bach sy'n seiliedig ar leoliad penodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd *dadleoli* yn cynyddu'r pwysau ar ardaloedd eraill wrth i weithgareddau pysgota symud i'r ardaloedd hynny, gan arwain at effaith fwy ar stociau neu ragor o ddifrod i'r ecosystem. Felly, mae'r CMCC yn gwneud darpariaeth ar gyfer ystyried sensitifrwydd penodol sector pysgota masnachol Cymru i *ddadleoli*, yn enwedig y risg o *ddadleoli* parhaol.

415. Byddai angen trafod ag ardaloedd eraill yn y cynllun mewn perthynas â *dadleoli* gweithgareddau pysgota i sicrhau dealltwriaeth o'r effeithiau posibl. Yn benodol, rhaid i benderfynwyr ystyried effeithiau'r canlynol, sy'n gallu bod yn gronnol neu'n rhyngweithiol:

- y tywydd (gall y cyfnod lle mae pysgota'n bosibl fod yn fyr, sy'n ei gwneud y ofynnol i weithredwyr weithio mewn modd mor hyblyg ag y bo modd);
- ffrydiau llanw cryf (mewn llai lleoliadau ac yn ystod pob gorllanw dwywaith y mis);

- gweithgareddau sectorau eraill naill drwy eu gweithrediadau uniongyrchol neu eu seilwaith sefydlog;
- Cyfyngiadau ar safleoedd saethu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n helaeth yng Nghymru;
- Ardaloedd Morol Gwarchodedig;
- cyfyngiadau rheoli pysgota (e.e. atal pysgota mewn ardal/am gyfnod i helpu i reoli neu adfer stociau);
- Gweithgareddau pysgota eraill sy’n cystadlu â’i gilydd fel presenoldeb offer statig (potiau neu rwydi) sy'n atal gweithredu offer symudol (rhwydi treillio neu garthu).

416. Lle mae gweithgaredd penodol fel pysgota wedi cael ei gynnal mewn ardal am amser maith, mae'n gallu dod yn nodwedd gref o hunaniaeth ac ymdeimlad o le'r gymuned honno a bod o arwyddocâd sylweddol. Mae hunaniaeth gref ac ymdeimlad o le yn gwneud yr ardaloedd hyn yn fannau unigryw ar gyfer ymwelwyr a'r bobl sy'n byw, gweithio a rhedeg busnesau ynddynt, gan ysgogi gweithgarwch economaidd. Felly, mae'n bosibl y bydd unrhyw *ddadleoli* yn cael effaith niweidiol fwy nag sy'n amlwg ar y dechrau, a dylai ACPau ystyried y ffactor hwn.

417. Wrth ystyried *dadleoli* o dan **SAF_01b**, dylai ACPau roi sylw i'r canlynol:

- a yw effeithiau posibl y *dadleoli* o ganlyniad i gynigion newydd yn barhaol neu'n dros dro;
- yr effaith economaidd bosibl (e.e. costau tanwydd uwch neu lai o amser ar y môr, colli incwm neu gychod sy'n llai hyfyw);
- a yw'n bosibl i gychod presennol adleoli;
- effeithiau'r dadleoli ar stociau pysgod eraill a gydnerthedd ecosystemau;
- yr effeithiau tebygol ar elfennau ar y tir sy'n dibynnu ar weithgareddau pysgota masnachol;
- yr effaith bosibl ar gymunedau lleol (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac economaidd).

418. Pan fydd yn bosibl y bydd cynnig yn cael effaith ar bysgota masnachol neu'r ardaloedd sy'n ei gynnal, *anogir* y cynigiwr yn gryf i drafod â rhanddeiliaid perthnasol yn y sector pysgodfeydd cyn gynted ag y bo modd ar bob cam, o’r cysyniad cyntaf ac yn y camau cynllunio a dylunio. Mae'n bosibl y bydd rhanddeiliaid perthnasol yn cynnwys rheolwyr pysgodfeydd lleol, pysgotwyr lleol, ACPau a sefydliadau cynhyrchion pysgod.

419. Dylai ACPau sicrhau bod cynnig yn dangos bod unrhyw effeithiau posibl wedi cael eu hystyried a bod mesurau'n cael eu cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath fel sy'n briodol. Os nad yw'n bosibl osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau niweidiol dylai'r cynigiwr gyflwyno *dadl glir a chref dros fwrw ymlaen*, gan amlinellu sut mae manteision yr achos ar gyfer y cyhoedd yn amlwg yn gwneud iawn am yr effeithiau niweidiol. Bydd adegau pan fydd cynigion yn cael effaith dros dro ar weithgareddau pysgota.

### Diogelu'r sector Porthladdoedd a Morgludo

420. Mae **SAF_01a** yn berthnasol lle mae caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer trwydded forol wedi cael ei roi, lle mae cais i Awdurdod Lleol am ganiatâd cynllunio wedi cael ei gymeradwyo, neu lle mae cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno, fel arfer gan Awdurdod Harbwr, mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae'n gyfrifol amdano'n uniongyrchol (neu'n gyfrifol amdano'n anuniongyrchol yn achos carthu mordwyo, er enghraifft).

421. Dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau morol ystyried eu heffeithiau posibl ar weithrediadau a seilwaith morgludo, porthladdoedd, harbwrs a marinas. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau mae'n bosibl y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn ymyrryd a llwybrau morgludo presennol neu rai sydd wedi eu cynllunio, datblygu mynediad i borthladdoedd a harbwrs a diogelwch mordwyo, a yw ymyrryd yn debygol a pha opsiynau eraill y gellir eu nodi, a lle nad oes unrhyw opsiynau rhesymol eraill, effeithiolrwydd unrhyw fesurau lleihau neu liniaru. Dylid hysbysu Trinity House (a'r MCA os yw y tu hwnt i derfynau Statudol yr Harbwr) am unrhyw waith a allai gael effaith ar fordwyo, neu y gellid ei ystyried yn beryglus iddo, er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw farcio.

422. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau sectorau eraill yn cael effaith ar weithrediadau porthladdoedd a morgludo; gall rhwystrau arwain at deithiau hwy, gan arwain at gostau ariannol ac amgylcheddol (e.e. allyriadau uwch), a phryderon diogelwch, yn benodol ar gyfer cychod a llongau sy'n cludo teithwyr. Mae risgiau posibl yn cynnwys rhagor o wrthdrawiadau neu *ddadleoli* cychod a llongau o angorfeydd diogel, y gall goblygiadau'r rhain fod yn ddifrifol ac felly, dylid eu hosgoi. Mae awdurdodau porthladdoedd yn gweithredu mesurau rheoli cychod a llongau er mwyn rheoli diogelwch a risgiau amgylcheddol a rhyngweithio o fewn eu hawdurdodaeth.

423. Yr achosion mwyaf sylweddol o ryngweithio ar gyfer llongau masnachol pan fyddant yn teithio yw rhyngweithio â gweithgareddau pysgota ac agregau, rhai gweithgareddau twristiaeth a hamdden (yn enwedig yn agos i'r draethlin), neu â seilwaith olew a nwy neu ynni adnewyddadwy. Mae amryw fesurau rheoli a chanllawiau'n cael eu defnyddio yn y sector morgludo i reoli'r rhyngweithio hwn mewn modd diogel, gan gynnwys y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Diogelwch Bywyd yn y Môr 1974[34]. Mae effaith y rhyngweithio â llawer o sectorau yn fach, ac yn aml mae cyfleoedd da ar gyfer rhyngweithio e.e. gall llongau a thechnolegau ffrwd llanw tanforol gydfodoli os sicrheir bod digon o le o dan y cilbren.

424. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau dyframaethu ar wyneb y môr yn ymyrryd â physgota â chwch a mordwyo diogel, ac felly ni ellir eu cymeradwyo ar lwybrau mordwyo allweddol neu mewn lleoliadau cyfyngedig. Fodd bynnag, gall llongau fynd dros ardaloedd meithrin ar wely'r môr yn ddiogel os oes digon o le ar gyfer gwaelod y llong, ac fel arfer gellir ymdrin ag unrhyw wrthdaro sy'n codi, e.e. gan weithrediadau cychod cynaeafu.

[34] Er enghraifft, Rheoliadau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol ar Wrthdrawiadau, Nodiadau Cyfarwyddyd ar y Môr a gyhoeddwyd gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a Hysbysiadau i Forwyr a gyhoeddwyd gan Trinity House.

425. Mae’r gwaith o weithredu porthladdoedd, harbwrs a marinas yn cael ei alluogi drwy greu a chynnal sianeli, glanfeydd a dociau. Mae'n bosibl y bydd angen carthu'r rhain o bryd i'w gilydd, ac yn aml mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal o fewn ffiniau nodedig y porthladd (gweler yr adran ar ddiogelu’r sector Carthu a Gwaredu). Wrth i ganran y llongau mawr gynyddu, mae'n bosibl y bydd yr angen am garthu yn cynyddu hefyd. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i benderfyniadau sy'n gysylltiedig â Phorthladdoedd a Morgludo hefyd ystyried unrhyw benderfyniadau cysylltiedig ynghylch carthu a gwaredu na allai'r datblygiad fynd yn ei flaen os nad yw'r rhain yn cael eu cymeradwyo.

426. Mae **Polisi SAF_01b** yn berthnasol i bob cynnig (gan gynnwys cynigion gan y sector Porthladdoedd a Morgludo) y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith ar lwybrau mordwyo masnachol sefydledig, mannau byrddio peilotiaid ac angorfeydd masnachol y tu allan i ffiniau porthladdoedd, harbwrs a marinas.

427. Dylai cynigion ystyried dwysedd y gweithgareddau llongau yn yr ardal o dan sylw; y math(au) o long, eu gallu i droi a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o nwyddau; yr aflonyddu ar weithgareddau morgludo; ac a yw'r effeithiau'n barhaol neu dros dro. Mae teithiau hwy yn cael effaith ar gostau tanwydd ac allyriadau a allai hefyd effeithio ar amlder y daith sydd eu hangen. Yn ei dro mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar lwyddiant economaidd rhai mathau o nwyddau, neu'n cael dylanwad sylweddol ar y porthladdoedd sy'n cael eu defnyddio. Bydd angen i gynigion hefyd ystyried y polisïau cyffredinol, yn benodol effeithiau llongau ar allyriadau a sŵn. Dylid osgoi *dadleoli* gweithgareddau morgludo lle bo modd ac ystyried ei arwyddocâd o dan **SAF_01b.**

428. Mae risgiau posibl i fordwyo a diogelwch mordwyo yn cynnwys ymyrryd â defnyddio mesurau llwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol, gweithredu sianeli sy'n cael eu cynnal neu ardaloedd lle mae gweithgareddau morgludo’n ddwys (gan gynnwys sicrhau bod digon o le o dan y cilbren); a gweithredu cynorthwyon mordwyo. Dylai cynigion ystyried eu heffaith ar sianeli dynesu ac angorfeydd masnachol sy'n rhan hanfodol o weithrediadau logisteg porthladdoedd a chysgodfeydd diogel ar gyfer llongau, yn ogystal ag ardaloedd sy'n cael eu defnyddio gan longau yn fwy cyffredinol. Ni ddylid rhoi awdurdodiad i gynigion lle mae'n bosibl yr amherir ar ddefnyddwyr mesurau llwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol.

429. Dylid ystyried seilwaith statig o dan neu ar wyneb y môr y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith sylweddol ar y lle o dan y cilbren ar lwybrau mordwyo a nodir, neu’n lleihau’r lle hwnnw. Pan fydd yn bosibl y bydd cynnig yn cael effaith ar ddiogelwch mordwyo, dylai'r cynigiwr gyflwyno Asesiad o'r Risg i Fordwyo yn unol â'r arferion gorau sy'n dangos bod unrhyw effeithiau posibl ar ddiogelwch wedi cael eu hystyried a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hynny. Wrth asesu cynigion y mae'n bosibl y byddant yn cael effaith ar ddiogelwch mordwyo, dylai ACPau ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol, fel Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House ac Awdurdodau Harbwr Statudol.

430. O dan **Bolisi SAF_01b** bydd angen i gynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd mordwyo a morgludo masnachol ddangos y gallant gydfodoli'n ddiogel, oni bai eu

bod yn cyflwyno *achos i fwrw ymlaen* ac yn dangos yn glir bod y manteision i'r cyhoedd yn gwneud iawn am yr effeithiau niweidiol yng nghyd-destun cyfrannu at nodau llesiant Cymru. Ni ddylai ACPau roi caniatâd oni bai eu bod yn fodlon na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch mordwyol nac yn cael effaith annerbyniol ar weithgareddau morgludo a rhyddid mordwyo, a'i fod yn cydymffurfio â chyfraith forol genedlaethol a rhyngwladol. O ystyried y cyfraniad sylweddol mae morgludo a phorthladdoedd Cymru yn ei wneud at yr economi, diogelwch a materion cyfreithiol, ni fydd achosion o'r fath yn arferol a bydd angen eu hystyried yn ofalus.

**Diogelu'r sector Ceblau o dan y Môr**

431. Mae rhyngweithio ffisegol sy'n cynnwys grym yn gallu peri difrod i geblau tanfor, gan arwain at golled economaidd i weithredwyr y ddau weithgaredd a pherygl i ddiogelwch pobl. Mae trwsio difrod i geblau tanfor yn gostus ac yn drwm ar amser, ac mae'n gallu amharu yn sylweddol ar ddosbarthu pŵer a thelegyfathrebu. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod seilwaith ceblau sefydledig yn cael ei ddiogelu'n ddigonol.

432. Dylai datblygwyr prosiect weithio'n agos gyda sectorau a defnyddwyr eraill y môr i sicrhau cydnawsedd â gweithgareddau morol eraill ac i gymryd camau i leihau'r risgiau i unrhyw amharu ar gyflenwadau, boed yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Felly, fel y nodwyd uchod, mae prosesau i gynyddu cydfodoli a chydnawsedd ac i leihau'r perygl o ryngweithio andwyol â sectorau eraill cymaint ag y bo modd wedi cael eu hymgorffori yn arferion gweithio'r sector ceblau, ac yn cael eu hategu gan y broses ymgeisio am ganiatâd.

433. Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol i bob cynnig (h.y. cynigion nad ydynt yn rhyngwladol nac yn cael eu heithrio o dan yr CMCC) (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Ceblau Tanfor) y mae'n yn bosibl y bydd yn cael effaith ar geblau tanfor a safleoedd lle mae ceblau'n cyrraedd y tir lle mae cydsyniad, awdurdodiad neu brydles wedi cael eu rhoi neu lle mae cais ffurfiol am un o'r rhain wedi cael ei gyflwyno. Mae'n berthnasol i'r holl safleoedd lle mae ceblau'n cyrraedd y tir a llwybrau ceblau o fewn rhanbarth glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun (gan gynnwys y rheini sy'n mynd drwy ardal y cynllun ond yn cyrraedd y tir mewn ardaloedd cynlluniau cyfagos).

434. Mae "cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu, ar gyfer ceblau y mae angen caniatâd arnynt, lle mae CNC neu'r Sefydliad Rheoli Morol wedi cytuno bod “cais priodol” wedi cael ei gyflwyno.

435. Mae'r polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd diogelu ceblau tanfor, y safleoedd lle maent yn cyrraedd y tir, a'r seilwaith cysylltiedig ar y tir a fydd yn destun caniatâd cynllunio gan Awdurdod Lleol.

436. Mae ceblau yn osodiadau sefydlog ac unwaith maent wedi cael eu rhoi ar wely'r môr neu wedi cael eu claddu dano mae'n bosibl y byddant yn rhyngweithio â gweithgareddau sy'n cyffwrdd â gwely'r môr. Fel arfer mae ceblau yn cael eu gorchuddio neu eu claddu er mwyn amddiffyn y ceblau eu hunain a hefyd i leihau'r perygl o ryngweithio andwyol â defnyddwyr eraill y môr. Lle nad yw'n bosibl neu'n

ddymunol claddu ceblau, mae'n bosibl y bydd camau diogelu eraill yn briodol (yn unol â gofynion rheoleiddiol ac arferion da'r diwydiant).

437. I raddau helaeth mae camau a gymerir gan y diwydiant ceblau i sicrhau cydnawsedd yn benodol i'r sector a byddant yn gymesur, yn gost-effeithiol ac yn cyd-fynd â'r risgiau. Mae mesurau osgoi yn cynnwys lleoli llwybrau ceblau er mwyn lleihau'r rhyngweithio â sectorau eraill. Mae'n bosibl y bydd camau lliniaru yn cynnwys cyd-leoli, cyhoeddi gwybodaeth am lwybrau ceblau, a nodi gweithgareddau neu risgiau neu annog y gwahanol sectorau i drafod ynghylch cynllunio neu osod ceblau neu weithgareddau cynnal a chadw. Mae mesurau lliniaru'n cynnwys claddu neu amddiffyn ceblau.

438. Y prif sectorau y rhyngweithir â nhw yw:

- Gweithgareddau pysgota: mae prif effeithiau gosod ceblau ar weithgareddau pysgota masnachol yn gysylltiedig â'r angen i ddulliau pysgota sy'n cynnwys cyffwrdd â gwely'r môr osgoi ceblau, a gall hyn arwain at gyfyngiadau ar fynediad i ardaloedd pysgota neu'r angen i addasu arferion pysgota i osgoi dal ceblau. Gall hyn arwain at enillion llai a/neu gostau uwch ar gyfer y diwydiant pysgota. Mae'r risg yng Nghymru yn fach, lle mae'r rhan fwyaf o'r fflyd yn gychod bach nad ydynt yn defnyddio offer treillio nac offer arall a lusgir. Fodd bynnag, mae cychod mwy sy'n defnyddio offer a lusgir yn gweithredu y tu hwnt i chwe milltir forol (yn enwedig i bysgota am gregyn bylchog) mewn ardaloedd lle y gwyddys bod ceblau yn bresennol.
- Carthu agregau: nid oes gweithgareddau ar hyn o bryd mewn ardaloedd lle mae coridorau ceblau, er y gallai hyn newid yn y dyfodol os yw ardaloedd o agregau yn bellach i'r môr mawr yn Sianel Bryste yn cael eu carthu, fel y nodir yn yr CMCC. Bydd angen i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch trwyddedau agregau ystyried lleoliadau ceblau presennol.
- Hyd yn hyn mae gweithgareddau olew a nwy yn y môr mawr wedi canolbwyntio ar ardaloedd oddi ar arfordir Canolbarth a Gogledd Cymru lle y gwyddys bod geblau. Bydd angen i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch trwyddedau olew a nwy ystyried lleoliadau ceblau presennol ac unrhyw glustogfeydd. Mae hyn hefyd yn wir ynglŷn â gweithgareddau piblinellau eraill a phibellau gwastraff sydd ar y cyfan yn nyfroedd y glannau.
- Mae angori cychod a llongau yn peri cryn risg o ddifrod i osodiadau ceblau, a dylid ystyried hynny mewn asesiadau o lwybrau ceblau a chladdu ceblau ar gyfer prosiectau ceblau yn y dyfodol.

439. Dylai cynigion ar gyfer gosod ceblau geisio osgoi ardaloedd sydd o bwys i sectorau eraill e.e. dŵr dwfn neu sianeli morgludo sy'n cael eu carthu (er mwyn caniatáu carthu at ddibenion cynnal a chadw), ardaloedd sy'n bwysig i bysgota ar wely'r môr lle mae'r lle yn gyfyngedig (er enghraifft, lle y gallai newidiadau bach o ran mynediad ar ddibenion pysgota gael effaith fawr ar hyfywedd pysgota yn yr ardal yn ei chyfanrwydd) ac ardaloedd pwysig lle mae potensial da ar gyfer agregau morol. Dylid ystyried y polisïau diogelu ar gyfer y sector eraill sy'n dod o dan yr CMCC yn gynnar yn y broses.

440. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau gosod a chynnal a chadw ceblau'n cael effaith tymor byr ar weithgareddau mordwyo (e.e. dadleoli/risg uwch o wrthdrawiadau). Ystyrir bod hon yn risg dros dro y gellir ei lliniaru drwy fesurau safonol fel dilyn y Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr 1972 – gall Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau roi cyngor yn hyn o beth.

441. Gallai rhyngweithio ac effeithiau eraill gynnwys aflonyddu gan weithrediadau ceblau ar safleoedd archeolegol y gwyddys amdanynt neu safleoedd na wyddys amdanynt. Fel arfer mae'r effaith hon yn lleol iawn, a chydag arolwg trwyadl o lwybrau ceblau posibl, trafodaethau priodol â rhanddeiliaid a gwaith peirianneg priodol ar y llwybrau gellir osgoi, lleihau neu liniaru'r risgiau hyn.

442. Mae amryw gyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol yn bodoli i ddiogelu ceblau rhag cael eu torri neu eu difrodi, er nad yw'r rhain yn nodi ardaloedd penodol lle y gellir rheoli neu wahardd gweithgareddau sy'n peri difrod fel angori neu bysgota ag offer a lusgir. Felly, mae rheoli risgiau'n llwyddiannus yn dibynnu ar roi mecanweithiau ar waith i hybu cydfodoli e.e. gwneud gwybodaeth ar gael am union leoliad ceblau, sicrhau bod partïon yn gwybod am risgiau a chanlyniadau peri difrod ac am fesurau ar gyfer diogelu ceblau. Mae'r Gymdeithas Ceblau Tanfor Ewropeaidd yn gweithio i hyrwyddo a chynorthwyo yn y gwaith o rannu data lleol yn lleol[35], ac maent wedi cyhoeddi datganiad cynghorol ar gychod a llongau yn gweithredu yn agos i geblau tanfor[36]. Mae llwybrau ceblau hefyd yn cael eu nodi gan Swyddfa Hydrograffig y DU, a Phorth Cynllunio Morol Cymru.

**Diogelu'r sector Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff**

443. Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol i bob cynnig y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith ar weithgareddau trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff lle mae caniatâd, awdurdodiad neu brydles wedi cael eu rhoi neu lle mae cais ffurfiol am un o'r rhain wedi cael ei gyflwyno[37].

444. Mae "cais ffurfiol wedi cael ei gyflwyno" yn golygu bod CNC wedi cytuno bod "cais priodol" am drwydded forol wedi cael ei gyflwyno.

445. Mae'r CMCC yn cydnabod bod rheoli dŵr ffo a dŵr gwastraff yn arwain at fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y dylid eu diogelu drwy amddiffyn y

[35] Mae gwybodaeth ar ffurf siartiau digidol yn cael ei gwneud ar gael i ddefnyddwyr y môr yn rhad ac am ddim gan Kingfisher o dan prosiect KIS-ORCA (Kingfisher Information Service – Offshore Renewable & Cable Awareness) am y rhan fwyaf o geblau tanfor yn nyfroedd y DU.

[36] https://www.escaeu.org/news/?newsid=84

[37] Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi eu cynllunio o fewn ceisiadau cynllunio Awdurdodau Lleol, cynlluniau Dŵr Cymru neu Gynlluniau Rheoli Asedau y cytunwyd arnynt gyda CNC, y Llywodraeth a'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr. Mae capasiti seilwaith presennol a seilwaith yn y dyfodol ar gyfer cyflenwi dŵr a chyfleusterau gwastraff yn rhan o CDLlau. Mae buddsoddiadau Dŵr Cymru mewn seilwaith dŵr a charthffosiaeth yn cael eu llywio gan CDLlau ac yn cael eu rheoli mewn Cynlluniau Rheoli Asedau pum mlynedd dreigl. gweler https://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Wastewater/Drainage-and-Wastewater-Management-Plan/Our-Drainage-and-Wastewater-Plans.aspx

sector rhag effeithiau niweidiol gan ddefnyddwyr eraill yr amgylchedd morol. **Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r sector Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff fel arfer yn derbyn sylw drwy gynllunio a rheoleiddio ar y tir**, er y bydd angen trwydded forol ar gyfer unrhyw seilwaith o fewn ardal y cynllun morol. Bydd angen i geisiadau am drwydded forol gael eu hystyried ochr yn ochr â chaniatadau ar y tir.

446. Wrth roi trwydded forol ar gyfer datblygiad y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith ar seilwaith dŵr wyneb neu ddŵr ffo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r ollyngfa i'r amgylchedd derbyn, bydd y penderfynwr yn ystyried i ba raddau mae'r effeithiau'n cael eu lleihau neu eu lliniaru yn effeithiol. Rhaid i gynigion ddangos cydnawsedd. Os nad yw hyn yn bosibl, yna bydd yn rhaid i unrhyw *achos dros fwrw ymlaen* yn y lleoliad hwnnw *o dan amgylchiadau eithriadol* gyflwyno ddadl glir a chref dros fwrw ymlaen

**Diogelu'r sector Twristiaeth a Hamdden**

447. Mae **Polisi SAF__01b** yn berthnasol i bob cynnig (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Twristiaeth a Hamdden) y mae'n bosibl y bydd yn cael effaith ar weithgareddau twristiaeth a hamdden, boed y rheini yn weithgareddau presennol neu weithgareddau wedi eu cynllunio y gwyddys amdanynt. Bydd yn rhaid i gynigion y mae'n debygol y byddant yn cael *effeithiau niweidiol sylweddol* ar weithgaredd sefydledig (boed yn destun awdurdodiad ffurfiol neu beidio) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â phroblemau cydnawsedd. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried yr effeithiau posibl ar weithgareddau twristiaeth a hamdden, a'u bod wedi cymryd camau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau a nodwyd mewn modd sy'n briodol i'w harwyddocâd. Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd gyflwyno *dadl glir a chref dros fwrw ymlaen* .

448. Mae'n bosibl y bydd effeithiau niweidiol cyffredinol amrywiaeth o weithgareddau ar dwristiaeth a hamdden yn arwain at werth mwynderau yn gostwng drwy amrediad o amgylchiadau, er enghraifft:

- dirywiad mewn ansawdd aer neu ddŵr;
- dirywiad yn apêl esthetig y dirwedd a'r morwedd;
- mynediad gwaeth at safle neu ddiogelwch safle, gan arwain at weithgaredd yn cael ei atal neu'i *ddadleoli;*
- risg uwch o gychod a llongau'n gwrthdaro â strwythurau sefydledig;
- cystadlu dros adnoddau a rennir gan arwain at bwysau ar yr adnoddau hynny, er enghraifft, pysgota;
- colli bioamrywiaeth sy'n bwysig i dwristiaeth a hamdden.

449. Mae canllawiau anstatudol ar gael ar effeithiau gosodiadau ynni adnewyddadwy ar syrffio[38] a gweithgareddau cychod hamdden[39] Mae'n bosibl y bydd typoleg

[38] Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth 2009

[39] Cymdeithas Hwylio Brenhinol: http://www.rya.org.uk/KNOWLEDGE-ADVICE/OFFSHORE-RENEWABLES/Pages/hub.aspx

cymunedau arfordirol yn rhoi syniad ynghylch problemau posibl at ddibenion asesu'r effaith ar dwristiaeth a hamdden.

450. Mae'n bosibl y bydd asesiadau o effeithiau tebygol datblygiad neu weithgaredd arfaethedig ar dwristiaeth neu hamdden yn ystyried y canlynol, yn ôl y gofyn:

- y mathau o weithgareddau twristiaeth sy'n cael eu cynnal yn yr ardal;
- nifer a gwasgariad daearyddol y rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd yn yr ardal, ac yn ystod pa dymor ac amser maent yn cymryd rhan;
- y rhyngweithio rhwng defnyddwyr y môr, twristiaid a chymunedau lleol; gan gynnwys un yn dadleoli'r llall ac unrhyw wrthdaro posibl;
- y potensial ar gyfer cydfodoli â sectorau eraill;
- diogelwch mordwyo (mewn perthynas â gwrthrychau ar wyneb y môr neu dani), llwybrau mordwyo sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd (yn benodol y rhai sy'n cael eu defnyddio mewn sianeli cyfyngedig neu sianeli dynesu), ardaloedd ar gyfer cychod cyffredinol, ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau hamdden – gan gynnwys cystadlaethau, mynediad, angori a chlymu cychod;
- cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y sector Twristiaeth a Hamdden (gan gynnwys unrhyw newid yn nifer y swyddi tymhorol a allai o bosibl arwain at ansicrwydd economaidd) ac unrhyw effeithiau lluosol ar yr economi;
- gwariant ar dwristiaeth a hamdden ac unrhyw effeithiau lluosol ar yr economi;
- yr effaith ar ansawdd yr amgylchedd a chyrchfannau, gan gynnwys ansawdd dŵr ymdrochi a statws y Faner Las;
- gweithgareddau wedi eu cynllunio y gwyddys amdanynt (e.e. wedi eu nodi mewn CDLl neu raglenni neu gynlluniau perthnasol eraill).

451. Mae'n bosibl y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau gan sectorau eraill neu newidiadau i bolisïau arwain at *ddadleoli* gweithgareddau twristiaeth neu hamdden yn barhaol, neu aflonyddu arnynt, gan arwain at golledion cymdeithasol neu economaidd neu ragor o bwysau ar gyrchfannau eraill.

452. Dylai cynigion ystyried natur, dwysedd a gwerth y gweithgaredd twristiaeth neu hamdden sefydledig yn ardal y datblygiad arfaethedig, a goblygiadau unrhyw aflonyddu neu *ddadleoli* posibl, gyda phwyslais ar weithgareddau sy'n bwysig o safbwynt masnach neu hamdden, i ba raddau mae'r effeithiau'n gronnol neu'n rhyngweithio a pha mor barhaol ydynt.

453. Er bod y rhan fwyaf o weithgareddau twristiaeth a hamdden yn cael eu cynnal o fewn tair milltir forol o'r arfordir, mae nifer y defnyddwyr yn gostwng yn sydyn wrth fynd yn bellach o'r traeth. Ceir y nifer uchaf o ddefnyddwyr mewn ardal gul yn agos i'r traeth. Fodd bynnag, mae nifer is o enweirwyr, hwylwyr a phlymwyr mwy profiadol yn gweithredu yn bellach i'r môr mawr drwy gydol y flwyddyn pan fydd amodau tywydd yn caniatáu. Mae'r ardaloedd hyn yn werthfawr iawn i'r defnyddwyr hyn, a bydd rhaid i benderfynwyr ystyried y gweithgareddau hyn.

454. Pan fydd yn bosibl y bydd cynnig yn cael effaith ar weithgaredd hamdden neu dwristiaeth, anogir yr ymgeisydd yn gryf i drafod â gweithredwyr yn y sector perthnasol a'u grwpiau cynrychiadol cyn gynted ag y bo modd ar bob cam, o'r cysyniad cyntaf ac yn y camau cynllunio a dylunio. Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau roi manylion yr holl fesurau maent wedi eu rhoi ar waith i osgoi effeithiau niweidiol ar gymunedau arfordirol ac i sicrhau cydfodoli â sectorau eraill (gweler **Polisïau SOC_01**, **02** a **04** a **ECON_02**).

455. Pan fydd achosion o wrthdaro, yn aml maent dros dro ac yn ofodol, a'r ffordd orau o'u rheoli yw drwy addysg a gweithredu arferion da/codau.

456. Yn y dyfodol, bydd data gwell i helpu yn y gwaith o gynnal asesiadau a gwerthusiadau cadarn o weithgareddau twristiaeth a hamdden, eu manteision a chyfleoedd, ac effeithiau posibl arnynt, yn helpu'r sector i gael ei gynrychioli'n well drwy gynllunio morol.

### 3.2.3 SAF_02: Diogelu Adnoddau Strategol

457. Mae diogelu o dan **Polisi SAF_02** yn dibynnu ar natur yr adnodd a nodwyd a natur y sector, a bydd yn cael ei weithredu drwy nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer sectorau penodol. Bydd y polisi yn berthnasol i Ardal Adnoddau Strategol o'r adeg y cyflwynir yr AAS nes cyhoeddi HCM.

Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid oes yr un AAS wedi cael ei nodi mewn cysylltiad â'r CMCC. Os nodir AASau, bydd yr Arweiniad hyn yn cael eu diweddaru fel sy'n briodol.

# 4 Atodiad 1: Geirfa

## 4.1 Acronymau

| | |
|---|---|
| AAS | Ardal Adnoddau Strategol |
| ACP | Awdurdod Cyhoeddus Perthnasol |
| AEA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| AON | Yr Awdurdod Olew a Nwy |
| ARhAA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| CCN | Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CMCC | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Confensiwn Llundain | Y Confensiwn Rhyngwladol ar Atal Llygredd Morol trwy Waredu Gwastraff a Deunyddiau Eraill 1972 |
| CRhT | Cynllun Rheoli Traethlin |
| DLlCD | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| DPC | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| ESA | Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| GCD | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| HCM | Hysbysiad Cynllunio Morol |
| MARPOL | Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau 1973 |
| MCAA | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |
| MPS | Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig 2011 |
| OPRED | Rheoleiddiwr Petrolewm ar y Môr ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu |
| OSPAR | Confensiwn Rhyngwladol Oslo a Paris ar gyfer Diogelu Amgylchedd Forol Gogledd-ddwryain Cefnfor Iwerydd 1992 |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| PSAC | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| SNCB | Corff Cadwraeth Natur Statudol |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Forol y DU | Mae hon yn berthnasol i Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE (2008) yn y DU |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) |
| WER | Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 – yn berthnasol i Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y UE (2000) yn y DU |
| WMER | Adroddiad ar Dystiolaeth Forol Cymru |

## 4.2 Diffiniadau

Dylai'r polisïau a'r arweiniad ar eu defnyddio gael eu dehongli fel a ganlyn

| **Term** | **Dehongliad yn yr CMCC a'r Arweiniad Cyflawni** |
|---|---|
| **Amgylchiadau eithriadol** | Nid yw *amgylchiadau eithriadol* yn berthnasol i Bolisi diogelu sector **SAF_01a** (h.y. rhyngweithio sector-sector) ond lle nad yw asesiad yn gallu dangos bod cynnig yn gallu osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol ar weithrediadau sectorau sydd eisoes yn bodoli neu'r adnoddau y mae'r sectorau presennol hyn yn dibynnu arnynt  Gwneir penderfyniad ynghylch cynigion fesul achos ond mae rhai ystyriaethau cyffredinol wrth ddiffinio *amgylchiadau eithriadol* yn berthnasol. Sail unrhyw ddehongliadau o *amgylchiadau eithriadol* yw'r angen i (a) diogelu'r amgylchedd (b) diogelu iechyd pobl ac (c) atal ymyrryd â defnyddwyr cyfreithiol y môr. |
| **Ardal Forol Cymru** | Yn ôl diffiniad adran 43 o'r MCAA, yn gymaint ag y mae'n berthnasol i Ardal Cymru, dyma'r ardal o fewn y ffiniau tua'r môr yn nyfroedd y môr mawr ac ardal y glannau gyfagos i Gymru. |
| **Awdurdod Cynllun Morol** | Ar gyfer yr CMCC, Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Cynllunio Morol (adran 50 o'r MCAA). |
| **Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (ACPau)** | Mae ACPau yn cael eu diffinio ar wahân gan yr MCAA a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Pan fydd yr CMCC neu'r Arweiniad Cyflawni yn cyfeirio at ACPau cynhwysir y ddau ddiffiniad hyn.<br><br>Mae'r MCAA (rhan 11, adran 322) yn diffinio "Awdurdod Cyhoeddus Perthnasol" fel a ganlyn:<br><br>● Gweinidog y Goron;<br>● corff cyhoeddus, gan gynnwys: adran lywodraethol, Adran yng Ngogledd Iwerddon, Awdurdod Lleol (mewn perthynas â Chymru, cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned; mewn perthynas â Lloegr, cyngor sir, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain neu gyngor Ynysoedd Syllan; mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, cyngor rhanbarthol), Awdurdod Cynllunio Lleol, ymgymerydd statudol (person sy'n gyfrifol neu yr ystyrir ei fod yn gyfrifol am y darpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (pennod 8);<br>● deiliad swydd gyhoeddus (e.e. Ystad y Goron), gan gynnwys swydd o dan y Goron, swydd a grëwyd neu sy'n parhau i fodoli o dan ddeddf gyhoeddus gyffredinol neu o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddatganoledig, swydd a ariannir gan y Senedd neu drwy ddeddfwriaeth ddatganoledig. |

| | |
|---|---|
| | Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn diffinio "Awdurdod Cyhoeddus" fel a ganlyn:<br>● Gweinidogion Cymru;<br>● Prif Weinidog Cymru;<br>● Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru;<br>● Gweinidog y Goron;<br>● corff cyhoeddus (gan gynnwys adran o'r Llywodraeth, Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol, panel cynllunio strategol);<br>● deiliad swydd:<br>– o dan y goron;<br>– a grëwyd neu sy'n parhau i fodoli o dan Ddeddf Cynlluniad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU; neu<br>– swydd y mae'r tâl cydnabyddiaeth yn cael ei dalu ag arian a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU.<br>● ymgymerydd statudol |
| **Awdurdodiad** | Mae adran 58 o'r MCAA yn diffinio awdurdodiad fel *"unrhyw gymeradwyaeth, cadarnhad, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu awdurdodiad arall (ni waith fo ei ddisgrifiad), boed yn arbennig neu'n gyffredinol. "* |
| **Arweiniad Cyflawni** | Mae Arweiniad Cyflawni yn ddeunyddiau cynllunio ategol sy'n cyd-fynd â CMCC i gefnogi'r gwaith o gynllunio morol yng Nghymru. Maent yn rhoi trosolwg o ffyrdd ymarferol o weithredu gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r CMCC. Mae angen eu hystyried wrth wneud penderfyniadau a dylai ymgeiswyr ac ACPau gyfeirio at yr CMCC a'r Arweiniad Cyflawni gyda'i gilydd. Nid yw'r Arweiniad Cyflawni yn cyflwyno polisïau newydd. |
| **Cefnogaeth/cefnogi** | Pan fydd polisi neu ei ganllawiau ar gyflawni yn cyfeirio at "**cefnogaeth**" gan Awdurdod Cyhoeddus mae'n cyfeirio at y ffaith y disgwylir i'r awdurdod ystyried elfennau perthnasol y cynnig yn ffafriol lle mae wedi bodloni gofynion y polisi hwn – fodd bynnag, dylid ystyried pob polisi arall hefyd. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd y cynnig yn derbyn caniatâd – gwneir penderfyniad yn hyn o beth drwy'r gweithdrefnau asesu. Yn yr un modd, nid yw'n awgrymu unrhyw gymorth gweithredol neu ariannol gan yr awdurdod. |
| **Cydfodoli** | Lle mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn gallu cydfodoli ochr yn ochr neu'n agos at ei gilydd yn yr un lle ac/neu ar yr un amser. |
| **Cydleoli** | Mae cydleoli yn un o is-elfennau cydfodoli lle mae nifer o ddatblygiadau (yn aml strwythurau), gweithgareddau neu |

| | |
|---|---|
| | fathau o ddefnydd yn cydfodoli yn yr un lle drwy rannu'r un ôl troed neu arwynebedd yn yr amgylchedd morol. Gall "ôl troed" gynnwys lleoliad ffisegol datblygiad neu weithgaredd, e.e. strwythur adeiledig, a'r ardal ehangach sy'n gysylltiedig â'r datblygiad neu'r gweithgaredd, e.e. parth diogelwch o amgylch y lleoliad. Gallai gynnwys llunio prosiectau i alluogi nifer o bartïon i ddefnyddio ardal yn y môr. |
| **Cyfleoedd** | Mae cyfleoedd yn cyfeirio at y potensial ar gyfer fesurau, cynigion neu weithgareddau at ddibenion datblygu neu ddefnyddio yn y dyfodol. |
| **Cyflwyno dadl glir a chref dros fwrw ymlaen** | Mae "*Cyflwyno dadl glir a chref dros fwrw ymlaen"* yn gysylltiedig â nifer o bolisïau yn yr CMCC. Rhaid i gynigion y mae'n debygol y byddant yn cael *effaith (neu effeithiau) niweidiol arwyddocaol* na ellir ymdrin â hi drwy fesurau osgoi, lleihau neu liniaru *gyflwyno dadl glir a chref dros fwrw ymlaen.* Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cyflwyno digon o wybodaeth am natur a maint yr effeithiau, a dylai cynigion roi cyfiawnhad sy'n dangos yn ddigonol y rhesymau dros hyn. Gwneir penderfyniadau ynghylch cynigion fesul achos. |
| **Cyfyngiadau** | Mae cyfyngiadau'n cyfeirio at ddeall ac integreiddio ffactorau a allai atal neu gyfyngu ar ddatblygu neu ddefnyddio ardal y cynllun. |
| **Cynnig** | Cynigion yw unrhyw geisiadau neu gyflwyniadau i ACPau ynglŷn â datblygiad presennol yn yr amgylchedd morol neu ffordd o'i ddefnyddio a'i adnoddau, neu unrhyw newid i ddatblygiad neu ddefnydd, sy'n cael ei reoli gan Awdurdodau Cyhoeddus lle mae awdurdodiad yn ofynnol ar gyfer unrhyw weithred sy'n cael effaith neu effaith bosibl ar ardal forol y DU. Mae unrhyw weithredu yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) mesur sydd â'r potensial i gael effaith ar yr holl ardal forol.<br><br>Ar gyfer unrhyw benderfyniadau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaeth Awdurdod Cyhoeddus, mae "cynnig" yn ymwneud â chynhyrchu gwybodaeth neu amrywio gwybodaeth bresennol i lywio "Penderfyniad" gan Awdurdod Cyhoeddus y mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar ardal forol y DU, boed hynny ar yr ardal gyfan neu ran ohoni. |
| **Dadleoli** | Mae dadleoli yn digwydd pan fydd gweithgaredd yn cael ei symud (o ran amser neu leoliad) oherwydd bod gweithgaredd wedi cael ei gyflwyno neu o ganlyniad i effeithiau gweithgaredd eraill. |

| | |
|---|---|
| **Dangos** | Darparu tystiolaeth gymesur sy'n galluogi Awdurdodau Cyhoeddus i ddod i'r casgliad priodol wrth benderfynu a yw cynnig yn cyd-fynd â pholisïau'r CMCC. |
| **Datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol** | Mae hyn yn cyfeirio at yr holl weithgareddau sy'n defnyddio'r amgylchedd morol. Gall gynnwys gweithgareddau presennol, gweithgareddau sydd ar y gweill a gweithgareddau yn y dyfodol, a gweithgareddau a reoleiddir a gweithgareddau nas rheoleiddir. |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Datblygu Cynaliadwy yw'r "*broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.*" |
| **Defnyddiwr y cynllun** | Pawb sydd â diddordeb yn y polisïau a amlinellir yn yr CMCC |
| **Derbynnydd** | Ardaloedd amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd neu fuddiannau y mae'n bosibl y byddant yn agored i effeithiau niweidiol. |
| **Dylai** a **Rhaid** | Lle mae polisi neu ei ganllawiau ar gyflawni yn dweud "**rhaid**" mae'n ymwneud â gweithred orfodol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau a/neu'r arferion gorau. Os nad yw'r cynigion yn cydymffurfio â gofynion polisi o'r fath, mae'n debyg y bydd y penderfynydd yn gwrthod ystyried y mater nes bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.<br><br>Lle mae polisi neu ei ganllawiau ar gyflawni yn dweud "**dylai**", mae'n mynegi opsiwn a ffefrir ond argymhelliad yw. Fodd bynnag, os gwneir penderfyniad ynghylch gweithgaredd arfaethedig yn unol â'r meini prawf asesu cysylltiedig, mae'n llawer mwy tebygol y bydd y cynnig yn derbyn caniatâd os cydymffurfir â'r opsiwn a ffefrir yn y polisi ("dylai"). Mewn rhai achosion ni fydd y gweithgaredd arfaethedig yn derbyn cymeradwyaeth nes bod y gofynion hyn wedi cael eu bodloni. |
| **Hysbysiadau Cynllunio Morol (HCMau)** | Mae HCMau yn ddeunyddiau cynllunio ategol wedi eu cyflwyno fel cyfres o ddogfennau technegol. Mae HCMau yn ystyriaeth berthnasol a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r CMCC a'r Arweiniad Cyflawni. HCMau yw'r mecanwaith ar gyfer cyflwyno neu ddiwygio gweithdrefnau cynllunio morol (e.e. AASau). Maent yn darparu arweiniad technegol (yn berthnasol i leoliad neu bwnc) ar gyfer gweithredu polisïau penodol yr CMCC neu ddatblygiadau mewn ardaloedd penodol. Maent yn cynorthwyo i ddehongli, ac mewn rhai amgylchiadau, gweithredu polisïau'r CMCC. Bydd HCMau yn cael eu datblygu, eu diwygio neu eu tynnu'n ôl gan yr Awdurdod Cynllunio Morol fel sy'n briodol. Bydd pob HCM yn |


| | |
|---|---|
| | destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn cael ei fabwysiadu, ei amrywio neu ei dynnu'n ôl. |
| **Lle bo hynny'n briodol** | Pan fydd polisi neu ei ganllawiau ar gyflawni yn dweud "**lle bo hynny'n briodol**", mae'n golygu y dylid cymryd camau rhesymol i weithredu'r polisi mewn modd cymesurol. |
| **Lle bo modd** | Pan fydd polisi neu ei ganllawiau ar gyflawni yn dweud "**lle bo modd**", mae'n golygu y dylid bodloni'r polisi lle bynnag y bod hynny'n ymarferol, ond y dylai ACP gydnabod efallai na fydd bodloni polisi'n bosibl ym mhob achos a defnyddio disgresiwn. |
| **Lleihau** | Lleihau yw gofyn am weithredu yn y tarddiad i gynllunio a llunio cynigion i leihau effeithiau niweidiol cymaint ag y bo modd neu i'r lefel isaf posibl. Mae lleihau yn golygu lleihau lefel y pwysau a grëir.<br><br>Mae enghreifftiau o leihau'n cynnwys: defnyddio deunyddiau sy'n cael effaith lai; lleihau maint y datblygiad. |
| **Lliniaru** | Lle na ellir osgoi neu leihau effeithiau pwysau yn y tarddiad, ac mae'r pwysau hynny'n cael effaith ar dderbynyddion, dylid cymryd camau i sicrhau bod canlyniadau'r effeithiau'n llai difrifol. Lliniaru yw lleihau'r effaith mae lefel benodol o bwysau'n ei chael ar y derbynnydd.<br><br>Mae enghreifftiau o liniaru'n cynnwys: cyfyngiadau amseriad i osgoi cyfnodau sensitif neu weithgareddau eraill; cyflwyno mesurau i atal unrhyw effeithiau rhag gwasgaru a lledaenu. |
| **Osgoi** | Mae osgoi yn golygu gweithredu yn y tarddiad i gynllunio, llunio a gweithredu cynigion er mwyn atal effaith niweidiol rhag digwydd. I gyflawni hyn, lle nodir effeithiau niweidiol dylai'r cynnig gael ei addasu fel nad yw bellach yn peri pwysau, neu nad yw'r pwysau a achosir yn effeithio ar dderbynnydd.<br><br>Mae enghreifftiau o osgoi yn cynnwys y canlynol: peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig; adleoli'r cynnig; newid i ddeunyddiau neu dechnegau nad ydynt yn cael effaith niweidiol. |
| **Osgoi/lleihau/lliniaru** | Mae hierarchaeth osgoi-lleihau-lliniaru wedi'i chynnwys mewn nifer o bolisïau yn yr CMCC. Mae'r effeithiau a ystyrir o dan yr hierarchaeth hon yn gallu bod ar baramedrau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol neu economaidd. |
| **Penderfyniadau** | Mae penderfyniadau'n cael eu diffinio yn adran 58 o'r MCAA ac maent yn gysylltiedig â phenderfyniadau a wneir gan "Awdurdodau Cyhoeddus". Mae dau fath o benderfyniad: "awdurdodi" a "gorfodi" (fel y'u diffinnir uchod) ac unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod Cyhoeddus sydd â'r gallu i effeithio ar ardal forol y DU, yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol, lle mae'n rhaid i'r Awdurdod Cyhoeddus ystyried y CMCC. |
| **Penderfyniadau awdurdodi neu orfodi** | Mae adran 58 o'r MCAA yn dweud bod rhaid i awdurdod cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniad awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol perthnasol (yr CMCC a'r MPS) oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn mynnu fel arall.<br><br>Mae penderfyniadau awdurdodi neu orfodi yn cynnwys a canlynol:<br><br>a) Penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw gais (lle bynnag y cafodd ei wneud) am awdurdodiad i gyflawni unrhyw weithred sy'n effeithio, neu a allai effeithio ar ardal forol gyfan y DU neu unrhyw ran ohoni;<br>b) Unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag unrhyw amodau awdurdodiad o'r fath;<br>c) Unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag estyn, disodli, amrywio, dirymu neu dynnu'n ôl unrhyw awdurdodiad neu unrhyw amodau o'r fath (pryd bynnag y cawsant eu rhoi neu eu gosod);<br>d) Unrhyw benderfyniad mewn perthynas â gorfodi unrhyw awdurdodiad neu amodau o'r fath;<br>e) Unrhyw benderfyniad mewn perthynas â gorfodi unrhyw waharddiad neu gyfyngiad (pryd bynnag y cafodd ei osod) ar gyflawni unrhyw weithred, neu unrhyw ddeddf o unrhyw ddisgrifiad, sy'n dod o dan (a).<br><br>Ar gyfer unrhyw gais am ganiatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, rhaid i'r ACP ystyried y dogfennau polisi morol priodol (gan gynnwys yr CMCC) wrth wneud penderfyniad ynghylch gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu. |
| **Penderfynwyr** | Y "Cyrff Cyhoeddus (Perthnasol)" sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ardal forol (gweler hefyd "ACP") |
| **Rhanbarth y glannau** | Disgrifiad adran 322(1) o'r MCAA o ranbarth glannau Cymru yw ardal y môr o fewn ffiniau tua'r môr y dyfroedd tiriogaethol gyfagos i Gymru. |
| **Rhanbarth y môr mawr** | Mae rhanbarth môr mawr Cymru yn cael ei ddisgrifio yn adran 322(1) o'r MCAA, gan fod cymaint o ardal Cymru y tu hwnt i ffiniau tua'r môr y môr tiriogaethol |
| **Twf Glas** | Twf a datblygiad economaidd sy'n ategu tegwch cymdeithasol, wrth sicrhau bod ein hasedau naturiol yn gallu |

| | |
|---|---|
| | parhau i ddarparu'r adnoddau a'r manteision amgylcheddol y mae ein llesiant yn dibynnu arnynt. |
| **Y Môr** | Yn ôl diffiniad adran 42(3) o’r MCAA mae'r môr yn cynnwys unrhyw ardal sydd o dan ddŵr yn ystod penllanw cymedrig y gorllanw, a dyfroedd pob aber, afon neu sianel, hyd gyrhaeddiad y llanw yn ystod penllanw cymedrig y gorllanw. Mae hyn yn cynnwys dyfroedd mewn unrhyw ardal sydd wedi'i chau, yn barhaol neu o bryd i'w gilydd, gan loc neu unrhyw ddull artiffisial arall sy'n gweithredu yn erbyn y llanw, ond y caniateir i ddŵr y môr lifo iddynt, boed hynny'n barhaus neu o bryd i'w gilydd, ac y caniateir i ddŵr y môr lifo ohonynt, boed hynny'n barhaus neu o bryd i'w gilydd. |
| **Ymgeiswyr** | Yr unigolion neu’r sefydliadau hynny sy’n paratoi ac yn cyflwyno cynigion i ACPau iddynt wneud penderfyniad(au) yn eu cylch. |


# 5 Atodiad 2: Mapiau Dangosol

Mae deall y berthynas ofodol rhwng adnoddau naturiol y mae'n bosibl eu bod yn bwysig at ddibenion sector, ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn agwedd bwysig ar y gwaith o reoli'r môr. Mae'r gyfres hon o fapiau dangosol yn dangos Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a lleoliad y nodweddion cynefin morol a oedd yn sail iddynt gael eu dynodi, a'r ffordd y maent yn gysylltiedig ag adnoddau naturiol penodol megis agregau neu ynni adnewyddadwy'r môr. Mapiau dangosol ydynt a gallent newid; dylai datblygwyr a phenderfynwyr droi at y mapiau ar Borthol Cynllunio Morol Cymru http://lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy.




Ardaloedd Morol Gwarchodedig
ac Adnodd Agregau
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Ardaloedd Cadwraeth Morol (ACM)
Ardal Cadwraeth Arbennig
(ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau) (ACA)
Ardal Cadwraeth Arbennig Llamhidyddion Harbwr
Ardal Gwarchod Arbennig (ar gyfer adar) (AGA)
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
Ramsar
Adnodd Agregau
Terfyn 12 milltir forol
Ardal CMCC
0
25
50km
Chwefror 2019


## Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Adnodd Dyframaeth




# Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Adnodd Ynni Amrediad Llanw





## Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Adnodd Ynni'r Llif y Llanw





## Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Adnodd Ynni'r Tonnau






Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
GLANNAU MÔN:
CORS HELI
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0 1 2 3 km
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
BAE CEREDIGION
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0
5
10
15km
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
BAE CAERFYRDDIN AC ABEROEDD
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ynni Tonnau
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0 5 10km
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
BAE CEMLYN
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Dyframaethu
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0
100
200
300 metrau
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
CROKER CARBONATE SLABS
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0 1 2 3 4km
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
ABER DYFRDWY
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0
5km
Mai 2019



Adnoddau Morol a Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
CYNFFIG
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0
1
2
3km
Mai 2019


Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
ARFORDIR CALCHFAEN
DE ORLLEWIN CYMRU
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ynni Tonnau
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0 5 10 15km
Mai 2019


Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
Y FENAI A
BAE CONWY
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0
5
10km
Mai 2019


Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
SIR BENFRO
FOROL
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ynni Tonnau
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0 5 10 15km
Mai 2019


Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
PEN LLYN
A`R SARNAU
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
0
5
10
15km
Mai 2019


Adnoddau Morol a Nodweddion
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
MÔR HAFREN
Map dangosol yw hwn yn unig
DDIM I'W DEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
Agregau
Dyframaethu
Ynni Amrediad Llanw
Ynni Llif y Llanw
Ardal Cadwraeth Arbennig Morol
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Ardal CMCC
0
5
10
15km
Mai 2019